Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 19eg Ionawr, 2016 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Bethan Richardson<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.gov.uk |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 15fed O DACHWEDD 2015 | | | 1 - 4 |
| 6 | NEWIDIADAU YN Y GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNWYSIAD | Cyng/Cllr.<br>Gareth Thomas | Iwan Trefor Jones | 5 - 53 |
| 7 | CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016-20 | Cyng/Cllr.<br>Ioan Thomas | Geraint Owen | 54 - 78 |
| 8 | ADOLYGIAD ANGHENION LLETYA SIPSIWN A THEITHWYR GWYNEDD A MON | Cyng/Cllr.<br>Dafydd Meurig a Ioan Thomas | Arwel Owen | 79 - 175 |
| 9 | YMGYNGHORIAD AR DDYFODOL CARTREF Y FRONDEG | Cyng/Cllr.<br>W Gareth Roberts | Olwen Ellis Jones | 176 - 218 |
| 10 | YMCHWILIAD IAITH - Y GYMRAEG MEWN CYFARFODYDD | Cyng/Cllr.<br>Dyfrig Siencyn | Arwel Ellis Jones | 219 - 248 |

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**
**COFNODION**
**15 Rhagfyr 2015**

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.

Y Cynghorydd Angela Russell.

**Hefyd yn bresennol** –
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G D Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dewi Aeron Morgan (Uwch Reolwr Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – Cofnod).

**1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet, y Cyng. Angela Russell a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Rowlands.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Croesawyd Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y Cyng. Angela Russell, i'r cyfarfod gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

Croesawyd y cyfle, gan yr holl Aelodau oedd yn bresennol, i gryfhau'r llinellau cyfathrebu rhwng y Cabinet a Phwyllgorau Craffu. Nodwyd mai arbrawf oedd cyflwyno'r adroddiad oedd ger bron, er mwyn rhannu argymhellion Pwyllgorau a Gweithgorau Craffu gydag Aelodau'r Cabinet, ac er mwyn derbyn ymateb ffurfiol Aelodau'r Cabinet i'r argymhellion hynny.

Ymatebion i'r adroddiad a gyflwynwyd –

A. Eitem – Yr Iaith Gymraeg a'r Drefn Gynllunio
Cadarnhaodd y Cyng. Dafydd Meurig y byddai yn croesawu mewnbwn y Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau i'r broses o greu'r Canllaw Polisi Cynllunio newydd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol.

B. Eitem – Cytundebau Adran 106
Cadarnhaodd y Cyng. Dafydd Meurig ei fod yn croesawu argymhelliad y Pwyllgor Craffu Cymunedau i greu gweithgor o Gynghorwyr a Swyddogion fyddai'n cydweithio â phobl broffesiynol yn y maes er mwyn edrych ar amrywiol opsiynau o sut i weithredu Cytundebau Adran 106.

C. Eitem – Cludiant Ôl-16
Amlinellwyd bryderon y Pwyllgor Craffu Cymunedau, sef eu bod yn dal i aros am ymateb i'w argymhellion a gyflwynwyd i'r Aelod Cabinet Addysg fis Rhagfyr 2014.

Ymatebodd y Cyng. Gareth Thomas i'r ymholiadau yn y drefn y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod –

a) i. Unwaith y bydd yr Adran Addysg yn ymwybodol o sefyllfa o orlenwi, maent yn ymateb iddi'n syth, fel arfer drwy ddarparu mwy o fysus.
   ii. Mae'n trafodaethau'n parhau gyda chwmnïau bysus er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.
   iii. Mae hwn yn fater sy'n dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, a chytunodd yr Aelod Cabinet Rheoleiddio i gysylltu â'r Llywodraeth er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.
   iv. Gan nad oedd hwn yn argymhelliad a gyflwynwyd gan y Gweithgor Craffu, cytunodd y Cyng. Gareth Thomas i wneud ymholiadau pellach ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu cyn Medi 2016, yn y gobaith y byddai modd gweithredu system newydd erbyn dechrau blwyddyn addysgol 2016/17.

Cadarnhawyd y byddai'r Aelod Cabinet yn ail ymddangos ger bron y Pwyllgor Craffu i gadarnhau pa argymhellion sydd wedi eu gwireddu er mwyn eu gweithredu o fis Medi 2016, ac hefyd y byddai'r Aelod Cabinet yn cynnig adroddiadau yn y cyfamser pe byddai materion yn codi ble byddai mewnbwn Craffu o gymorth.

Cytunwyd i barhau gyda'r drefn o drafod materion sy'n codi o Bwyllgorau Craffu mewn cyfarfodydd Cabinet i'r dyfodol. Byddai cofnod o'r drafodaeth hon yn cael ei gylchredeg ymysg aelodau Pwyllgorau Craffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 24AIN O DACHWEDD 2015**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y Cabinet a gynhaliwyd ar 24ain o Dachwedd 2015.

**6. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2014/15 – MEYSYDD AMGYLCHEDD, AMDDIFADEDD, ECONOMI A CHYMUNED**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Wyn Edwards.

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad i'r cyfarfod.

**7. DATGANIAD ANSAWDD BLYNYDDOL CARTREFI PRESWYL NYRSIO GWYNEDD 2014/15**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.
Eiliwyd gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Mae'r Cabinet yn derbyn y 'Datganiad Ansawdd Blynyddol' ar gyfer 2014/15 (Atodiad 1 i'r adroddiad i'r cyfarfod).

Cytunwyd i dderbyn 'Datganiad Ansawdd Blynyddol' fel eitem flynyddol barhaus i'r Cabinet yn y dyfodol.

**8. ADRODDIAD GWERTHUSO PERFFORMIAD AROLYGAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014/15**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.
Eiliwyd gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014/15 a gyflwynwyd fel Atodiad 1 i'r cyfarfod.

**9. BLAENRAGLEN WAITH CABINET CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfed Wyn Edwards.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.25pm.

________________________________________

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I'R CABINET

19 Ionawr, 2016

**Aelod Cabinet:** Cyng. Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg

**Pwnc:** Newidiadau yn y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

**Swyddog Cyswllt:** Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Y penderfyniad a geisir**

1. Parhau i gynnal trafodaethau gyda Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn ymchwilio'r cyfle i lunio Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gyffredin a fydd yn cyfarch anghenion y disgyblion a'r bobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon.
2. Cymeradwyaeth y Cabinet o Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad; gan ddal sylw i'r bwriad yn 1.
3. Cymeradwyaeth o'r Achos Busnes - sef buddsoddiad unwaith ac am byth o hyd at £1,380,131 er mwyn dangos arbediad blynyddol parhaol o leiaf £808,461.

---

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn fater lleol.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Mae trawsnewid gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc, yn enwedig rhai bregus, yn un o brif flaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor. Y bwriad yw gwella deilliannau i blant a phobl ifanc, drwy drefnu gweithgareddau mwy ataliol o fewn y maes, gan sicrhau bod gwasanaethau mwy cyflawn a mwy integredig ar gael ar eu cyfer. Yn y cyd-destun hwn, mae Strategaeth wedi'i baratoi ar gyfer trawsnewid y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngwynedd.



**Cyswllt:**
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.gov.uk

1.2. Mae'n bwysig nodi y paratowyd Strategaeth newydd yng nghyd-destun newid arwyddocaol yn y maes, yn cynnwys:

- y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol;
- y dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen hoelio sylw ar ymyrraeth gynnar ac ataliol;
- y rhaglen ar gyfer datblygu'r Ysgol Arbennig newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y Sir;
- y cyd-destun ariannol.

1.3. Daeth yr angen am Strategaeth o'r math i'r amlwg yn wyneb dadansoddiad o brofiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Amlygwyd rhai gwendidau sylfaenol yn cynnwys:

- **Anghysondeb o fewn y gyfundrefn:**
  - o ran disgwyliadau rhieni; yn safon a lleoliad y ddarpariaeth ac yn niwylliant yr ysgolion.
- **Cyfundrefn draddodiadol a chymhleth**
  - meini prawf angen eu hadolygu; y gweithredu'n adweithiol (awdurdod ac ysgolion); darpariaeth yn cael ei gomisiynu'n allanol heb ddigon o reolaeth trosto.
- **Ansawdd perfformiad**
  - anghysondeb o fewn ysgolion a thimau arbenigol; diffygion mynediad at ddata cyfredol (y wybodaeth yn cael ei gadw ar wahân mewn ffurf wahanol); ac anodd profi cynnydd.
- **Perthynas â gwasanaethau eraill**
  - Y strwythur ddim yn hybu cydweithio.
- **Twf mewn anghenion penodol**
  - Y ddarpariaeth ddim yn adlewyrchu'r pwyslais cywir ar yr anghenion pennaf.
- **Diffyg cyfathrebu**
  - diffyg ymwybyddiaeth ar gyfer derbyn gwybodaeth; y gyfundrefn bresennol yn rhy gymhleth a diffygion cyfathrebu rhwng yr holl fudd ddeiliad.

1.4. Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Strategaeth newydd yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
- cynyddu'r arbenigeddau yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;

- trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol;
- plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth ychwanegol yn gynt; yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth;
- amgylchedd ddysgu o'r ansawdd uchaf posib ar gyfer plant sydd efo'r anghenion mwyaf dwys;
- sicrhau cyfundrefn effeithiol ac effeithlon.

1.5. Er bod dipyn o oedi wedi bod, mae sawl newid i'r ddarpariaeth eisoes wedi cymryd lle:

- **Peidio cynnig y gefnogaeth 3* o'r newydd** ers 1 Medi 2015. Yn yr ysgolion lle mae'r gyllideb wedi'i datganoli (uwchradd a'r 14 cynradd mwyaf) mae'r gyllideb eisoes wedi'i rhewi ers tua 5 mlynedd. Mae gofyn i ysgolion fod yn fwy hyblyg o ran y defnydd o'u cyllideb ADY yn y cyfnod Interim;
- **Cynnal hyfforddiant** ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol pob ysgol ar y defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â chreu pecyn e-ddysgu cynhwysfawr i gefnogi hyn;
- **Adolygu'r defnydd o'r meini prawf mynediad a gadael** y Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu (llefaredd a rhifedd) sydd yn golygu ein bod yn gallu targedu'r plant cywir yn well. Datblygu'r defnydd o Fforymau i drafod achosion penodol;
- **Peilota'r defnydd o gymorthyddion ymestyn allan** ar gyfer cynnig cefnogaeth i'r plant sydd yn gadael y canolfannau anhwylder iaith yn hytrach na chymorthyddion unigol am nifer penodol o oriau'r wythnos;
- Cychwyn rhoi'r **Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad newydd** mewn lle, mewn ymateb i'r diffyg yn y ddarpariaeth. Cychwyn cynnal Fforymau i drafod achosion penodol.

1.6. Yn Nhachwedd 2014 cafwyd cefnogaeth yr Aelod Cabinet Addysg i fynd allan i ymgynghori ar y strategaeth ddrafft, ac fe gynhaliwyd y cyfnod ymgynghori yn ystod Ionawr - Chwefror, 2015. Cafwyd cyfnod pellach o ymgysylltu rhwng Medi – Tachwedd 2015.

## 2. YR YMATEB I'R STRATEGAETH YN SGIL YR YMGYSYLLTU

2.1. Yn ystod Medi - Hydref 2015 cynhaliwyd 22 o sesiynau ymgysylltu gyda grwpiau gwahanol a thrafodwyd gydag dros 390 o ran-ddeiliaid.

2.2. Defnyddiwyd dulliau amrywiol i godi ymwybyddiaeth o'r sesiynau cynnal trafodaeth gan gynnwys "Newyddion Gwynedd", datganiad i'r wasg, e-bostio'r ysgolion a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.

2.3. Dyma rai o'r prif negeseuon yn deillio o'r cyfnod ymgysylltu:

- Mae'r niferoedd sydd wedi mynychu'r sesiynau wedi bod yn **gadarnhaol iawn**. Er bod niferoedd y rhieni yn ymddangos yn isel (dim ond 8 rhiant wnaeth gwblhau taflen adborth), 'roedd nifer o'r holl fudd ddeiliaid y bu i ni gysylltu â nhw hefyd yn rhieni i blant ar y gofrestr ADY;
- Mae'n gwbl amlwg fod pawb y bu i ni ymgysylltu â nhw wedi **cymryd perchnogaeth o'r problemau** sy'n bodoli efo'r gwasanaeth ar hyn o bryd, ac yn cefnogi'r Achos dros Newid;
- Derbyniwyd cefnogaeth gref gan y Penaethiaid i'r Tîm Craidd Integredig, ac mae dealltwriaeth glir y bydd **angen i ysgolion wneud mwy OND** bod angen arweiniad; hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn i hyn lwyddo;
- Mewn ymateb i'r drafodaeth a'r sylwadau a dderbyniwyd byddwn yn rhoi sylw pellach i'r materion isod:
  - **rôl y Cydlynwyr ADY** yn yr ysgolion;
  - **dosbarthiad cymorthyddion**;
  - **codi ymwybyddiaeth** ynglŷn â'r newidiadau gyda staff yr ysgol gyfan;
  - sefydlu **is-dîmau i fanylu ar y Blynyddoedd Cynnar, y ddarpariaeth Ôl 16 oed, y ddarpariaeth Iechyd a'r berthynas efo Derwen**.

2.4. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar y 26 Tachwedd 2015 yn rhoi manylion o'r Strategaeth Arfaethedig ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngwynedd.

Gweler isod sylwadau'r Pwyllgor Craffu:

"Cyfleu i'r Cabinet gymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu i'r strategaeth ddrafft yn ddarostyngedig i geisio cyfarch y materion a ganlyn:

- Cynnig yr un lefel o sicrwydd i ddisgyblion a rhieni ag sydd ar gael o dan y gyfundrefn bresennol;
- Yr angen i gyfarch anghenion llai dwys a gwneud hynny'n fuan;
- Y perygl y byddai ysgolion yn methu ymdopi'n ddigonol gyda phwysau ychwanegol yn sgil pwyslais y strategaeth ar yr ysgolion yn gwneud mwy;
- Y risg y byddai cyraeddiadau cymharol is rhai disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn arwain at amharodrwydd gan ysgolion i'w cynnwys;
- Pryderon cyllidol yn sgil cost debygol ymestyn y ddarpariaeth hyd at 25 oed."

## 3. STRATEGAETH AR GYFER Y MAES ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD YNG NGWYNEDD

3.1. Cyflwynir copi o fersiwn terfynol y Strategaeth ar gyfer y Maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn **Atodiad 1**.

3.2. Mae egwyddorion y Strategaeth yn cynnwys y bwriad i roi mwy o sylw i'r canlynol:

- Blynyddoedd Cynnar ac ymyrraeth gynnar;

- Sefydlu tîm canolog, Integredig o arbenigeddau penodol i hwyluso cyd-weithio a chyd-gynllunio;
- Rhaglen Hyfforddiant i uwchraddio sgiliau'r gweithlu;
- Cyflwyno'r defnydd o Gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

3.3. Prif bwrpas y Strategaeth yw sicrhau bod pecyn o 16 o brosiectau yn eu lle er mwyn gwella'r gwasanaeth i blant a phobl ifanc sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol. Wrth lunio'r strategaeth, mae pob ymdrech wedi'i wneud i symud tuag at drefn newydd sy'n canolbwyntio ar y plentyn/ person ifanc a'u hanghenion/ dyheadau.

3.4. Er mwyn darlunio'r gwahaniaeth rhwng y system bresennol a'r ffordd newydd o weithio 'rydym wedi cynnwys astudiaeth achos 'Stori Sion' yn **Atodiad 2**.

3.5. Fel nodwyd uchod, mae'r Strategaeth wedi ei pharatoi yng nghyd-destyn y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Cyhoeddwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft Llywodraeth Cymru ar 6 Gorffennaf 2015 a daeth y cyfnod ymgynghori ar y Bil drafft i ben ar 18 Rhagfyr 2015. Disgwylir i'r Bil gael ei chyhoeddi i'r Cynulliad nesaf yn dilyn yr etholiad ym mis Mai, sy'n golygu o bosib na fydd unrhyw gynigion yn dod i rym cyn y flwyddyn academaidd 2017/18.

3.6. Wedi ystyriaeth lawn o gynigion y Bil drafft, rydym yn hyderus fod y Strategaeth yn cyfarch y newidiadau deddfwriaethol a gynigir. Bydd angen adolygu'r sefyllfa i sicrhau fod y Strategaeth yn cydymffrufio â newidiau'r ddeddfwriaeth unwaith caiff y bil terfynol ei mabwysiadu. Bydd gweithredu'n gynnar ar ein Strategaeth yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i ymateb i ofynion y ddeddfwriaeth newydd pan ddaw i rym.

---

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

**4. YR ACHOS BUSNES**

**4.1. Yr Arbedion**

4.1.1 Mae'r achos busnes wedi canolbwyntio ar dair elfen o'r gyllideb sef:

- Y gweithlu ADY presennol;
- Y Gyllideb Integreiddio (Datganiadau a 3*);
- Y Gyllideb ADY (yn cael ei dosbarthu drwy fformiwla).

4.1.2 Mae'r gyllideb bresennol 2015/16 yn y tri maes yma yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

| **Cyllideb** | | **Swm** | **Eglurder** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithlu | £2,169,077 | Cyllideb ganolog ar gyfer Cynnwys CBAAA ac Athrawon Arbenigol eraill |
| 2 | Cyllideb ADY ac Amddifadedd | £1,583,108 | Cael ei ddatganoli yn ei gyfanrwydd i'r ysgolion ar sail fformiwla 1:3:3:3 |
| 3 | Cyllideb Integreiddio datganiadau | £3,823,551 | Cael ei ddatganoli i ysgolion i benodi cymorthyddion datganiad |
| 4 | Cyllideb Integreiddio arall (3*) | £1,930,390 | Cael ei ddatganoli i ysgolion i benodi cymorthyddion 3* |
| | **Cyfanswm** | **£9,506,126** | |

4.1.3 Yn dilyn ymgynghori pellach ar y Strategaeth a phrif egwyddorion yr Adolygiad mae gwaith modelu manwl wedi cymryd lle ar sail gwybodaeth am ddisgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth, y meini prawf presennol ac Adolygiad o'r gweithlu presennol.

4.1.4 Mae hyn yn cynnwys ail strwythuro llwyr o'r gweithlu presennol, a chynnig strwythur llawer mwy Integredig a syml. Un nodwedd greiddiol i hyn yw diddymu'r ddarpariaeth Integreiddio 3* bresennol - sydd yn cael effaith ar swyddi nifer uchel o gymorthyddion dysgu. Mae'r gwaith modelu pellach o ran datganoli/ canoli'r gyllideb ADY yn dangos canrannau gwahanol o ddatganoli cyllideb i'r ysgolion **ond mae'r ffigwr arbedion yn aros yr un fath ar gyfer yr holl opsiynau**.

4.1.5 Y gyllideb newydd ar gyfer y model newydd fyddai:

| **Cyllideb** | | **Swm** | **Eglurder** |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithlu | £3,291,006 | Cyllideb ganolog ar gyfer cyflogi gweithlu'r Tîm Integredig |
| 2 | Cyllideb ADY ac Amddifadedd | £1,583,108 | Y swm yma yn cael ei ddatganoli ar sail fformiwla (newydd) |
| 3 | Cyllideb Integreiddio datganiadau | £3,823,551 | Cael ei ddatganoli i bob ysgol i benodi cymorthyddion datganiad |
| 4 | Cyllideb Integreiddio arall (3*) | £ - | Y gyllideb yma wedi'i ganoli ar gyfer ffurfio'r Tîm Integredig |
| | **Cyfanswm** | **£8,697,665** | |

4.1.6 Arbedion - Byddai hyn yn dangos **arbediad blynyddol parhaol o £808,461** yn y flwyddyn (academaidd) gyntaf o weithredu'r Tîm Integredig Llawn.

4.1.7 Rhagwelir cyrraedd y swm yma o £808,461 yn nhermau blwyddyn ariannol fel a ganlyn:

- 2017/18 - £471,602
- 2018/19 - £336,859

4.1.8 Cyflwynir gwybodaeth am y proffil arbedion yn **Atodiad 3** ac yn **nhabl 1** isod:

**Tabl 1- y proffil arbedion:**

**Proffil arbedion parhaol fesul blwyddyn academaidd**

| | Pennawd cyllideb | Arbedion parhaol arfaethedig: Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Cyfanswm | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb cyflogi'r Gweithlu a'r gyllideb Integreiddio 3* a datganiadau** | | | | | | | | | | |
| 1 | Cyllideb y Gweithlu a Chyllideb Integreddio | Cychwyn cyflwyno CDU yn lle datganiadau yn y blynyddoedd cynnar a blwyddyn 5 (lleihau oriau rhai datganiadau drwy newid trothwyon) | £0 | £23,550 | £32,570 | £43,840 | £35,870 | £17,540 | £25,050 | £178,420 | gall y swm yma fod yn uwch - ond angen ei fuddsoddi i dyfu maint y gweithlu arbenigol. Y gyllideb yn ei chyfanrwydd yn £3.9m 2015/16 |
| 2 | | Adolygu'r gwasanaeth - ail fodelu'r gweithlu. Arian Integreiddio (3*) yn cael ei gadw'n ol yn ganolog | £0 | £0 | £808,461 | £0 | £0 | £0 | £0 | £808,461 | ail fodelu'r holl ddarpariaeth gweithlu arbenigol presennol a chynnwys y gyllideb 3* yn ei chyfanrwydd |
| 3 | **Cyfanswm arbedion** | | **£0** | **£23,550** | **£841,031** | **£43,840** | **£35,870** | **£17,540** | **£25,050** | **£986,881** | |

## 4.2. Buddsoddiad Unwaith ac am byth:

4.2.1 Er mwyn gwireddu'r arbedion yma bydd angen gwneud cais i'r Cabinet am fuddsoddiad unwaith ac am byth o hyd at £1,380,131, fel a ganlyn yn nhermau blwyddyn ariannol-

- 2015/16 - £123,333
- 2016/17 - £490,832
- 2017/18 - £765,966

4.2.2 Mae angen amlygu fod oblygiadau costau diswyddo uchel iawn wedi'i hadnabod yma er mwyn galluogi gwneud arbedion parhaol. Fodd bynnag fe fyddwn yng nghyd weithio efo'r gwasanaeth Adnoddau Dynol i gyfeirio'r gweithlu at gyfleoedd ar gyfer swyddi amgen.

4.2.3 Cyflwynir gwybodaeth am y proffil buddsoddiad unwaith ac am byth yn **nhabl 2** isod.

**Tabl 2 - Proffil buddsoddiad unwaith ac am byth**

**Proffil Costau unwaith-ac-am-byth fesul blwyddyn academaidd**

| | Pennawd | Costau unwaith-ac-am-byth | | | | | | | | | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Cyfanswm | |
| | "Rheoli Newid" | | | | | | | | | | |
| 1 | Rhaglen Hyfforddiant | Rhaglen gynhwysfawr ar gyfer y gweithlu presennol, gweithlu newydd a rhieni. | £40,000 | £80,000 | £80,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £200,000 | angen mwy o waith manwl. Sylw penodol i CDU ar y dechrau |
| 2 | Rheoli'r Newid | Rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr | £50,000 | £50,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | |
| 3 | Cefnogaeth Interim cyn cyflwyno'r gweithlu newydd | Darpariaeth er mwyn paratoi ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth - cynnig darpariaeth iaith a lleferydd interim hyd Awst 2016. | £100,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | Swyddi yn weithredol erbyn Medi 2016 |
| 4 | Cefnogaeth Interim cyn sefydlu'r Trim Craidd yn ei gyfanrwydd | Darpariaeth dros dro- cyn newid y tim craidd yn ei gyfanrwydd | £0 | £391,560 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £391,560 | Swyddi newydd yn weithredol Medi 2017 |
| | | | | | | | | | | **£791,560** | |
| | **Amcan gyfrif costau ail strwythuro** | | | | | | | | | | |
| 5 | Costau di swyddo posib | lleihad sylweddol yn y gweithlu drwy ail strwythuro | £90,755 | £497,816 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £588,571 | angen gwirio'n bellach |
| | | | | | | | | | | **£588,571** | |
| 6 | **Cyfanswm** | | **£280,755** | **£1,019,376** | **£80,000** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** | **£1,380,131** | |

Yn ogystal mae swm penodol eisoes wedi'i gymeradwyo ar gyfer costau Rheoli Prosiect o £206,843

## 5. Y DEILLIANNAU

5.1. Dyma'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol:

- Cynlluniau mwy personol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- Mynediad cynt a mwy penodol at wasanaethau ADY a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- Gwasanaeth mwy arbenigol;
- Atebolrwydd fesul ardal yn y Fforymau Ardal ADY.

5.2. Dyma'r deilliannau i Gyngor Gwynedd:

- Arbediad ariannol parhaol;
- Rheolaeth well ar y gyllideb ADY;
- Adolygu a Monitro rheolaidd.

**Ystyriaethau perthnasol**

**6. Asesiad Cydraddoldeb**

6.1 Yn unol â'r ddyletswydd dan y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynnig (Gweler **Atodiad 4**). Mae'r asesiad yn amlygu'r ardrawiadau posib a'r trefniadau sydd mewn lle i ymateb. Fe noder fod yr asesiad wedi canfod ardrawiadau posib cadarnhaol ar y cyfan, gyda'r cynigion yn arwain at welliant o safbwynt cydraddoldeb i'r defnyddwyr. Er hynny, mae ardrawiadau negyddol posib yn deillio o'r cynnig, yn benodol yn sgil lleihad yn nifer y cymorthyddion a gaiff eu cyflogi o ganlyniad i'r cynlluniau i ail-strwythuro'r gweithlu ADY.

6.2 Wedi ystyriaeth lawn, deuir i'r casgliad fod y Strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cyfarch yr ardrawiadau posib.

6.3 Yn ogystal, mae trefniadau mewn lle i sicrhau fod y sefyllfa'n cael ei monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. O ganlyniad, rydym yn hyderus fod canfyddiadau'r asesiad yn gyfredol ac yn berthnasol i'r penderfyniad a geisir.

**7. RISGIAU**

7.1 Un o'r prif risgiau ar gyfer y Prosiect Trawsnewid yma yw'r effaith ar y gweithlu, mae swyddi dros 150 o gymorthyddion yn cael eu heffeithio.

7.2 Bydd y modelau darpariaeth newydd fodd bynnag yn gallu cynnig 'Strwythur Gyrfa' ar gyfer nifer penodol o gymorthyddion efo'r cyfle i gael cynnig - cytundeb parhaol, sicrwydd oriau, cyfle i ddatblygu'i gyrfa, hyfforddiant a thyfu arbenigedd penodol.

7.3 Mae'n greiddiol hefyd fod plant, pobl ifanc a'u rhieni yn ymwybodol o'r newidiadau, ac yn cael dealltwriaeth gref o'r trefniadau newydd. Un o'r mesurau i leihau'r risgiau yma oedd cynnal y drafodaeth ynglŷn â'r model darparu newydd efo'r holl fudd ddeiliaid yn ystod mis Medi/ Hydref. Byddwn yn datblygu Strategaeth Gyfathrebu glir er mwyn hwyluso'r newid.

7.4 Mae traddodiad o gyd weithio da wedi bod rhwng Gwynedd a Môn drwy'r Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (CBAAA) ers ei ffurfio ym 1996. Mae trafodaethau wedi digwydd efo Ynys Môn, a rhaid cydnabod nad ydynt yn fodlon â'r bwriad i ddod a'r CBAAA i ben; er hynny nid ydym yn cyfeirio at hyn yn y Strategaeth. Fodd bynnag mae trafodaethau pellach yn parhau efo Môn gyda'r bwriad o ymchwilio i lunio Strategaeth ADY Gyffredin; ynghyd a strwythur staffio, meini prawf a threfniadau Llywodraethu ar y cyd. Byddwn yn rhoi diweddariad ar lafar yn y cyfarfod o'r Cabinet.

7.5 Y nod yw cyd weithio efo Ynys Môn, a chytuno ar drefniadau ar y cyd. Er hynny pe na fyddai'r trafodaethau yma'n dwyn ffrwyth a bod Gwynedd yn gweithredu ar y Strategaeth eu hunain, bydd gofyn adnabod y risgiau cytundebol a chyfreithiol o fod yn datgysylltu oddi wrth Ynys Môn, ac ymateb iddynt. Gall hyn achosi oediad o ran amserlen gweithredu'r strwythur newydd, yn enwedig y bwriad i sefydlu'r Tîm Integredig, ond bydd yr Aelod Cabinet yn sicrhau bod amserlen ddiwygiedig yn cael ei sefydlu os cyfyd sefyllfa o'r fath.


7.6 Bydd trafodaethau yn parhau efo'r Adran Iechyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Camau nesaf ac amserlen**

## 8. RHAGLEN WAITH

8.1 Mewn ymateb i'r trafodaethau diweddar 'rydym wedi addasu'r amserlen ar gyfer gwireddu'r newidiadau.

Y cynnig yw ein bod yn rhoi sylw penodol i ffurfio'r Tîm Integredig ADY Craidd yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16 er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer addasiadau angenrheidiol yn yr ysgolion - cyn newid y ddarpariaeth cymorthyddion.



## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:

"Mae'r angen am newid yn y maes hwn yn amlwg a bu cryn ymgysylltu yn sirol o ran y bwriad i newid. Rwy'n ymwybodol hefyd bod y Pwyllgor Craffu wedi cymeradwyo'r strategaeth drafft yn amodol ar rai pwyntiau a nodir ym mharagraff 2.5 o'r adroddiad.

Mae llawer o waith eto i' wneud o ran gwireddu'r newid ac mae cefnogaeth y Cabinet ar y pwynt hwn yn allweddol."

### Y Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yn rhoi sylw priodol i'r ystyriaethau sydd ynghlwm a sefydlu'r Strategaeth newydd gan gynnwys deillianau y broses ymgynghorol a'r oblygiadau o safbwynt cydraddoldeb. Fe nodir hefyd yn briodol yn yr adroddiad y rhagwelir fod y Strategaeth yn cyfarch y newidiadau statudol all ddeillio o ganlyniad i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysg (Cymru) 2015 Wrth symud ymlaen bydd gofyn rhoi sylw manylach i oblygiadau y cynnigion o safbwynt partneriaethau a cyfeirir at hyn yn yr adroddiad."

### Y Pennaeth Cyllid:

"Mae £2.6m o adnodd un-tro heb ei ymrwymo yn y 'Gronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed'.  Bydd sawl 'angen/defnydd' haeddiannol yn cystadlu am yr adnodd prin yma, ond mae'n resymegol i gefnogi'r awgrym i fuddsoddi £1.38m o'r gronfa yma i weithredu'r newid yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad, os bydd hynny'n sicrhau gellid cynhaeafu'r arbedion blynyddol parhaol o £808k, neu fwy, ynghyd â'r deilliannau eraill."

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad |
| **Atodiad 2** | Stori Sion – Astudiaeth Achos |
| **Atodiad 3** | Tablau'r Achos Busnes |
| **Atodiad 4** | Adroddiad Asesiad Effaith Cydraddoldeb |

ITJ/ELIO/ls
08.01.16

**RHAGAIR**

Mae trawsnewid gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc, yn enwedig rhai bregus, yn un o brif flaenoriaethau Cynllun Strategol y Cyngor. Y bwriad yw gwella deilliannau i blant a phobl ifanc.

Bydd cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn ganolog i unrhyw gynlluniau fydd yn cael eu datblygu o'r newydd; ac yn ogystal, bydd y ffactorau canlynol yn derbyn llawer mwy o sylw:

- adnabod problemau / anghenion yn gynnar ym mywyd y plentyn a sicrhau ymyrraeth briodol;
- ymyrryd yn gynnar pan fo problemau yn dod i'r golwg;
- gweithio yn fwy integredig ac amlasiantaethol, gan rannu gwybodaeth a chydgynllunio'r ddarpariaeth;
- sgiliau a dealltwriaeth y gweithlu yn cael eu datblygu yn gyson;
- cyfathrebu gwell a mwy trefnus gyda'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd.

Y bwriad yw y bydd gweithgareddau mwy ataliol yn digwydd o fewn y maes, yn enwedig gyda theuluoedd bregus, gan sicrhau bod gwasanaethau mwy cyflawn a mwy integredig ar gael ar eu cyfer.

Bydd y trawsnewid yma yn golygu y byddwn yn trefnu ein hunain yn llawer mwy effeithiol ac effeithlon fel Cyngor er mwyn ymateb i anghenion plant a phobl ifanc bregus yng Ngwynedd.

Er bod dipyn o oedi wedi bod, mae sawl newid i'r ddarpariaeth eisoes wedi cymryd lle:

1. **Peidio cynnig y gefnogaeth 3* o'r newydd** ers 1 Medi 2015. Yn yr ysgolion lle mae'r gyllideb wedi'i datganoli (uwchradd a'r 14 cynradd mwyaf) mae'r gyllideb eisoes wedi'i rhewi ers tua 5 mlynedd. Mae gofyn i ysgolion fod yn fwy hyblyg o ran y defnydd o'u cyllideb ADY yn y cyfnod Interim.
2. **Cynnal hyfforddiant** ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol pob ysgol ar y defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â chreu pecyn e-ddysgu cynhwysfawr i gefnogi hyn.
3. **Adolygu'r defnydd o'r meini prawf mynediad a gadael** y Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu (llefaredd a rhifedd) sydd yn golygu ein bod yn gallu targedu'r plant cywir yn well. Datblygu'r defnydd o Fforymau i drafod achosion penodol.
4. **Peilota'r defnydd o gymorthyddion ymestyn allan** ar gyfer cynnig cefnogaeth i'r plant sydd yn gadael y canolfannau anhwylder iaith yn hytrach na chymorthyddion unigol am nifer penodol o oriau'r wythnos.
5. Cychwyn rhoi'r **Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad newydd** mewn lle, mewn ymateb i'r diffyg yn y ddarpariaeth. Cychwyn cynnal Fforymau i drafod achosion penodol.

Pwrpas y Strategaeth hon felly, yn dilyn ymgynghori eang yw gosod cyfeiriad a chyflwyno prosiectau penodol ar gyfer trawsnewid y maes anghenion dysgu ychwanegol.

Rhestraf isod beth fydd yn wahanol yn sgil gweithredu'r Strategaeth hon:

1. Bydd pwyslais ar **osod y disgybl yn ganolog** – drwy bersonoli'r gefnogaeth gan ddefnyddio dulliau penodol (sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn) wrth gynllunio'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar eu cyfer.

2. Byddwn yn **cynnig math newydd o gefnogaeth**, gyda mwy o bwyslais ar ymgynghori, rhoi arweiniad a chefnogaeth gan gynnwys mentora. Ni fydd cymaint o ddibyniaeth ar gymorthyddion, gyda'r ddarpariaeth yn fwy hyblyg ac am gyfnodau penodol.

3. Byddwn yn **gwella dealltwriaeth rhieni o'r ddarpariaeth a'r opsiynau** sydd ar gael ar gyfer eu plant.

4. Byddwn yn **codi safonau** drwy:
   - gynyddu cyraeddiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol;
   - wella ansawdd y ddarpariaeth ADY yn gyffredinol
   - gynyddu arbenigedd yr holl weithlu yn yr ysgolion

5. Bydd angen **newid diwylliant** er mwyn sicrhau bod **Ysgol gyfan** yn cymryd cyfrifoldeb am y maes ADY; bydd angen arweinyddiaeth gref i hyrwyddo hyn.

6. Byddwn yn **newid pwyslais, fesul cyflwr** o ran y gefnogaeth arbenigol fydd ar gael. Byddwn yn rhoi mwy o sylw i anhwylderau iaith, awtistiaeth a chynnal ymddygiad ar sail fod angen ymyrraeth fwy arbenigol ar y cyflyrau yma. Bydd newid sylweddol yn y gefnogaeth ar gyfer oediad dysgu gyda mwy o bwyslais ar i'r ysgolion gyflwyno'r ddarpariaeth yma eu hunain gyda chefnogaeth ymgynghorol y Tîm Integredig. Bydd **rheolaeth yn cael ei fewnoli** ac yn gyson ar draws yr holl ddarpariaeth.

7. Bydd **Rhaglen Hyfforddiant** penodol yn cael ei gynnig i holl weithlu'r ysgolion

8. Byddwn yn hyrwyddo **gwell defnydd a dealltwriaeth o'r meini prawf,** gan sicrhau bod modd **cyrraedd y ddarpariaeth yn llawer cynt**

9. Byddwn yn sicrhau fod pobl ifanc yn gadael yr ysgolion yn fwy **hyderus ac annibynnol.**

10. Byddwn yn **cryfhau cyd weithio** gydag asiantaethau eraill

11. Byddwn yn sicrhau gwell **system data a thracio** a sicrhau trefniadau monitro rheolaidd.



Cynghorydd Gareth Thomas
Aelod Cabinet Addysg, Cyngor Gwynedd

**CYNNWYS:**


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN** | Tud 3 - 4 |
| **2** | **Y STRATEGAETH AR GYFER TRAWSNEWID Y MAES ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YNG NGWYNEDD** | Tud 5 - 6 |
| **3** | **Y DEILLIANNAU** | Tud 6 |
| **4** | **Y CYNLLUN GWEITHREDU** | Tud 7 – 15 |
| **5** | **YR ACHOS BUSNES** | Tud 16 – 18 |
| **6** | **BETH FYDD YR EFFAITH I BLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD?** | Tud 19 |
| **7** | **YR AMSERLEN A'R CAMAU NESAF** | Tud 20 |

## 1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Mae'n bwysig nodi y paratoir y Strategaeth yma yng nghyd-destun newid arwyddocaol yn y maes, yn cynnwys:

- y cynigion deddfwriaethol ar gyfer diwygio'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol;
- y dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen hoelio sylw ar ymyrraeth gynnar ac ataliol;
- y rhaglen ar gyfer datblygu'r Ysgol Arbennig newydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y Sir;
- y cyd-destun ariannol

Daeth yr angen am Strategaeth o'r fath i'r amlwg yn wyneb dadansoddiad o brofiadau plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Amlygwyd rhai gwendidau sylfaenol yn cynnwys:

- **Anghysondeb o fewn y gyfundrefn:**
  - o ran disgwyliadau rhieni; yn safon a lleoliad y ddarpariaeth ac yn niwylliant yr ysgolion
- **Cyfundrefn draddodiadol a chymhleth**
  - meini prawf angen eu hadolygu; y gweithredu'n adweithiol (awdurdod ac ysgolion); darpariaeth yn cael ei gomisiynu'n allanol heb ddigon o reolaeth trosto
- **Ansawdd perfformiad**
  - anghysondeb o fewn ysgolion a thimau arbenigol; diffygion mynediad at ddata cyfredol (y wybodaeth yn cael ei gadw ar wahân mewn ffurf wahanol); ac anodd profi cynnydd
- **Perthynas â gwasanaethau eraill**
  - Y strwythur ddim yn hybu cydweithio
- **Twf mewn anghenion penodol**
  - Y ddarpariaeth ddim yn adlewyrchu'r pwyslais cywir ar yr anghenion pennaf
- **Diffyg cyfathrebu**
  - diffyg ymwybyddiaeth ar gyfer derbyn gwybodaeth; y gyfundrefn bresennol yn rhy gymhleth a diffygion cyfathrebu rhwng yr holl fudd ddeiliad

Yn ychwanegol i'r ffactorau uchod, cyhoedded Llywodraeth Cymru gynigion Deddfwriaethol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol - mewn Papur Gwyn, 22 Mai 2014.

Yn y Rhagair gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau - Huw Lewis, nodir:

> "Mae'r system bresennol ar gyfer cefnogi plant ag AAA yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 o flynyddoedd yn ôl. Nid yw'r model hwn bellach yn addas i'w ddiben. Mae ymchwiliadau ac adolygiadau wedi barnu bod y system bresennol yn gymhleth, yn ddyrys ac yn ennyn gwrthwynebiad".

> "….. Byddai rhai o'r darpariaethau deddfwriaethol a gynigir yn golygu newid sylweddol i'r fframwaith statudol tra byddai eraill yn adeiladu ar gryfderau sydd eisoes i'w cael" ….. "dylai 'r hyn sy'n gweithio gael ei gadw a'i wella a dylai'r hyn nad yw'n gweithio gael ei addasu a'i ddisodli".

Mae sawl egwyddor allweddol yn cael eu cyflwyno fel sail ar gyfer diwygio'r fframwaith AAA sef:

- dylai barn dysgwyr, a hefyd barn eu rhieni gael ei ystyried;
- dylai dysgwyr allu disgwyl i'w hanghenion gael eu hadnabod;
- dylai'r broses o gymeradwyo asesiadau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr fod yn fwy syml;
- dylai unrhyw anghytundebau gael eu datrys mewn modd mor gyflym a didrafferth a phosibl;
- dylai pawb sydd ynghlwm wrth gynnig cefnogaeth i ddysgwyr, gyd-weithio mewn darparu gwasanaeth di-dor.

Mae'r ddeddf arfaethedig yn cynnig y newidiadau sylfaenol canlynol:

- Y term Anghenion Addysg Arbennig (AAA) yn newid i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)[i];
- Cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) drwy ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion. Bydd y cynlluniau yma yn disodli datganiadau AAA a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol a chynlluniau ôl 16. Yr awdurdodau lleol fyddai efo'r cyfrifoldeb i baratoi CDU a sicrhau ei weithrediad ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc gydag ADY rhwng 0-25 oed.
- Cyhoeddi Cod Ymarfer newydd fydd yn cynnwys gofynion gorfodol y bydd yn rhaid i gyrff perthnasol weithredu'n unol â hwy.

Bwriad y Llywodraeth drwy gyflawni mesurau'r Ddeddf fydd datblygu gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd â'r nodweddion canlynol:

- Creu system gyfartal ac unedig;
- Cyflwyno proses fwy hyblyg a mwy ymatebol;
- Sicrhau dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn;
- Darparu gwell cefnogaeth a gwell gwybodaeth a chyngor;
- Osgoi unrhyw ddyblygu;
- Gwella trefniadau cyd weithio;
- Sicrhau bod anghydfodau'n llai tebygol o ddigwydd;
- Sicrhau cyn lleied â phosib o apeliadau;
- Cynnal ac estyn yr hawl i apelio.

## 2. Y STRATEGAETH AR GYFER TRAWSNEWID Y MAES ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YNG NGWYNEDD

Nod y Strategaeth yng Ngwynedd yw:

> **'Sicrhau bod plant a phobol ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu.'**

Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Strategaeth yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
- cynyddu'r arbenigeddau yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;
- trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol;
- plant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth ychwanegol yn gynt; yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth;
- amgylchedd ddysgu o'r ansawdd uchaf posib ar gyfer plant sydd efo'r anghenion mwyaf dwys;
- sicrhau cyfundrefn effeithiol ac effeithlon.

Y prif hwyluswyr ar gyfer cyflawni'r newidiadau a llwyddo i wneud gwahaniaeth positif fydd:

- **Y gweithlu** - bydd rhaglen hyfforddiant yn ei lle ar gyfer arfogi a datblygu'r gweithlu ar gyfer darparu'r math cywir o gefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol;
- **Rhieni**[ii] - sicrhau mwy o bwyslais ar gyfer gwell cyfathrebu gan sicrhau bod anghenion y plentyn yn ganolog i'r holl broses;
- **Trefniadau a siâp y Gwasanaeth** - bydd sylw penodol yn cael ei roi i ad-drefnu gwasanaethau o fewn yr Awdurdod Addysg;
- **Ysgolion**
  - Cynyddu arbenigedd yn ein hysgolion trwy raglenni hyfforddi i ddatblygu mwy o arbenigedd;

- sicrhau gwell dealltwriaeth ac eglurder ar ran yr ysgolion , yr Awdurdod Addysg ac asiantaethau eraill o ran natur y cyfrifoldebau a'r darpariaethau.
- Arweinyddiaeth ysgolion yn datblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r diwylliant newydd yn y maes yma

## 3. Y DEILLIANNAU

Bydd gofyn sicrhau bod deilliannau clir i blant a phobl ifanc yn sgil newid i'r maes dan sylw:

**Deilliant 1:** **Bod plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol yn ganolog i unrhyw benderfyniad wrth gynllunio darpariaeth ar eu cyfer; a'u bod yn derbyn y math cywir o gefnogaeth ac ymyrraeth yn fuan – gyda phwyslais yn y blynyddoedd cynnar.**

**Deilliant 2:** **Bod plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn gwasanaeth o ansawdd, yn yr ysgolion a gan dimau amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol ar draws Gwynedd.**

**Deilliant 3:** **Bod y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn amserol i sicrhau fod yr ymyrraeth orau yn cael ei defnyddio.**

Wrth adnabod y deilliannau rhoddwyd sylw i'r canlynol:


- Yr angen i drawsffurfio'r holl wasanaeth o fewn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad;
- Yr angen i ymateb yn llawn i'r prif bwyntiau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgysylltu;
- Yr angen i roi ystyriaeth lawn i brofiad a dymuniad y plentyn wrth gynnig newid y ddarpariaeth;
- Yr angen i gynyddu capasiti yn ein hysgolion, gwneud arbedion a lleihau'r galw yn y maes yma yn y dyfodol er sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn y tymor hir.
- Yr angen i baratoi ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol

O'i gweithredu bydd y Strategaeth yn cyflawni:

- Gwasanaeth o ansawdd i blant a phobl ifanc Gwynedd;
- Gwasanaeth sy'n llawer mwy effeithiol ac effeithlon.

## 4. Y CYNLLUN GWEITHREDU

Bydd y rhaglen o brosiectau a ddangosir isod yn cyflawni'r deilliannau canlynol:




### 4.1 Cyflwyno'r defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddisodli'r trefniadau datganiad a chynlluniau addysg unigol presennol:

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i Awdurdodau Lleol ddechrau cyflwyno'r defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gynllunio'r ddarpariaeth yma yn syth. Bydd y Cynlluniau Datblygu Unigol (o fabwysiadau'r ddeddfwriaeth newydd) yn disodli datganiadau AAA (Statudol) a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol[iii]. Bydd pob plentyn neu berson ifanc gydag ADY efo'r hawl i dderbyn yr un cynllun statudol – sef y CDU.

Mae'n allweddol ein bod yn darganfod be sy'n bwysig i'r disgyblion wrth geisio personoli'r profiad addysgol. Byddwn yn gwneud hyn drwy siarad efo nhw a'u teuluoedd, a chytuno sut yw'r ffordd orau i flaenoriaethu a darparu'r gefnogaeth.

Mae'r adolygiadau yma yn rhoi'r plentyn neu berson ifanc yn y canol, gan edrych ar yr hyn sy'n gweithio ac nad yw'n gweithio, a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr efo'r Meini Prawf isod i greu cynllun gweithredu sy'n wirioneddol unigol ac effeithiol ar eu cyfer Mae'r dull yma o ddeall anghenion disgybl yn berthnasol i bob plentyn/ person ifanc nid yn unig y rhai efo ADY.

Bydd camau a gweithdrefnau penodol i'w dilyn yn unol â'r drefn o bersonoli cynllunio ar gyfer anghenion disgyblion unigol.
Mae Rhaglen Hyfforddiant penodol yn hanfodol ar gyfer cyflwyno'r 'newid diwylliant' yma. Bydd yr egwyddorion yn greiddiol ar gyfer yr Ysgol gyfan a bydd hyn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr efo timau arweinyddol yr ysgolion.
Ers Medi 2015 rydym wedi cyflwyno modiwlau e-ddysgu, hyfforddiant arbenigol ar gyfer cydlynwyr (i ddechrau) a rhwydwaith o 'bencampwyr' yn cysoni'r arfer dda o Ysgol i Ysgol.


## 4.2 <u>Datblygu'r defnydd o feini prawf er mwyn cyflwyno canllawiau ac eglurder o ran y ddarpariaeth briodol ar gyfer pob anhwylder.</u>

Bydd yr awdurdod yn addasu a symleiddio'r Meini Prawf presennol i fod yn fwy dealladwy er mwyn cysoni'r defnydd ohonynt.
Bydd y meini prawf yma yn benodol fesul cyflwr/ anhwylder ac yn amlygu anghenion unigol disgyblion ochr yn ochr a'r ddarpariaeth sydd bosib ei gynnig ar eu cyfer.

Bydd y gweithdrefnau manwl yma yn rhoi arweiniad clir i'r ysgolion, a'r rhieni o ran y camau priodol i'w dilyn wrth ymateb i anghenion unrhyw unigolyn. O hyn daw eglurder o ran pryd a pha gam y dylai disgybl fod arno oddi fewn i bob darpariaeth arbenigol.

## 4.3 <u>Sefydlu Fforymau Ardal ADY a Phanel Sirol ADY</u>


Gweler o'r diagram isod fod **y drefn bresennol** o wneud cais am gefnogaeth yn gallu cymryd hyd at 84 wythnos (7 tymor Ysgol) i gyrraedd asesiad statudol. Gall cyfnod pellach o hyd at 26 wythnos ddigwydd cyn i benderfyniad gael ei wneud (gweler isod). O ddefnyddio'r **drefn newydd** gallai disgybl dderbyn cefnogaeth ddwys oddi fewn i un tymor Ysgol (gweler trosodd).



Mae'n fwriad ail sefydlu Swyddfa Ardal ym mhob rhan o'r Sir, ac yn ogystal bydd Fforwm Ardal ADY yn cael ei sefydlu. Bydd y Fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnwys cynrychiolwyr aml asiantaethol yn ogystal â phenaethiaid ac aelodau penodol o'r Tîm ADY Integredig.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i gynnal trafodaeth leol am anghenion y disgyblion a gallu'r Ysgol i ymateb i'r angen yma. Bydd unrhyw gais am gefnogaeth tu hwnt i ddarpariaeth Ysgol angen eu cyfeirio at y Fforwm Ardal ADY - ac fe gaiff y ceisiadau eu gwirio a'u cymeradwyo ar gyfer derbyn mewnbwn arbenigol yn ôl yr angen.
Bydd achosion mwy dwys yn cael eu cyfeirio at sylw'r Panel Sirol. Y panel yma fydd yn cymeradwyo adnoddau ychwanegol ac yn disodli'r Paneli Cymedroli presennol drwy fod yn gwirio ac yn adolygu'r ddarpariaeth datganiad cyfredol.

Gweler isod y drefn newydd o gyrraedd y ddarpariaeth:




## 4.4 Sefydlu un Tîm Integredig ADY Newydd:

Byddwn yn datblygu un Tîm Integredig sgilgar yn cynnwys timau penodol o arbenigeddau yn ôl cyflwr/ anhwylder a lleoliad. Bydd y timau yma yn cynghori a chefnogi'r ysgolion ac yn sicrhau cysondeb wrth ddarparu ymyraethau a chefnogaeth briodol i'r unigolion.
Wrth gynllunio'r model darpariaeth newydd, amlygwyd yr angen i newid y pwyslais o ran strwythur a maint y ddarpariaeth ar gyfer rhai anhwylderau.

Byddwn yn rhoi mwy o sylw i Cyfathrebu a Rhyngweithio (Anhwylderau Iaith ac Awtistiaeth) ac i Gynnal Ymddygiad. Mae hyn ar sail fod angen ymyrraeth fwy arbenigol ar y cyflyrau yma, a bod niferoedd uwch o ddisgyblion angen y gefnogaeth . Bydd newid sylweddol yn y gefnogaeth ar gyfer oediad dysgu gyda mwy o bwyslais ar i'r ysgolion gyflwyno'r ddarpariaeth yma eu hunain gyda chefnogaeth ymgynghorol y Tîm Integredig.

Er mwyn gweithredu'r ail fodelu bydd y ddarpariaeth cymorthyddion 3* presennol yn dod i ben. Mae dau opsiwn newydd ar gyfer diwallu'r ddarpariaeth yma, unai :

- Cyflwyno tim o swyddogion a chymorthyddion ADY arbenigol oddi fewn i'r Tim Integredig neu
- Datganoli canran (llai) o'r gyllideb Integreiddio i'r ysgolion ar sail fformiwla ar gyfer penodi cymorthyddion ADY eu hunain



Amlinellir isod y strwythur staffio ar gyfer y gwasanaethau gwahanol:

4.4.1 Seicolegwyr Addysgol

Er mwyn sicrhau cysondeb bydd gan bob tîm arbenigol fynediad at seicolegydd addysg. Fel rhan o ddarpariaeth y gwasanaethau arbenigol bydd y seicolegydd yn rhan allweddol o gynllunio strategol a chyflwyno rhaglen hyfforddiant pob gwasanaeth. Y Seicolegydd fydd yn gosod cyfeiriad strategol i bob gwasanaeth, gan sicrhau cysondeb o ran y defnydd o ymyraethau ar sail tystiolaeth.

4.4.2 Cydlynwyr Dalgylch ADY **(Mwy o waith manwl i'w wneud ar hyn)**

Byddai'r swyddi yma'n gwbl newydd ac yn unigryw i Wynedd.
Un opsiwn fyddail canoli elfen o'r gyllideb ADY o bob ysgol i greu tim o **Gydlynwyr Dalgylch ADY** (mewn ymateb i bryder ysgolion o ran pwysau cynyddol ar eu Cydlynwyr ADY)

Byddai'r cyfrifoldebau yn cynnwys:

- Cysoni'r ddealltwriaeth o ADY ar draws pob ysgol
- Cyfle i rannu arfer da ac i rannu adnoddau
- Trosolwg mwy lleol o'r anghenion a'r pryderon fesul ysgol, o fewn dalgylch ac o fewn ardal - yn y Sir
- Blaenoriaethu a chynllunio yn llawer gwell – drwy adnabod tueddiadau yn llawer cynt
- Cefnogaeth gryfach a fwy cyson yn y cyfnodau trosiannol er mwyn sicrhau dilyniant o 0-25 oed
- Monitro cydymffurfiaeth a'r ddeddfwriaeth a chod ymarfer newydd
- Rheoli anghydfod a bod yn gyswllt lleol ar gyfer rhieni i drafod pryderon.

Yn ogystal i hyn byddwn yn penodi **Cydlynwyr Ansawdd ADY** - bydd y rôl yma yn fwy gweinyddol ei natur ac yn gyfrifol am sicrhau fod cysondeb yn y defnydd o CDU, trefnu adolygiadau a Fforymau Ardal , Y Panel Sirol ac o fonitro'r cyllidebau ADY

4.4.3 Athrawon Ymgynghorol ADY

Bydd yr athrawon yn gyfrifol am gefnogi penaethiaid ac athrawon ar lawr dosbarth yn bennaf. Gall rhai hefyd fod yn gyfrifol am dîm o Swyddogion arbenigol ar lefel ardal. Bydd y gynhaliaeth i ysgolion ar ffurf hyfforddiant ac adnoddau parod. Bydd yr athrawon yn treulio cyfnodau estynedig ar lawr dosbarth yn arsylwi, modelu a monitro.

4.4.4 Swyddogion ADY

Bydd Swyddogion penodol oddi fewn i rai o'r timau arbenigol yn gyfrifol am gefnogi athrawon a chymorthyddion ar lawr dosbarth ond yn wahanol i'r Athrawon Ymgynghorol bydd ffocws clir ar gefnogi teuluoedd. Bydd y swyddogion yn treulio amser yn arsylwi, modelu a monitro ar lawr dosbarth, ac yn cefnogi teuluoedd yn yr aelwydydd yn ôl yr angen.

4.4.5 Cymorthyddion ADY

Bydd cymorthyddion sydd wedi'u penodi ar sail **anghenion datganiadau** disgyblion unigol yn parhau i gefnogi'r ysgolion ond bydd pob Ysgol yn gyfrifol am gyflogi'r cymorthyddion yma'n uniongyrchol. Dros amser bydd y ddarpariaeth yma hefyd yn cael ei adolygu i gydymffurfio a'r meini prawf a'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig gan y Tîm Integredig newydd.

Yn ogystal bydd cymorthyddion yn cael eu penodi yn rhan o'r Tim Integredig ac ar gael i gefnogi'r disgyblion ar lawr dosbarth. Byddant a'r profiad angenrheidiol i gynghori cymorthyddion eraill o fewn y dosbarth. Bydd hyd y lleoliad efo'r disgybl yn llwyr ddibynnol ar eu hanghenion a blaenoriaethau'r gwasanaeth. **NEU** bydd canran (lai) o'r gyllideb integreiddio bresennol yn cael ei datganoli i bob Ysgol ar sail fformiwla ar gyfer penodi eu Cymorthyddion ADY eu hunain, neu o fewn clwstwr.

## 4.5 Sefydlu trefniadau newydd ar gyfer y Ddarpariaeth Cynhwysiad/ Cynnal Ymddygiad:

Yn unol â chanllawiau a blaenoriaethau'r tîm arbenigol cynnal ymddygiad newydd byddai disgwyl cynhwyso pob disgybl o fewn ysgolion cynradd Gwynedd. Edrychir ar ddull mwy Integredig o weithio efo ysgolion, gyda phwyslais ar gysoni'r gwasanaeth ar draws y Sir.

Byddai'r gwasanaeth ar gyfer y sector uwchradd yn cael ei rannu'n ddau brif ran, cynhaliaeth o fewn Ysgol a chynhaliaeth tu allan i'r Ysgol. Caiff hyn ei gyflwyno mewn dull mwy holistaidd a therapiwtig er mwyn eu hintegreiddio'n ôl i'r ysgolion.

## 4.6 Adolygu Darpariaeth Canolfannau Arbenigol:

Byddwn yn adolygu'r holl ddarpariaeth ADY yn y canolfannau arbenigol - mae'r canolfannau yma'n rhoi sylw penodol i'r Blynyddoedd Cynnar, Awtistiaeth, Anhwylderau Iaith ac ADY cyffredinol yn Nhŷ Meirion (Dolgellau). Y nod fydd cynnig gwell cysondeb a gwell defnydd o adnoddau'r canolfannau arbenigol.
Bydd hyn yn cysoni'r ddarpariaeth efo blaenoriaethau a gweithdrefnau'r timau arbenigol newydd.

Byddwn yn ystyried yn benodol cyflwyno meini prawf mynediad a gadael newydd i'r holl ganolfannau, gan edrych yn benodol ar oedran mynediad i'r Canolfannau Anhwylder Iaith ac ABC. Byddwn am sicrhau fod mynediad posib ar gyfer pob plentyn addas, gan gynnwys plant iau (oedran meithrin).

## 4.7 Yr Ysgolion Arbennig

Caiff y Strategaeth ei gwireddu ochr yn ochr efo agor yr Ysgol arbennig newydd ym Meirion Dwyfor. Bydd adnoddau o ansawdd yn cael eu cyflwyno gan yr Ysgol

newydd yn ychwanegol i'r hyn sydd eisoes ym Mhendalar;  a byddwn yn sicrhau fod gan rieni ddealltwriaeth glir o'r holl opsiynau darpariaeth ADY sydd ar gael.

Y bwriad yw uchafu'r arbenigeddau a'r arferion da o gyd weithio sydd eisoes yn bodoli yn yr ysgolion prif lif a'r ysgolion arbennig. Bydd elfen o'r gweithlu arbenigol i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu lleoli o fewn yr ysgolion arbennig.

## 4.8 Rhaglen Hyfforddiant

Bydd yn rhaid sicrhau fod gweithlu'r Tim Integredig yn cynnwys arbenigeddau penodol fesul cyflwr, a bydd yr arbenigedd yma'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan sicrhau fod yr ymyraethau cywir ar sail tystiolaeth yn cael eu harfer. Bydd  pob tîm arbenigol yn cynllunio Rhaglen Hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer y gweithlu a'r rhieni o dan arweiniad y Seicolegwyr Addysg.

Bydd gwefan gynhwysfawr o adnoddau ac arweiniad ar gael drwy rwydwaith y cyngor neu wefan HWB a fydd yn sicrhau mynediad rhwydd i staff at adnoddau parod i gefnogi'r gwaith o gynnal anghenion arbenigol o fewn ysgolion.
Bydd y wefan yn ffynhonnell o adnoddau ac arweiniad i ysgolion.

Fel rhan o ddatblygiad proffesiynol staff y Tîm Integredig bydd modd manteisio ar y rhaglenni  hyfforddiant sydd yn cael eu cynnig i weddill staff yr ysgolion. Bydd cyfle i'r gweithlu yma gynyddu'u harbenigeddau a bydd cyfle i gymorthyddion gael cynnig cynllun gyrfa.

## 4.9 Datblygu Siarter / Cytundeb rhwng Ysgolion a'r Awdurdod Lleol

Bydd y Siarter yn ddogfen fydd yn cynnig dealltwriaeth glir o swyddogaethau'r Awdurdod Lleol ochr yn ochr â swyddogaethau ysgolion wrth ymwneud gyda'r maes yma yn ogystal â'u cyfrifoldebau. Bydd hefyd yn manylu ar atebolrwydd Awdurdod i Ysgol, ac Ysgol i Awdurdod.
Bydd hyn yn greiddiol fel sail i ddatganoli elfennau o'r gyllideb ADY I'r ysgolion.

## 4.10 Sefydlu Uned Ddata oddi fewn i'r Adran Addysg

Mae'r systemau data presennol yn gwbl annibynadwy, yn anghydlynnus ac yn drwm ar amser gweinyddol. Mae'n greiddiol ein bod yn gallu symleiddio'r dulliau o ddal gwybodaeth yn electroneg ac yn lleihau dyblygu gwaith. Y bwriad yw sefydlu trefn fel bod posib cael mynediad at yr holl wybodaeth am ADY disgybl oddi fewn i un ffeil electroneg.

Mae'n fwriad datblygu uned oddi fewn yr Adran addysg er mwyn sicrhau systemau data cyfredol a chywir.  Mae hyn yn gwbl greiddiol er mwyn monitro fod disgyblion yn cael eu hasesu'n gyson yn erbyn targedau cydnabyddedig; ac o amlygu os yw perfformiad addysgol y plentyn yn llithro yn erbyn y targedau. Mae'n angenrheidiol ar gyfer  hyrwyddo'r defnydd o CDU a'r defnydd o ddulliau

sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn oddi fewn i ysgolion. Rhaid osgoi rhwystrau gweinyddol a gweithdrefnau llafurus i'w dilyn.
Mae hefyd yn greiddiol ar gyfer adolygu a monitro'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd ac er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

## 4.11 Mesur bodlonrwydd plant a phobl ifanc sydd efo anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd.

Yn ystod y cyfnod o ymgysylltu efo holl fudd ddeiliaid y gwasanaeth adnabuwyd fod gwella cyfathrebu â rhieni'n gyffredinol yn un o'r materion allweddol i roi sylw iddo. Mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig eto'n atgyfnerthu hyn.

Byddwn felly yn sicrhau fod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd:

- Yn cael eu cynnwys
- Yn cael eu hymgynghori a nhw
- Yn derbyn yr holl wybodaeth a chyngor sydd eu hangen arnyn nhw, a hynny mewn ffordd glir ac eglur

Bydd y defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn greiddiol i hyn, ond yn ogystal byddwn angen cynnwys trawstoriad o ddisgyblion a rhieni yn ein gwaith cynllunio. Byddwn angen trafod nid yn unig opsiynau newydd ar gyfer ymgysylltu a rhannu gwybodaeth ond hefyd pa wybodaeth maent ei angen ac ym mha ffurf.

## 4.12 Fforymau Cynllunio ADY Ysgolion

Yn ychwanegol i'r Fforymau Ardal ADY mae bwriad i ddatblygu Fforymau Cynllunio ADY i roi cyfle i weithlu ysgol rannu eu pryderon efo gweithlu perthnasol o'r awdurdod a chyfnewid arbenigedd ac arfer da gyda chydweithwyr.
Bydd yn gyfle i sicrhau bod y ddarpariaeth a'r adnoddau yn cael eu gweithredu'n effeithiol a bod y dehongliad o'r Fwydlen Ddarpariaeth yn gyson a chywir.

Caiff y fforymau hyn eu trefnu'n rheolaidd er mwyn cynnig cyfle i adolygu, monitro a thrafod effeithiolrwydd darpariaeth ADY ysgolion unigol a rhoi cyngor a chymorth i ysgolion ar gyfer cynllunio a datblygu safon uchel o ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol.

Disgwylir i bob ysgol gyflwyno dogfen 'map darpariaeth' fydd yn amlinellu'r defnydd o'r gyllideb ADY, yr anghenion disgwyliedig, y ddarpariaeth ymyrryd ac adnabod disgyblion (neu grwpiau o ddisgyblion) y gall eu cynnydd fod yn achosi pryder. Bydd y wybodaeth yn greiddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn cynllunio ac adolygu'r Gwasanaeth a'r gweithdrefnau yn rheolaidd.

Bydd yr awdurdod yn sicrhau presenoldeb gweithlu arbenigol fydd yn cynnwys:
Seicolegwyr, athrawon ymgynghorol, Swyddogion ADY, Swyddog diogelu, Swyddog Cydymffurfiaeth, Swyddogion Cynhwysiad a bydd pob fforwm yn cael ei gadeirio gan yr Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad.

## 4.13 Darpariaeth yn y Blynyddoedd Cynnar

Gan fod mwyafrif y cyllid ar gyfer y ddarpariaeth yma tu allan i reolaeth addysg y bwriad yw sefydlu Is dim Prosiect i edrych ar y maes yma'n benodol.
Byddwn hefyd yn sicrhau bod dulliau asesu mwy cyson, manwl a holistaidd o gyflwr ac anghenion y plentyn yn digwydd yn y Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd (neu unrhyw ddarpariaeth gwarchod cyn oed ysgol).

Bydd hyn yn fodd o sicrhau dilyniant a chysondeb ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol yn y cyfnod trosiannol o'r meithrin i'r ysgolion; ac yn dileu'r angen i ail asesu.

## 4.14 Darpariaeth ôl 16 oed

Mae aneglurder yn y cynigion deddfwriaethol o ran sut, a phwy fydd angen gweithredu yn yr oedran yma. Cafwyd trafodaeth fuddiol iawn efo Gyrfa Cymru ac yn y cyfarfodydd efo'r rhieni a llywodraethwyr ynglŷn â hyn a chytunwyd fod angen sefydlu Is dim Prosiect i edrych ar y maes yma'n benodol.

## 4.15 Cyfleoedd i gyd weithio efo'r Tim Plant ac asiantaethau eraill

Yn unol â chanllawiau'r ddeddfwriaeth arfaethedig byddwn yn cyd-weithio efo'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Derwen i sicrhau bod CDU yn cael eu cyflwyno ar gyfer plant 'sy'n derbyn gofal'. Bydd hyn yn disodli'r angen (ac yn lleihau dyblygu) am Gynlluniau Addysg Bersonol (CAP) Bydd angen sefydlu is grŵp penodol i edrych ar y maes yma.

## 4.16 Cyd –weithio efo Iechyd

Bydd angen sicrhau fod dealltwriaeth glir o ran atebolrwydd iechyd am eu cyfrifoldebau o fewn y maes ADY. Bydd angen parhau i gynnal trafodaethau ar lefel uchel ac ar lefel reolaethol fesul Gwasanaeth efo'r Bwrdd Iechyd.

Byddwn angen creu memorandwm o ddealltwriaeth ar lefel strategol a gweithredol rhwng Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r trydydd Sector. Bydd angen eglurder o ran y trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth, y defnydd o'r iaith Gymraeg, a materion adnoddau yn sgil y ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol.

## 5. Yr Achos Busnes

### 5.1 Yr Arbedion

5.1.1 Mae'r achos busnes wedi canolbwyntio ar dair elfen o'r gyllideb sef:

- Y gweithlu ADY presennol
- Y Gyllideb Integreiddio (Datganiadau a 3*)
- Y Gyllideb ADY (yn cael ei dosbarthu drwy fformiwla)

5.1.2 Mae'r gyllideb bresennol 2015/16 yn y tri maes yma yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

| Cyllideb | | Swm | Eglurder |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithlu | £2,169,077 | Cyllideb ganolog ar gyfer Cynnwys CBAAA ac Athrawon Arbenigol eraill |
| 2 | Cyllideb ADY ac Amddifadedd | £1,583,108 | Cael ei ddatganoli yn ei gyfanrwydd i'r ysgolion ar sail fformiwla 1:3:3:3 |
| 3 | Cyllideb Integreiddio datganiadau | £3,823,551 | Cael ei ddatganoli i ysgolion i benodi cymorthyddion datganiad |
| 4 | Cyllideb Integreiddio arall (3*) | £1,930,390 | Cael ei ddatganoli i ysgolion i benodi cymorthyddion 3* |
| 5 | Cyfanswm | **£9,506,126** | |

5.1.3 Yn dilyn ymgynghori pellach ar y Strategaeth a phrif egwyddorion yr Adolygiad mae gwaith modelu manwl wedi cymryd lle ar sail gwybodaeth am ddisgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth, y meini prawf presennol ac Adolygiad o'r gweithlu presennol.

5.1.4 Mae hyn yn cynnwys ail strwythuro llwyr o'r gweithlu presennol, a chynnig strwythur llawer mwy Integredig a syml. Un nodwedd greiddiol i hyn yw diddymu'r ddarpariaeth Integreiddio 3* bresennol - sydd yn cael effaith ar swyddi nifer uchel o gymorthyddion dysgu. Mae'r gwaith modelu pellach o ran datganoli/ canoli'r gyllideb ADY yn dangos canrannau gwahanol o ddatganoli cyllideb i'r ysgolion **ond mae'r ffigwr arbedion yn aros yr un fath ar gyfer yr holl opsiynau.**

5.1.5 Y gyllideb newydd ar gyfer y model newydd fyddai:

| Cyllideb | | Swm | Eglurder |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithlu | £3,291,006 | Cyllideb ganolog ar gyfer cyflogi gweithlu'r Tîm Integredig |
| 2 | Cyllideb ADY ac Amddifadedd | £1,583,108 | Y swm yma yn cael ei ddatganoli ar sail fformiwla (newydd) |
| 3 | Cyllideb Integreiddio datganiadau | £3,823,551 | Cael ei ddatganoli i bob ysgol i benodi cymorthyddion datganiad |
| 4 | Cyllideb Integreiddio arall (3*) | £ - | Y gyllideb yma wedi'i ganoli ar gyfer ffurfio'r Tîm Integredig |
| 5 | Cyfanswm | **£8,697,665** | |

5.1.6 Arbedion - Byddai hyn yn dangos arbediad blynyddol parhaol o **£808,461** yn y flwyddyn (academaidd) gyntaf o weithredu'r Tîm Integredig Llawn.

## 5.2. Buddsoddiad Unwaith ac am byth:

5.2.1 Rhagwelir cyrraedd y swm yma o £808,461 yn nhermau blwyddyn ariannol fel a ganlyn -

- 2017/18 - £471,602
- 2018/19 - £336,859

5.2.2 Cyflwynir gwybodaeth am y proffil arbedion yn **nhabl 1** isod:

### Tabl 1- y proffil arbedion

Proffil arbedion parhaol fesul blwyddyn academaidd

| | Pennawd cyllideb | Arbedion parhaol arfaethedig | | | | | | | | | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Cyfanswm | |
| | Cyllideb cyflogi'r Gweithlu a'r gyllideb Integreiddio 3* a datganiadau | | | | | | | | | | |
| 1 | Cyllideb y Gweithlu a Chyllideb Integreddio | Cychwyn cyflwyno CDU yn lle datganiadau yn y blynyddoedd cynnar a blwyddyn 5 (lleihau oriau rhai datganiadau drwy newid trothwyon) | £0 | £23,550 | £32,570 | £43,840 | £35,870 | £17,540 | £25,050 | £178,420 | gall y swm yma fod yn uwch - ond angen ei fuddsoddi i dyfu maint y gweithlu arbenigol. Y gyllideb yn ei chyfanrwydd yn £3.9m 2015/16 |
| 2 | | Adolygu'r gwasanaeth - ail fodelu'r gweithlu. Arian Integreiddio (3*) yn cael ei gadw'n ol yn ganolog | £0 | £0 | £808,461 | £0 | £0 | £0 | £0 | £808,461 | ail fodelu'r holl ddarpariaeth gweithlu arbenigol presennol a chynnwys y gyllideb 3* yn ei chyfanrwydd |
| 3 | **Cyfanswm arbedion** | | **£0** | **£23,550** | **£841,031** | **£43,840** | **£35,870** | **£17,540** | **£25,050** | **£986,881** | |

5.2.3 Er mwyn gwireddu'r arbedion yma bydd angen gwneud cais i'r Cabinet am fuddsoddiad unwaith ac am byth cyfanswm o £1,380,131, fel a ganlyn yn nhermau blwyddyn ariannol:

- 2015/16 - £123,333
- 2016/17 - £490,832
- 2017/18 - £765,966

5.2.4 Mae angen amlygu fod oblygiadau costau diswyddo uchel iawn wedi'u hadnabod yma er mwyn galluogi gwneud arbedion parhaol. Fodd bynnag fe fyddwn yn cydweithio hefo'r gwasanaeth Adnoddau Dynol i gyfeirio'r gweithlu at gyfleoedd ar gyfer swyddi amgen.

### Tabl 2 - Proffil buddsoddiad unwaith ac am byth

Proffil Costau unwaith-ac-am-byth fesul blwyddyn academaidd

| | Pennawd | Costau unwaith-ac-am-byth | | | | | | | | | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Cyfanswm | |
| | "Rheoli Newid" | | | | | | | | | | |
| 1 | Rhaglen Hyfforddiant | Rhaglen gynhwysfawr ar gyfer y gweithlu presennol, gweithlu newydd a rhieni. | £40,000 | £80,000 | £80,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £200,000 | angen mwy o waith manwl. Sylw penodol i CDU ar y dechrau |
| 2 | Rheoli'r Newid | Rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr | £50,000 | £50,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | |
| 3 | Cefnogaeth Interim cyn cyflwyno'r gweithlu newydd | Darpariaeth er mwyn paratoi ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth - cynnig darpariaeth iaith a lleferydd interim hyd Awst 2016. | £100,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | Swyddi yn weithredol erbyn Medi 2016 |
| 4 | Cefnogaeth Interim cyn sefydlu'r Trim Craidd yn ei gyfanrwydd | Darpariaeth dros dro- cyn newid y tim craidd yn ei gyfanrwydd | £0 | £391,560 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £391,560 | Swyddi newydd yn weithredol Medi 2017 |
| | | | | | | | | | | **£791,560** | |
| | **Amcan gyfrif costau ail strwythuro** | | | | | | | | | | |
| 5 | Costau di swyddo posib | lleihad sylweddol yn y gweithlu drwy ail strwythuro | £90,755 | £497,816 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £588,571 | angen gwirio'n bellach |
| | | | | | | | | | | **£588,571** | |
| 6 | Cyfanswm | | £280,755 | £1,019,376 | £80,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | **£1,380,131** | |

Yn ogystal mae swm penodol eisoes wedi'i gymeradwyo ar gyfer costau Rheoli Prosiect o £206,843

## 5.3 Y Deilliannau

5.3.1 Dyma'r deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol:

- Cynlluniau mwy personol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mynediad cynt a mwy penodol at wasanaethau ADY a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Gwasanaeth mwy arbenigol
- Atebolrwydd fesul ardal yn y Fforymau Ardal ADY

5.3.2 Dyma'r deilliannau i Gyngor Gwynedd:

- Arbediad ariannol parhaol
- Rheolaeth well ar y gyllideb ADY
- Adolygu a Monitro rheolaidd

## 6. BETH FYDD YR EFFAITH I BLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD?

### i. Sicrhau dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn

- Rhoi lle canolog i safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc yn y broses a'i gynnwys ef a'i deulu o'r dechrau wrth asesu, ymyrryd, cynllunio ac adolygu.

### ii. Gwella Cyfathrebu - darparu gwell cefnogaeth a gwell gwybodaeth a chyngor

- fel bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn deall y broses ac yn gallu gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth;
- ac yn sicrhau bod anghydfodau'n llai tebygol o ddigwydd.

### iii. Cysoni'r ddarpariaeth yn well ar draws y sir

- Sicrhau fod pob plentyn yng Ngwynedd yn cael mynediad i'r un ddarpariaeth ychwanegol o safon.

### iv. Cael mynediad cynt at gefnogaeth a darpariaeth arbenigol

- Meini Prawf yn rhoi gwell eglurder i bawb o ran yr hyn y dylai gael ei gynnig a phryd.

### v. Cyflwyno proses fwy hyblyg a mwy ymatebol

- Drwy asesu'n barhaus a thracio'r cynnydd yn well mae'n galluogi i'r ddarpariaeth ddatblygu dros amser yn unol â'r anghenion newidiol.


### vi. Uchafu'r arbenigeddau a'r arferion da sydd eisoes yn bodoli yn yr ysgolion arbennig

- Rhyddhau potensial i gyd weithio Ysgol i Ysgol rhwng y prif lif a'r ysgolion arbennig;
- Sefydlu Tîm Integredig cynhwysol, arbenigol gan gynnwys arbenigedd Seicolegol;
- Osgoi unrhyw ddyblygu.

### vii. Gwella trefniadau cyd weithio

- fel bod asiantaethau yn cytuno ar flaenoriaethau a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael yn brydlon er mwyn gallu gwneud gwahaniaeth.

## 6. YR AMSERLEN A'R CAMAU NESAF




Bydd y fersiwn ddiwygiedig yma o'r Strategaeth yn cael ei chyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2016.

Ni fydd unrhyw newidiadau statudol, na chyllidol i'r ysgolion yn weithredol hyd Fedi 2017.

Yn y cyfamser byddwn yn parhau i gyd weithio'n agos a'r holl fudd-ddeiliaid, wrth i ni wirio a manylu ar ein cynigion ar gyfer diwygio'r gwasanaeth.

---

[i] Bydd y term ADY yn cynnwys plant a phobl ifanc y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt; er mwyn eu galluogi i elwa i'r eithaf ar yr addysg a'r hyfforddaint sydd ar gael iddynt. Y bwriad yw sicrhau bod y diffiniad o ADY yn cynnwys yr holl ddysgwyr sydd ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi drwy Gweithredu Ysgol, Gweithredu Ysgol a Mwy (gan gynnwys 3*) a'r rhai ar ddatganiadau AAA.

[ii] Lle y caiff y term 'rhieni'/ rhiant ei ddefnyddio golygir rhieni a hefyd bobl sydd a chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu sy'n gofalu amdano, er nad hwy yw'r rhieni geni.

[iii] Anstatudol – sef y disgyblion sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth drwy Gweithredu Ysgol, Gweithredu Ysgol a Mwy (sy'n cynnwys 3*).

**ATODIAD 2 – Astudiaeth Achos**

# Stori Sion

**Y Cefndir**

Mae Sion Pari yn 6 oed, ac mae ganddo un brawd bach 1 oed. Mae'n byw gartref gyda'i Fam a'i frawd yn ystod yr wythnos, a gyda Dad ar y penwythnos
Mae'n mynychu Ysgol y Betws, ym Mlwyddyn 2 ac yn rhan o ddosbarth o 30 o blant 4, 5 a 6 oed.

**Beth yw'r anhawster yn yr Ysgol?**

- Yn ei chael yn anodd i wneud ffrindiau gan ei fod yn cael trafferth gyda rheolau cymdeithasol. Mae'n gwthio plant eraill yn rheolaidd ac yn taro allan.
- Yn ei chael yn anodd i dalu sylw ac i ddilyn cyfarwyddiadau. Mae'n gwrthod gwrando ar gyfarwyddiadau oedolion.
- Dim oediad addysgol ar hyn o bryd (mae'n gallu gwneud yr un gwaith a phawb arall) ond mae hi'n anodd ei asesu yn iawn oherwydd ei broblemau ymddygiad. Mae ei iaith a chyfathrebu yn datblygu yn ôl y disgwyl.

**Y sefyllfa gartref?**

Mae e'n cael anawsterau tebyg adref gyda Mam. Nid yw dad yn sylwi fod cymaint o broblemau.

**Y ffordd bresennol o weithio**

Mae'r Ysgol wedi adnabod fod Sion angen cefnogaeth ychwanegol, yn fwy na'r hyn gall yr Ysgol ei gynnig - oherwydd ei ymddygiad. Yn y meithrin mae'r Ysgol wedi bod yn targedu gwahanol ddulliau i geisio ei helpu. 'Roedd y problemau yn parhau yn y dosbarth derbyn, gwnaed cais i'r Seicolegydd Addysgol ddod i asesu ei broblemau. Cafodd ei gyfeirio at yr athrawes ymddygiad i ddod i gynnig dulliau penodol i weithio efo Sion. Sylweddololdd yr Ysgol fod ymddygiad Sion yn effeithio ar yr holl ddosbarth, a'i fod yn disgyn ar ôl gweddill y dosbarth efo'i waith a'i ddealltwriaeth.
Ym Mlwyddyn 1 ar ôl casglu digon o dystiolaeth gwnaed cais 3* am oriau cymhorthydd i ddelio gyda'r ymddygiad; ac mae Sion bellach yn derbyn 5 awr o gefnogaeth 'Anti Caren' bob wythnos (am y flwyddyn). Yn anffodus does dim sicrwydd fod yr hyn mae Anti Caren a'r hyn mae'r athrawes ymddygiad wedi'i awgrymu yn gyson. Gweler Cynllun Addysg Unigol Sion (Atodiad 2)

**Y ffordd newydd o weithio**

Gan fod Sion yn cael trafferthion i reoli'i ymddygiad mae'r Athrawes Dosbarth wedi llunio Proffil Un Tudalen (Atodiad 3) ar gyfer Siôn ar y cyd gyda'i rieni. Gwnaed cais am farn cychwynnol y Seicolegydd Addysgol. Yn dilyn trafodaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni, cafodd y Proffil Un Tudalen ei addasu yn ogystal a newid y dulliau gweithredu (strategaethau).[iii]
Ar ôl cyfnod o hanner tymor mae'r ysgol a'r rhieni yn teimlo fod yna peth newid yn ymddygiad Siôn. Mae Mam Siôn hefyd yn teimlo fod ei ymddygiad tuag at ei frawd bach yn broblemus. Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfod i lunio Cynllun Datblygu Unigol mwy manwl ar ei gyfer. Mae'r Seicolegydd Addysgol, a hefyd y Nyrs Ysgol yn cael gwahoddiad gan fod anawsterau Siôn yn llawer mwy amlwg yn y cartref erbyn hyn.
Yn y Cyfarfod mae yna drafodaeth lawn ynglŷn a'r hyn sydd yn mynd i weithio orau i Sion; ac mae Cynllun Gweithredu yn cael ei lunio. Mae'r Cynllun yn nodi fod posib i Sion gael mynediad at y Tîm Ymddygiad felly mae angen trafod y cais yn y Fforwm Ardal.
Mae'r Fforwm yn trafod Cynllun Datblygu Unigol Siôn; ac yn penderfynu ei fod o fewn y criteria ar gyfer cael mewnbwn y Tîm ymddygiad. Penderfynwyd yn y fforwm y dylai'r Athrawes Arbenigol a'r Swyddog Ymddygiad ymweld â'r ysgol efo'i gilydd er mwyn llunio rhaglen ymddygiad manwl gyda'r rhieni a'r staff
Bydd y swyddog yn ymweld a'r ysgol er mwyn modelu dulliau arbennig o weithio yn ôl y rhaglen am gyfnod o hanner tymor. Bydd yn treulio llawer o amser yn yr ysgol ar ddechrau'r cyfnod ond bydd hyn yn lleihau yn raddol os yw'r dulliau i weld yn gweithio yn y dosbarth a'r ymddygiad yn sefydlogi. Bydd y Swyddog hefyd yn cyd-weithio gyda rheini a'r nyrs ysgol i gynnig dulliau arbennig o weithio i'w defnyddio yn y cartref. Bydd y CDU yn cael ei adolygu cyn i Siôn gael ei drafod yn y Fforwm Ardal nesaf ar ddiwedd yr hanner tymor.

Oblygiadau Cost:


| Y FFORDD BRESENNOL O WEITHIO | cost |
|---|---|
| mewnbwn Seicolegydd Addysgol - gallai fod yn ymgynghoriad pob hanner tymor am ddau dymor | £540 |
| mewnbwn athrawes arbenigol ymddygiad x 2 flynedd | £1,255.38 |
| cymhorthydd @15 awr am 2 flynedd | £15,750 |
| **Cyfanswm** | **£17,545.38** |
| **Y FFORDD NEWYDD O WEITHIO** | |
| mewnbwn Seicolegydd Addysgol (dau ymweliad) | £270 |
| mewnbwn athrawes arbenigol ymddygiad am flwyddyn | £627.69 |
| Swyddog yn ymweld a'r ysgol am gyfnod o hanner tymor | £1,641 |
| Talkabout (grwpiau o fewn yr ysgol) | |
| **Cyfanswm** | **£2,403.69** |

**Atodiadau:**

1 Siart Mynediad at gefnogaeth i Sion (cymharu'r hen ffordd efo'r ffordd newydd)
2 Cynllun Addysg Unigol Sion (y ffordd bresennol o gofnodi'r cynllun)
3 Proffil Un Tudalen Sion, a Chynllun Gweithredu Sion (rhan o'r CDU - y ffordd newydd)

[iii] Mae'r Athrawes Dosbarth yn defnyddio Dulliau Webster-Stratton gyda'r Dosbarth Cyfan ond yn gwneud addasiadau unigol ar ei gyfer . Er enghraifft maent yn defnyddio siart wobrwyo Spiderman ar ei gyfer er mwyn gwobrwyo ef os yw'n eistedd yn y dasg ffocws am 5 munud ac os nad ydyw yn gwthio plentyn arall am sesiwn. Os yw'n cael 5 sticer mewn dydd mae'n cael cyfnod o 10 munud ar ei hoff gêm ar yr iPad dosbarth ac mae'n mynd a thystysgrif Spiderman adref i ddangos i'w rieni. Pan fo tystysgrif yn cael ei yrru adref mae ei rieni wedi cytuno i'w wobrwyo hefyd.

**Atodiad 1-** Siart Mynediad at gefnogaeth i Sion (cymharu'r hen ffordd efo'r ffordd newydd)



**Atodiad 2-** CAU Sion (y ffordd bresennol)

**Cynllun Addysg Unigol**

**Enw:** Sion
**Dyddiad Geni**:
**Cam:** GY+
**Pryder:** Ymddygiad, Emosiynol ac Ymddygiadol
**Cychwyn:** Hyd 2015
**Dyddiad Adolygu**: Mawrth 2016
**Cefnogir gan:** Anti Karen

| **Targedau**: | **Mesur Llwyddiant**: | **Adnoddau Posibl a Technegau:** | **Strategaethau Posibl yn y Dosbarth**: | **Syniadau ar gyfer yr Athro Cefnogi**: | **Canlyniad**: |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. I ganolbwyntio am fwy na 5 munud | 1. Arsylwi ef yn gwneud hyn 10 gwaith | 1. Cylchdroi gweithgareddau yn rheolaidd | 1. Atgoffa i dalu sylw | 1. Canmol pan yw'n canolbwyntio | |
| 2. I weithio gyda rhyngweithio gyda plentyn arall am 3 munud | 2. Arsylwi ef yn gwneud hyn ar 10 achlysur gwahanol | 2. Gosod tasgau sydd angen gweithio ar y cyd, darllen par | 2. Gwirio bod y ddau belntyn yn deall beth mae angen iddynt wneud, cynyddu'r amser yn raddol. | 2. Siarad am sut i ryngweithio yn dda, canmol | |
| 3. I weithio gyda grŵp o blant eraill am 2 funud | 3. Arsylwi ef yn gwneud hyn ar 10 achlysur gwahanol | 3. Chwarae rôl, darllen grŵp, adnabod rôl a dysgu strategaethau cydweithio | 3. Gwirio fod y plant yn deall beth sydd angen iddynt wneud, cynyddu'r amser yn raddol | 3. Siarad am sut i ryngweithio yn dda, canmol | |
| 4. I amrywio sut mae'n cychwyn brawddegau | 4. 5 gwahanol ffordd yn cael ei ddefnyddio | 4. Esiamplau mewn testun | 4. Pwyntio allan gwahanol ffyrdd o ddechrau brawddeg pan yn darllen ar y cyd. | 4. Edrych ar storïau Sion gydag o a trafod ffyrdd gwahanol o ddechrau stori | |

**Rhieni i:**
Darllen gyda Sion adref

**Plentyn i:**
Ceisio gwrando mwy yn y dosbarth

**ATODIAD 3 –** Proffil Un-Dudalen a Chynllun Gweithredu Sion (rhan o'r CDU – y ffordd newydd)

# Cynllun Sion



# Sion's Plan

Rhan 1 *Part* 1

Hanfodol

# Proffil Sion 's Profile



## Beth sydd yn bwysig i [Enw] ?
## What's important to [Name] ?

- Eistedd wrth y ffenestr sydd yn gwynebu'r iard chwarae yn y dosbarth – mae hyn yn helpu imi wybod faint o'r gloch ydy hi a dwi'n canolbwyntio yn well yno.
- Dwi'n hoffi cael sgwrs gyda Miss Jones yn y bore, cyn amser chwarae.
- Gwylio Tim y Betws yn chwarae pel droed ar fore dydd Sul gyda Dad.
- Cael prynu papur neu gylchgrawn pel droed ar ddydd Sadwrn er mwyn edrych arno gyda Dad. Dwi yn cefnogi Lerpwl.
- Cadw fy nhegannau Spiderman yn y bocs glas dros y penwythnos fel nad oes neb wedi chwarae gyda nhw pan nad ydw i yn Ty Mam.
- Cael cyfle i chwarae pel gyda Tomos yn yr ardd ar ol Ysgol.
- Cael amser stori neu chwarae gem gyda Mam ar ol i Tomos fynd i gysgu.



Tud. 41

## Hoffi ac edmygu am [Enw]
## Like and appreciate about [Name]

Pa mor daclus ydy Sion gyda ei bethau

Mae Sion bob amser yn barod ei gymwynas

Mae Sion yn garedig gyda Tomos, ei frawd bach.

## Beth sydd yn bwysig er mwyn cefnogi [Enw] ?
## How best to support [Name] ?

- Mae Miss Jones yn rhoi 'job' imi ei wneud yn y dosbarth – rydw i yn mwynhau hyn yn fawr iawn, yn enwedig gwneud yn siwr bod planhigion y dosbarth yn cael dwr bob dydd.
- Cael amser i edrych ar wefan peldroed ar yr ipad os ydw i wedi cael bore neu brynhawn heb gerdyn coch.
- Defnyddio system cardiau lliw gyda fi i helpu imi ddeall fy ymddygiad – gwyrdd ar gyfer ymddygiad da, melyn ar gyfer rhybydd, coch ar gyfer dangos bod angen stopio.
- Mae fy amserlen weledol rwan a nesaf yn helpu imi ddeall beth sydd yn dod nesaf.
- Dwi yn mwynhau amser grwp Talkabout gyda Anti Caren a dwi'n ymarfer beth rydym yn ei wneud yn y grwp - yn y dosbarth ac adref.
- Os nad ydw i wedi cael cerdyn coch, rydw i yn cael sticer Spiderman yn fy Llyfr Cyswllt cartref i ddangos i Mam ac i Dad.
- Os nad ydw i'n cael cerdyn coch gan Mam rydw i'n cael sticer Spiderman yn fy llyfr i ddangos i Miss Jones ar ol amser cofrestru.
- Dwi yn hoffi cael fy nghanmol.

# Cynllun Gweithredu Sion

## *Sion's Action Plan*

| ***Deilliant i'r unigolyn:**<br>*Outcome for the individual:* | ****Beth ydym angen ei wneud i gyrraedd y deilliant?**<br>*What do we need to do to reach the outcome?* | **Pwy fydd yn gwneud hyn? (e.e. Ysgol, A.Ll. rhieni, asiantaeth)**<br>*Who is responsible? (e.g school, LA, Parents, Agencies)* | **Erbyn Pryd?**<br>*By When?* |
|---|---|---|---|
| Parhau i wneud cynnydd gyda sgiliau canolbwyntio a lleihau ymddygiad heriol yn y dosbarth fel ei fod yn cael cerdyn gwyrdd ar 8/10 sesiwn mewn wythnos | Parhau gyda'r system gwybrwyo cardiau lliw peldroed a sticeri Spiderman<br>Parhau gyda amserlen weledol, arbrofi gyda un wythnosol | Miss Jones<br>Anti Caren<br>Betsan Parry | **07/03/2016** |
| Targedu sgiliau chwarae ar yr iard fel bod Sion yn gallu ymuno gyda amrywiaeth o weithgareddau amser chwarae ac amser cinio | Cyflwyno Talkabout i'r goruchwylwyr amser chwarae fel bod y goruwchwylwyr yn gallu atgoffa Sion o'r sgiliau a rhoi cymorth iddo ymuno gyda plant Blwyddyn 1 neu 2 yn fwy aml | Mrs Evans<br>Betsan Parry | **18/12/2015** |
| Parhau i ddatblygu sgiliau rhyngweithio positif yn y dosbarth | Parhau i atgoffa o ymddygiad da<br>Defnyddio dulliau Webster-Stratton<br>I Sion rannu yr ipad gyda plentyn arall ar gyfer tasg yn hytrach na yn ystod yr amser gwobrywo | Miss Jones<br>Anti Caren | **07/03/2016** |
| I Sion setlo yn well pan yw'n dod adref i Ty Mam ar nos Sul | Dad am ddod a Sion adref awr yn gynt ac am aros yn Ty Mam am baned ac helpu Sion i ddadbacio ei fag | Mam a Dad | **18/12/2015** |
| I Sion setlo yn well yn y Dosbarth ar fore Llun | Cynnal sesiwn Talkabout bore Llun am 9.15 yn syth ar ol cofrestru yn hytrach na 11am, gan fod Sion yn setlo yn dda yn y sesiwn yma. | Miss Jones<br>Anti Caren | **18/12/2015** |
| I gynllunio i Sion gael profiadau o chwarae pel droed mewn Tim | Gwneud ymholiadau gyda Clwb Peldroed y pentref | Dad | **18/12/2015** |

**Proffil arbedion parhaol fesul blwyddyn academaidd**

| | Pennawd cyllideb | Arbedion parhaol arfaethedig | | | | | | | | | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllun | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Cyfanswm | |
| | **Cyllideb cyflogi'r Gweithlu a'r gyllideb Integreiddio 3* a datganiadau** | | | | | | | | | | |
| 1 | Cyllideb y Gweithlu a Chyllideb Integreddio | Cychwyn cyflwyno CDU yn lle datganiadau yn y blynyddoedd cynnar a blwyddyn 5 (lleihau oriau rhai datganiadau drwy newid trothwyon) | £0 | £23,550 | £32,570 | £43,840 | £35,870 | £17,540 | £25,050 | £178,420 | gall y swm yma fod yn uwch - ond angen ei fuddsoddi i dyfu maint y gweithlu arbenigol. Y gyllideb yn ei chyfanrwydd yn £3.9m 2015/16 |
| 2 | | Adolygu'r gwasanaeth - ail fodelu'r gweithlu. Arian Integreiddio (3*) yn cael ei gadw'n ol yn ganolog | £0 | £0 | £808,461 | £0 | £0 | £0 | £0 | £808,461 | ail fodelu'r holl ddarpariaeth gweithlu arbenigol presennol a chynnwys y gyllideb 3* yn ei chyfanrwydd |
| 3 | **Cyfanswm arbedion** | | **£0** | **£23,550** | **£841,031** | **£43,840** | **£35,870** | **£17,540** | **£25,050** | **£986,881** | |

**Proffil Costau unwaith-ac-am-byth fesul blwyddyn academaidd**

| | Pennawd | Costau unwaith-ac-am-byth | | | | | | | | | Eglurder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cynllun** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **Cyfanswm** | |
| | **"Rheoli Newid"** | | | | | | | | | | |
| 1 | Rhaglen Hyfforddiant | Rhaglen gynhwysfawr ar gyfer y gweithlu presennol, gweithlu newydd a rhieni. | £40,000 | £80,000 | £80,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £200,000 | angen mwy o waith manwl. Sylw penodol i CDU ar y dechrau |
| 2 | Rheoli'r Newid | Rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr | £50,000 | £50,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | |
| 3 | Cefnogaeth Interim cyn cyflwyno'r gweithlu newydd | Darpariaeth er mwyn paratoi ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth - cynnig darpariaeth iaith a lleferydd interim hyd Awst 2016. | £100,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £100,000 | Swyddi yn weithredol erbyn Medi 2016 |
| 4 | Cefnogaeth Interim cyn sefydlu'r Trim Craidd yn ei gyfanrwydd | Darpariaeth dros dro- cyn newid y tim craidd yn ei gyfanrwydd | £0 | £391,560 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £391,560 | Swyddi newydd yn weithredol Medi 2017 |
| | | | | | | | | | | **£791,560** | |
| | **Amcan gyfrif costau ail strwythuro** | | | | | | | | | | |
| 5 | Costau di swyddo posib | lleihad sylweddol yn y gweithlu drwy ail strwythuro | £90,755 | £497,816 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £588,571 | angen gwirio'n bellach |
| | | | | | | | | | | **£588,571** | |
| 6 | **Cyfanswm** | | **£280,755** | **£1,019,376** | **£80,000** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** | **£1,380,131** | |

Yn ogystal mae swm penodol eisoes wedi'i gymeradwyo ar gyfer costau Rheoli Prosiect o £206,843

ATODIAD 4

F8

# CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

**Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Iwan Trefor Jones
Eleri Llewelyn Owen

## 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayb.

Penaethiaid ysgolion a'r gweithlu canolog
Rhieni
Plant a phobl ifanc
Y Llywodraethwyr
Gwasanaethau Cymdeithasol
Gwasanaeth Iechyd
Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (CBAAA)

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

Ymgysylltu ar gychwyn yr Adolygiad ym 2012, gyda phwyslais penodol ar ganlyniadau cydraddoldeb i ddefnyddwyr

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

16 Ionawr 2016 (adroddiad yn mynd ger bron y Cabinet)

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH

Nodwch pam fod angen y polisi a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Amcan yr adolygiad yw:
"Sicrhau fod plant a phobl ifanc (rhwng 0 a 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleodd ac yn ennill profiadau sydd wedi'i eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu".

Cynhelir yr Adolygiad yma yng nghyd-destun newid arwyddocaol yn y maes yn cynnwys:

- Materion deddfwriaethol
- Hoelio sylw ar ymyrraeth gynnar ac ataliol
- Adeiladu Ysgol arbennig newydd Meirion/ Dwyfor
- Y cyd-destun ariannol

Mae'r deilliannau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Adolygiad yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
- trefniadau aml asiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- system sy'n ymyrryd yn gynnar a buan wrth i anghenion plentyn ddod i'r amlwg, gan ymateb

yn brydlon a rhoi cefnogaeth ychwanegol ar waith yn syth – beth bynnag fo oedran y plentyn;
- Cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol, a bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn y cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth.
- Cyflwyno - proses hyblyg wedi'i chynllunio o gwmpas yr unigolyn (CCU)
- Sefydlu un tîm integredig i wasanaethu a chefnogi'r ysgolion i ddarparu cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn gofalu bod arbenigeddau'n cael eu dosbarthu'n fwy cyson ar draws y sir
- Gwella cyfathrebu'n gyffredinol, boed hynny hefo plant, rhieni, ysgolion neu asiantaethau eraill.

**6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

Mae'r Adolygiad o'r cychwyn wedi canolbwyntio ar anghenion y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

- Cynhaliwyd sgyrsiau a sesiynau trafod gyda defnyddwyr, darparwyr a chomisiynwyr y gwasanaeth yn ystod y broses:
- Ymweliadau ysgolion - fe ymwelwyd â sampl o 17 ysgol i drafod y sefyllfa gyfredol yng nghyd-destun eu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Cyfarfodydd ymgysylltu – Penaethiaid torfol, athrawon a chymorthyddion
- Fforymau Cydlynwyr ADY – wedi gwahodd Cydlynwyr ADY pob Ysgol i gyfarfodydd penodol
- Awdit Sgiliau – holiadur ar lein i ganfod mwy o wybodaeth am sefyllfa gwaith y cymorthyddion
- Bwrdd Rheoli Derwen
- Grŵp Newid diwylliant - ystod o benaethiaid cynradd ac uwchradd wedi cyfarfod yn rheolaidd efo ni yn ystod 2014
- Rhieni, plant a phobl ifanc – wedi cyd weithio efo SNAP (Asiantaeth sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i rieni plant a phobl ifanc efo ADY) ac wedi ymgysylltu ar fwy nag un lefel.
- Mae SNAP wedi cyd weithio efo ni drwy gynnal ymgynghoriad i ddarganfod barn ynghylch y gyfundrefn bresennol ynghyd a'r opsiynau gwreiddiol oedd yn cael eu cynnig. Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb i wyneb gyda rhai o'r teuluoedd ynghyd a rhai oedd yn derbyn gwasanaeth SNAP yn ogystal â chyfres o grwpiau ffocws efo defnyddwyr a darparwyr gwasanaeth.
- Cynhaliodd swyddog plant SNAP gyfweliadau unigol efo nifer o blant oedd ar gofrestr ADY ysgolion penodol. Yn ogystal cafwyd ymgynghoriad efo dau grŵp o ddisgyblion Ysgol Uwchradd yn ystod Medi 2014, ac eto ym mis Tachwedd 2015.
- Yn ystod Haf 2014 cynigwyd holiadur ar lein i holl rieni disgyblion ADY.
- Cynhaliwyd cyfarfod efo swyddog penodol o Lywodraeth Cymru –i drafod y Papur Gwyn - cynigion deddfwriaethol newydd ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a gyhoeddwyd 22 Mai 2014
- Gwasanaeth Iechyd, Cyngor Ynys Môn, Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig – cyfres o gyfarfodydd lefel uchel wedi digwydd ers mis Medi 2014
- Yn Nhachwedd 2014 cymeradwyodd Aelod Cabinet Addysg i ymgynghori ymhellach ar Strategaeth ADYaCh ddrafft Cyngor Gwynedd (Ionawr - Chwefror 2015). Cafodd y ddogfen ei rhannu efo ystod eang o ran ddeiliaid. Crëwyd dogfen benodol ar gyfer rhieni a threfnwyd ffeiriau gwybodaeth ar draws y sir yn ystod diwedd Chwefror 2015.

O'r cychwyn cafwyd cefnogaeth unfrydol i'r achos dros newid. Yn yr ymgysylltu atgyfnerthwyd ein prif ganfyddiadau dro ar ôl tro ac amlygwyd meysydd nad oedd wedi cael digon o sylw. 'Roedd y

meysydd yma yn cynnwys: Diffyg cyfathrebu, diffyg cysondeb, dim dilyniant o'r meithrin i'r cynradd, a dim digon o gefnogaeth ar gyfer cynnal ymddygiad yn yr uwchradd. O ganlyniad 'rydym yn benodol wedi cryfhau a chysoni'r modelau darpariaeth, cryfhau'r pwyslais ar y cyfnodau trosiannol, a blaenoriaethu'r angen i roi sylw penodol i'r ddarpariaeth cynnal ymddygiad

**Trafodaethau Medi – Tachwedd 2015**

Yn ystod Medi -Tachwedd 2015 cynhaliwyd trafodaeth ar y cynigion i weithredu'r Strategaeth ADY gyda dros 380 o ran-ddeiliad (mewn 22 sesiwn). Roedd y rhan ddeiliad yn cynnwys:

- Rhieni
- 2 grŵp penodol o bobl ifanc sydd ar y gofrestr ADY
- Cydlynwyr ADY
- Cymorthyddion
- Llywodraethwyr
- Aelodau Lleol
- Derwen
- Gweithlu Mewnol (e.e. athrawon arbenigol, gweithlu'r CBAAA)
- Asiantaethau (e.e. SNAP, Cynllun Cyfeirio, Gyrfa Cymru)

Cynhaliwyd y sesiynau er mwyn codi ymwybyddiaeth a chanfod barn ar effaith posib o weithredu egwyddorion y strategaeth. Rhannwyd y sesiynau mewn i ddwy ran, gyda'r rhan gyntaf yn manylu ar y cynnig o ran y strwythur y gwasanaeth/ddarpariaeth newydd, a'r ail ran yn egluro'r newid posib i'r ffordd y mae cael mynediad ar y gwasanaeth. Rhoddwyd cyfle i bawb drafod a rhannu eu syniadau yn ystod y sesiynau neu trwy lenwi'r ffurflen adborth oedd ar gael ar bapur neu ar wefan y Cyngor.

Derbyniwyd adborth cadarnhaol ar y cyfan, gyda'r mwyafrif yn cefnogi'r achos dros newid yn ogystal â'r model tîm integredig canolog a gyflwynwyd. Er bod y niferoedd a fynychodd y sesiynau wedi bod yn gadarnhaol iawn (o gwmpas 380 o bobl dros 22 sesiwn), roedd y nifer o rieni yn siomedig o isel. Mewn ymateb i hynny, cytunwyd fod angen datblygu Strategaeth Gyfathrebu er mwyn edrych ar ddulliau gwahanol o gyrraedd a chyfathrebu a'r teuluoedd mwyaf bregus mewn achlysuron tebyg i'r dyfodol. Yn ogystal, bwriedir rhyddhau taflen 'Cwestiwn ac Ateb' i'w rannu â'r rhieni, yn crynhoi'r hyn a drafodwyd ac yn ymateb i'r prif gwestiynau/bryderon a godwyd yn ystod y sesiynau.

Fe amlygwyd yr angen i edrych ar y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, ôl 16 ac Iechyd yng nghyd-destun yr adolygiad. Cytunwyd â'r egwyddor o sefydlu is-grwpiau penodol i ymgymryd â'r dasg honno.

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb

Mae rhagair gan y Gweinidog Huw Lewis AC yn y Papur Gwyn sydd yn cyflwyno'r cynigion deddfwriaethol ar gyfer ADY yn crynhoi'r achos dros newid, a'r dystiolaeth y bu i ni ei dderbyn:

"Mae'r system bresennol ar gyfer cefnogi plant ag AAA yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 mlynedd yn ôl. Nid yw'r model hwn bellach yn addas i'w ddiben. Mae ymchwiliadau ac adolygiadau gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru.....ynghylch y ddarpariaeth AAA wedi barnu bod y system bresennol yn gymhleth, yn ddyrys ac yn ennyn gwrthwynebiad. Mae'r dystiolaeth yn disgrifio proses asesu sy'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd ac yn gostus ac nad yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn ddigon syml i'w defnyddio. Dywed teuluoedd fod yn rhaid iddynt frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ymhob cam o'r system ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallent droi i gael cyngor a gwybodaeth".

Rhaid bod yn ymwybodol ein bod yn ymdrin efo rhai o'r plant mwyaf bregus yn ein hysgolion ac yn aml mae sefyllfa'r rhieni hefyd yn fregus ar fwy nag un lefel

Mae gennym ddigon o dystiolaeth ynglŷn â'r anghysondebau oddi fewn i'r ddarpariaeth bresennol, yn bennaf o ran:

- Sicrwydd ansawdd
- Anghysondeb daearyddol
- Gweithdrefnau fesul anhwylder
- Y pecynnau darpariaeth a gynigir i ddisgyblion

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut y caiff y rhain eu llenwi

Dim bylchau wedi'u hadnabod yn y dystiolaeth ar hyn o bryd.

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

Dylai hyn amlinellu beth yw perthnasedd y polisi/ gwasanaeth/ swyddogaeth i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion , ond os canfyddir perthnasedd a/ neu effaith mewn unrhyw un neu fwy o gategorïau, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad



**9a)**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | **Oes** | 'Rydym yn rhagweld effaith cadarnhaol sy'n arwain at:<br>• Sicrhau cysondeb o ran lleoliad a safon y gwasanaeth ar draws y sir<br>• System symlach, gynt o adnabod anghenion a gweithredu ymyraethau<br>• Gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth efo rhieni i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | **oes** | • Byddwn yn sicrhau fod gwybodaeth ddigonol ar gael ar ffurf addas ar gyfer pob unigolyn sy'n cael ei effeithio<br>• Ystod ehangach o ddisgyblion yn cael yr un ystyriaeth o'u hanghenion drwy gynlluniau sy'n canolbwyntio ar unigolion (CDU)<br>• Cynnig 'Cynllun Gyrfa' ar gyfer Cymorthyddion dysgu – cytundebau parhaol, cyfle i rannu swydd, hyfforddiant, ystod o swyddi penodol. |
| **Meithrin perthnasau da** | **oes** | Byddwn yn parhau i sicrhau digon o ymgysylltu aml asiantaethol er mwyn gwella dealltwriaeth yr holl fudd ddeiliaid` |

**9b)**

| Nodweddion | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Hil** | **efallai** | Rhai o'r disgyblion ar y gofrestr AAA yn gallu bod o hil wahanol. Ni ddylai hyn wneud unrhyw wahaniaeth gan y byddwn yn sicrhau dealltwriaeth o unrhyw anghenion diwylliannol ac ieithyddol gwahanol. |
| **Anabledd** | **oes** | Mae'r elfen yma yn berthnasol gan fod y mwyafrif o'r defnyddwyr gwasanaeth gydag ystod o anableddau yn amrywio o ran dwyster. Oherwydd yr anabledd / anghenion yma maent angen y gefnogaeth ychwanegol.<br>Bydd y ddarpariaeth newydd yn cynnig deilliannau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY, gan eu gosod yn ganolog wrth gynllunio ar eu cyfer.<br>Mae'n bwysig fod anghenion gofalwyr/ rhieni hefyd yn cael eu gwarchod. Bydd rhieni/ gofalwyr yn cael cyfle gwell i leisio'u barn wrth gynllunio'r gefnogaeth ar gyfer y plant/ pobl ifanc. Bydd yn bwysig ein bod yn hyrwyddo ac egluro'r cyfleoedd yma. |
| **Rhyw** | **oes** | Y mwyafrif o'r cymorthyddion yn ferched ac yn gweithio ar gyfartaledd oriau bach, am gyflog isel heb sicrwydd cyflogaeth tymor hir.<br>Dylid amlygu y bydd lleihad sylweddol yn y nifer o gymorthyddion yn yr ysgolion, ond fodd bynnag byddwn yn cyd weithio efo'r gwasanaeth adnoddau dynol i gyfeirio'r gweithlu at gyfleoedd ar gyfer swyddi amgen.<br>Bydd y modelau darpariaeth newydd yn cynnig 'Strwythur Gyrfa' ar gyfer nifer penodol o gymorthyddion efo'r cyfle i gael - cytundeb parhaol, haenau cyflogaeth gwahanol, hyfforddiant a thyfu arbenigedd penodol. |
| **Ailbennu rhywedd** | **dim** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | **dim** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Crefydd neu gred** | **dim** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Yr iaith Gymraeg** | **oes** | 'Rydym wedi sicrhau deunyddiau dwy ieithog ar gyfer yr holl ymgysylltu efo rhieni a theuluoedd a sicrhau bod darpariaeth i'r dyfodol yn cyfarch anghenion ieithyddol y defnyddwyr. Bydd hyn yn cydymffurfio efo Polisi Iaith Adran Addysg Cyngor Gwynedd. |
| **Oedran** | **oes** | Mae'r disgyblion a gyfeirir atynt yn yr Adolygiad yma yn amrywio o 2 - 18 oed ond mae'r cynigion ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd yn ymestyn y ddarpariaeth a'r cyfrifoldeb o 0 - 25 oed |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **oes** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith; ond pe byddai fe fyddem yn dilyn canllawiau perthnasol Adnoddau Dynol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | **dim** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |

## 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| **a)** | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Hyd yn hyn mae'r ymateb i'r Adolygiad wedi bod yn bositif gyda'r canfyddiad bydd y cynigion yn arwain at welliant o safbwynt cydraddoldeb i'r defnyddwyr.<br>Drwy ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn bydd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael cyfle gwell i leisio'u barn wrth gynllunio'r gefnogaeth ar eu cyfer.<br>Bydd y ddarpariaeth yma yn cael ei adolygu a'i wirio yn fwy rheolaidd er mwyn mesur a sicrhau ansawdd.<br>Bydd fforymau ardal yn gallu blaenoriaethu achosion er mwyn sicrhau mynediad at gefnogaeth yn llawer cynt.<br><br>Fe fydd fodd bynnag effaith arwyddocaol o ran y nifer o gymorthyddion a gaiff eu cyflogi oddi fewn i'r model newydd o ganlyniad i bwyslais yr Adolygiad ar sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon. |
| **b)** | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Byddwn yn parhau i ymgysylltu efo'r holl fuddeiliad yn rheolaidd er mwyn ceisio rheoli'r newid. Byddwn yn gwrando ac yn ceisio ymateb i'r holl sylwadau y byddwn yn eu derbyn.<br>Bydd y modelau darpariaeth newydd yn cynnig 'Strwythur Gyrfa' ar gyfer nifer penodol o gymorthyddion efo'r cyfle i gael - cytundeb parhaol, haenau cyflogaeth gwahanol, hyfforddiant a thyfu arbenigedd penodol. Byddwn yn cyd weithio efo'r gwasanaeth adnoddau dynol i gyfeirio'r gweithlu at gyfleoedd ar gyfer swyddi amgen.<br><br>'Rydym ar hyn o bryd yn ystyried modelau posib i leihau'r effaith yma drwy gynnig cyfleoedd i'r ysgolion benodi eu cymorthyddion eu hunain neu ar gyfer clwstwr o ysgolion |
| **c)** | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nagoes |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU


| |
|---|
| Bydd Bwrdd Prosiect yr Adolygiad Strategol yn monitro'r camau nesaf |

## 12) CYNLLUN GWEITHREDU

Dylid atodi Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys y camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlen, ac amlinelliad o'r trefniadau adolygu a gwerthuso

F8

Cynllun Gweithredu:




Byddwn yn parhau efo'r ymgysylltu drwy ddefnyddio'r un egwyddorion
Byddwn yn rhoi ystyrieth bellach i elfennau cydraddoldeb mewn trafodaethau efo'r Adran Adnoddau Dynol.

## 13) PENDERFYNU

Cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad 19 Ionawr 2016

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **19 Ionawr 2016** |
| **TEITL** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20** |
| **PWRPAS** | **Cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol fel drafft ar gyfer ymgynghoriad** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

## 1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 fel drafft ar gyfer ymgynghoriad gyda'r cyhoedd.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 Cyngor Gwynedd ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Mae'r cynllun wedi ei baratoi yn unol â'r dyletswydd sydd wedi ei osod gan Deddf Cydraddoldeb 2010 ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i gynhyrchu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan ymgynghori â'r cyhoedd fel rhan o hynny.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1 Mae ein cynllun cydraddoldeb yn nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb a'r camau y byddwn yn cymryd i'w gwireddu. Mae'r amcanion hyn wedi eu seilio ar:

- Wybodaeth fewnol
- Llais a chyfranogiad
- Data ar nodweddion cydraddoldeb

3.2 Ar ôl dadansoddi'r wybodaeth uchod, cyrhaeddwyd at y pedwar amcan canlynol:

Amcan 1: Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio mewnbwn gan bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
Amcan 2: Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb
Amcan 3: Lleihau'r gwahaniaeth rhwng cynrychiolaeth aelodau etholedig a nodweddion poblogaeth y sir
Amcan 4: Adnabod unrhyw wahaniaethau tâl a gweithredu i'w lleihau

3.3 Mae'r cynllun yn:

3.3.1 Dangos y pwyslais rydym yn ei osod ar dderbyn sylwadau a barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb ac ymateb i'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym wrth gynllunio ein gwasanaethau.

3.3.2 Amlygu ein bod yn canolbwyntio ar dreiddio materion cydraddoldeb i waith dydd i ddydd y Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb.

3.3.3 Tynnu sylw at y gwelliannau rydym eisiau eu gwneud er mwyn sicrhau asesiadau effaith cydraddoldeb sy'n gyson ac o'r ansawdd uchaf.

3.3.4 Gyson â'r chwe amcan rhanbarthol sydd wedi eu cytuno fel rhan o waith y Cyngor gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.

3.4 Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd wedi ei baratoi i gyd-fynd â'r cynllun yn dangos effaith gadarnhaol y cynllun ar bobl Gwynedd.

3.5 Bydd cynnydd y cynllun yn cael ei fonitro yn rhan o waith rheoli perfformiad arferol y Cyngor. Yn unol â gofynion y ddeddf, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol fydd yn dangos y cynnydd y byddwn wedi ei wneud tuag at gyflawni ein pedwar amcan.

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 (drafft) er mwyn gallu ymgynghori ar ei gynnwys gyda'r cyhoedd.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Bydd cyfnod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 1 Mawrth 2016. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet i addasiadau yn dilyn yr ymgynghoriad, fe gyhoeddir yr adroddiad a'i gyfathrebu drwy ddefnyddio dulliau amrywiol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Bydd y cynllun hefyd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ar gais.

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1: Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 (drafft)
Atodiad 2: Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20

## Barn y swyddogion statudol

### Y Prif Weithredwr:
Mae'n ofyn statudol i ni fod yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar y Cynllun hwn. Mae'r Cynllun sydd gerbron wedi bod yn destun gwaith manwl ac mae ffocws a rhesymeg glir i'r amcanion ynddo. Rwy'n cymeradwyo'r ddogfen i ddibenion ymgynghori.

### Y Swyddog Monitro:
Mabwysiadwyd y cynllun gwreiddiol yn 2012 am 4 blynedd yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Mae cynnal proses ymgynhorol yn cyfarch gofynnion ac egywddorion statudol ynglyn a sefydlu cynllun o'r fath. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

### Pennaeth yr Adran Gyllid:
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i osgoi anghydraddoldeb, er ar adegau fod cost ychwanegol er mwyn sicrhau hynny. Ystyrir pob cynllun yn unigol a bydd gwasanaethau yn gweithredu o fewn eu hadnoddau cyfredol, neu yn ariannu'r gost (e.e. drwy gynaeafu arbediad net).

# Cynllun Strategol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2016-20






www.gwynedd.gov.uk

**Rhagor o wybodaeth**
Uned Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

E-bost: cynlluniostrategolapherfformiad@gwynedd.gov.uk

Ffôn: 01286 679 708

**I gael copi o'r ddogfen hon mewn print Bras, Braille, ar dâp neu mewn iaith arall, cysylltwch â Delyth Gadlys Williams ar 01286 679 708**

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

# Mynegai

**Cynnwys** | **Tudalen**


Rhagymadrodd 04

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb 05

Sut ydym ni am weithredu? 06

Asesu Effaith ar Gydraddoldeb 07

Amcanion Rhanbarthol 08

Amcanion Cyngor Gwynedd 2016-20 09
a) Gwybodaeth fewnol
b) Llais a chyfranogiad
c) Data ar nodweddion cydraddoldeb

Gwybodaeth Bellach 15
a) Proffil o Wynedd
b) Hyfforddiant a Datblygiad
c) Deddfwriaeth
ch) Cyhoeddi
d) Monitro

Crynodeb 17

# Rhagymadrodd

Mae Cyngor Gwynedd yn falch o gyflwyno drafft o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ar gyfer ymgynghoriad. Os ydych chi eisiau rhoi sylwadau ar y cynllun, neu ei angen mewn iaith neu fformat gwahanol, mae'r manylion cyswllt ar y dudalen flaen. Bydd yr ymgynghoriad yn agored tan 1 Mawrth 2016.

# Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas.  Y nodweddion yna ydi:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

*(Deddf Cydraddoldeb 2010)*

Yr hyn mae Cyngor Gwynedd eisiau ei wneud ydi rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud.  Mae cael trefniadau addas i sicrhau cydraddoldeb yn holl bwysig wrth wneud hynny. Fydd hi ddim yn bosib rhoi gwasanaeth cyson i bawb fel arall.

Er bod y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol wedi bod yn ei le ers pedair blynedd bellach, rydym ni'n ymwybodol fod lle i wella ar ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wrth galon popeth mae'r Cyngor yn ei wneud.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod y cynllun newydd yma'n cael ei ysgrifennu ar gyfnod anodd pan mae Cyngor Gwynedd yn gorfod gwneud toriadau sylweddol i wasanaethau.  Ar adeg fel hyn rhaid cydnabod y bydd rhai grwpiau o bobl yn cael eu heffeithio'n fwy nag eraill.  Mae'n bwysig iawn ein bod yn ymwybodol o hyn ac yn gwneud popeth posib i leihau'r effeithiau yna.

# Sut ydym ni am weithredu?

Rydym yn credu mai'r ffordd orau o hybu cydraddoldeb a lleihau effeithiau'r toriadau ar bobl ag amrywiol nodweddion cydraddoldeb yw gwrando ar eu barn a phrofiad cyn gweithredu. Ein bwriad felly yn ystod y pedair blynedd nesaf yw blaenoriaethu hynny gan gryfhau'r ffordd rydym yn derbyn a defnyddio cyfraniadau pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb penodol. Bydd yn bosib i'r wybodaeth yma ein harwain yn y gwaith yn gyffredinol ond hefyd byddwn yn gofyn am fewnbwn i bolisïau, prosiectau a dulliau o weithio penodol. Credwn felly y byddwn yn gallu adnabod ffyrdd o wneud gwahaniaeth go iawn i bobl gyda'r nodweddion yma.

Rydym wedi pennu amcanion i'n helpu i wneud hynny, yn unol â'n dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym hefyd yn adnabod yr hyn allwn ni ei wneud i weithio tuag at yr amcanion hynny. Mae'n bwysig fod y cynllun yn hyblyg i ymateb i'r newidiadau fydd yn digwydd yn ystod y pedair blynedd nesaf. Yn bwysicach, rhaid bod yn barod i ymateb i'r adborth fyddwn ni'n ei dderbyn gan bobl â nodweddion cydraddoldeb arbennig. Dim ond wrth fod yn hyblyg fydd hi'n bosib i ni weithredu'n arloesol a darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon fydd yn diwallu anghenion pobl Gwynedd.

Mae gennym eisoes wasanaethau sy'n gwarchod y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau i sicrhau diogelwch, tegwch ac annibyniaeth unigolion bregus fel plant mewn gofal, pobl hŷn, plant a phobl anabl. Rydym yn gweithio i wella canlyniadau plant a phobl Gwynedd drwy wella safonau addysg, hybu'r economi a gwaith i atal tlodi. Mae gwaith ataliol e.e. gwasanaethau i droseddwyr ifanc, hybu byw'n iach, Strategaeth Heneiddio'n Dda, Strategaeth Trais yn y Cartref, hefyd yn rhan o waith y Cyngor o ddydd i ddydd.

Gan fod gweithdrefnau, prosiectau a strategaethau ar gael yn barod ar y meysydd hyn nid ydym am ymhelaethu arnynt yn y cynllun yma. Mae gwybodaeth ar gael amdanynt eisoes, e.e. yng Nghynllun Strategol y Cyngor. Yn hytrach, ein bwriad yw cryfhau ein ffordd o weithio er mwyn sicrhau fod mewnbwn a dyheadau pobl Gwynedd yn cael ystyriaeth deg wrth weithredu a bod yr effaith ar bobl sy'n rhannu'r nodweddion cydraddoldeb yn cael ei ystyried. Bydd hyn yn fodd o adnabod unrhyw rwystrau neu fylchau a'n caniatáu i weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Hefyd mae'n bwysig nad yw meysydd cydraddoldeb yn cael eu cyfyngu i unrhyw brosiect neu wasanaeth benodol. Yn hytrach dylai dreiddio trwy waith y Cyngor e.e. nid mater i'r Tîm Iechyd Meddwl yn unig yw ystyriaethau iechyd meddwl, ond yn hytrach mater i'r Cyngor i gyd.

Er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio trwy'r Cyngor, fe fydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn adnabod unrhyw faterion cydraddoldeb a'u cynnwys yng Nghynllun Busnes y gwasanaeth. Disgwylir i'r materion yma gael eu pennu ar sail tystiolaeth, yn arbennig mewnbwn gan bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i reoli drwy gydol y flwyddyn.

# Asesu Effaith ar Gydraddoldeb

Dull pwysig o sicrhau fod llais pobl â nodweddion cydraddoldeb yn cael ystyriaeth deg yw Asesiadau Effaith Cydraddoldeb. Mae asesu effaith fel hyn yn fodd i sicrhau ein bod yn adnabod unrhyw anghydraddoldeb a gweithio i leihau ei effaith. Mae gofyn eisoes fod asesiad o'r fath yn cael ei wneud ar unrhyw bolisi sy'n mynd at y Cabinet a'r Cyngor ac ar unrhyw newid i arfer sy'n cael effaith ar bobl. Un o hanfodion asesu effaith yw sicrhau mewnbwn gan bobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb.

Wrth edrych ar yr asesiadau effaith sy'n cael eu cwblhau rydym wedi adnabod nad yw'r safon yn gyson ac nad yw'r gwaith o'u datblygu bob tro'n cael ei gyflawni'n addas. Rydym felly yn blaenoriaethu gwella safon ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb fel un o'n hamcanion dros y pedair blynedd nesaf.

# Amcanion Rhanbarthol

Mae'r Cyngor yn aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru. Mae'r rhwydwaith wedi adnabod chwe amcan i weithio tuag atynt:

i. Gostwng anghydraddoldebau o ran iechyd
ii. Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran addysg er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion
iii. Gostwng anghydraddoldebau o ran gwaith a thâl
iv. Gostwng anghydraddoldebau o ran diogelwch personol
v. Gostwng anghydraddoldebau o ran cynrychioli a llais y bobl
vi. Gostwng anghydraddoldebau o ran cael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd.

Fel ag y nodwyd ym mhwynt 3, mae gan y Cyngor strategaethau, gweithdrefnau a phrosiectau sy'n ymateb i'r uchod. Teimlwn mai'r ffordd orau i weithio tuag at yr amcanion yma'n lleol yw cryfhau'r trefniadau gweithio. Bydd hyn yn gwreiddio'r ymwybyddiaeth o anghenion cydraddoldeb yn ddyfnach o fewn gwaith dydd i ddydd y Cyngor gan wella ein hymateb i'r amcanion uchod. Byddwn yn edrych ar sut mae ein gwaith yn plethu mewn i'r amcanion yma yn fwy penodol yn yr adroddiadau blynyddol ar y cynllun.

# Amcanion Cyngor Gwynedd 2016-20

Rydym yn nodi isod y pedwar amcan mae Cyngor Gwynedd am weithio tuag atynt dros y pedair blynedd nesaf. Rydym wedi penderfynu ar yr amcanion yma ar sail amrywiaeth o dystiolaeth gan gynnwys:

## a) Gwybodaeth fewnol

Yn anffodus, mae ein cyswllt gyda rhai grwpiau penodol wedi llithro. Mae hyn yn arbennig o amlwg gyda'r Grwp Craidd Anabledd sydd wedi crebachu'n sylweddol mewn aelodaeth. Ein bwriad felly yw edrych o'r newydd ar ein trefniadau, gan greu cyswllt gyda grwpiau penodol a sefydlu Grwp Craidd Cydraddoldeb i gynrychioli pob nodwedd.

Wrth edrych ar yr asesiadau effaith sydd wedi eu cwblhau, rydym yn adnabod fod lle i wella eu cysondeb a'u datblygiad. Rhaid hefyd wella'r ffordd rydym yn defnyddio'r mewnbwn sy'n cael ei dderbyn er mwyn sicrhau fod barn a dyheadau pobl Gwynedd yn cael ystyriaeth deg wrth i ni gynllunio ein gwaith.

Rydym hefyd wedi adnabod fod yr wybodaeth sydd gennym ar nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu angen ei wella. Wrth dderbyn nad oes angen i bobl rannu gwybodaeth gyda ni mae'n bwysig fod yr wybodaeth yma mor gyflawn â phosib er mwyn i ni allu lleihau unrhyw anghydraddoldeb neu rwystr sy'n ymddangos.

Rydym hefyd wedi adnabod yr angen i greu sefyllfa sy'n lleihau unrhyw rwystrau sy'n atal pobl â rhai nodweddion cydraddoldeb rhag ymgeisio am aelodaeth o'r Cyngor.

## b) Llais a chyfranogiad

Rydym wedi derbyn mewnbwn trwy nifer o ffynonellau. Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu rhanbarthol gydag amrywiol fudd-ddeiliaid i drafod ein hamcanion rhanbarthol.

Mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth ar flaenoriaethau pobl drwy ymarferiad casglu barn Her Gwynedd, oedd yn cynnwys cyfarfod gyda grwpiau pobl hyn, pobl ifanc a phobl anabl. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio wrth lunio'r amcanion isod ond hefyd bydd yn cael ei defnyddio wrth gynllunio ein gwaith yn y dyfodol.

Mae sicrhau mewnbwn y gwahanol garfannau yn un o amcanion y cynllun yma ac felly am chwarae rhan bwysig nid yn unig wrth sefydlu'r amcanion ond yn holl waith y Cyngor dros y pedair blynedd nesaf. Gobeithiwn y bydd pobl Gwynedd yn ein helpu i ganfod ffyrdd arloesol ac addas o weithio.

Rydym wedi penderfynu ar yr amcan yma oherwydd bod pobl Gwynedd wedi dweud wrthym dro ar ôl tro fod hyn yn flaenoriaeth iddynt. Maent wedi dweud eu bod yn teimlo fod penderfyniadau wedi eu gwneud cyn iddynt hwy gael rhoi barn arnynt. Mae'n hynod bwysig fod y Cyngor yn parhau gyda'r gwaith o gynnwys pobl er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn ei waith. Dylid nodi nad ydym o reidrwydd yn golygu ymgynghoriadau ffurfiol yma, er bod gan y rheini rôl i'w chwarae,

ond hefyd bod â gwybodaeth o ddyheadau a barn gwahanol garfannau sy'n cael eu heffeithio gan ein gwaith bob dydd.

Mae swyddogion a rheolwyr o fewn y Cyngor hefyd wedi nodi eu bod wedi canfod ffyrdd o wella gwasanaethau oherwydd mewnbwn gan y cyhoedd, e.e. casglu clytiau babanod yn wythnosol yn sgil newid i gasgliadau sbwriel bob tair wythnos, dulliau amgen o ddarparu gofal.

Rydym hefyd yn awyddus i dderbyn barn ar y cynllun a'r amcanion yma. Os ydych chi eisiau rhoi sylwadau, mae'r manylion cyswllt ar y dudalen flaen.

## c) Data ar nodweddion cydraddoldeb

Mae'r Cyngor yn casglu data cydraddoldeb lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar nodweddion cydraddoldeb er mwyn cael darlun gwell o anghenion. Mae'r wybodaeth yma yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd wedi cyhoeddi "A yw Cymru'n Decach" ym mis Rhagfyr sydd yn edrych ar gyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol ym 2015. Bydd yr wybodaeth yma yn hysbysu ein gwaith hefyd e.e. mae'n nodi "Ychydig iawn o welliant a fu mewn cynrychiolaeth wleidyddol yn y pum mlynedd ddiwethaf, gyda menywod, pobl anabl, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, lleiafrifoedd gwleidyddol a phobl LGBT* yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol ar bob lefel o wleidyddiaeth yng Nghymru".

Yn ogystal â rhoi gwybodaeth i ni er mwyn penderfynu ar ein hamcanion, mi fydd y data uchod yn ein helpu wrth benderfynu ar waith mwy penodol yn ystod y pedair blynedd sydd i ddod.

(*Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol)

| **Amcan 1** | **Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy’n rhannu nodweddion cydraddoldeb** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Mae gwrando ar bobl yn bwysig er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn addas ar eu cyfer. Mae digonedd o dystiolaeth anecdotaidd i ddangos fod pobl Gwynedd yn teimlo fod hyn yn flaenoriaeth. Rydym yn ymwybodol fod ein cyswllt gyda rhai grwpiau wedi llithro, e.e. dirywiad y Grŵp Craidd Anabledd. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae’n eu heffeithio yn benodol? | Pob un |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Cryfhau cyswllt y Cyngor gyda grwpiau penodol a sefydlu grŵp craidd cydraddoldeb gan rannu’r wybodaeth a ddaw o’r grŵp drwy’r Cyngor.<br>• Rhannu gwybodaeth o ymarferiadau casglu barn ar fewnrwyd y Cyngor fel ei fod ar gael i bawb.<br>• Cryfhau’r elfen cydraddoldeb yn y Llawlyfr Ymgysylltu ar sail ymarfer da er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu hatgoffa o’r budd sy’n dod o dderbyn barn pobl hefo nodweddion cydraddoldeb, yn ogystal â’r ddyletswydd i wneud hynny. |
| Beth yw’r amserlen? | Parhaol gyda’r gwaith ar sefydlu’r grŵp craidd a’r Llawlyfr Ymgysylltu yn digwydd yn 2016-17 |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | • Fod trefniadau cyswllt cryf newydd rhwng y Cyngor a grwpiau nodwedd ac unigolion. Fod y grwpiau hynny’n teimlo fod y Cyngor yn gwrando ar eu barn.<br>• Fod gan bob gwasanaeth yr wybodaeth angenrheidiol i gasglu a defnyddio cyfraniad unigolion a grwpiau yn unol â’u dyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy sicrhau fod ystod o wybodaeth ar gael ar y fewnrwyd.<br>• Canfod ffyrdd arloesol ac addas o weithio drwy dderbyn barn a mewnbwn arbenigol grwpiau ac unigolion hefo nodweddion cydraddoldeb. |

| **Amcan 2** | **Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb** |
| --- | --- |
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Er bod trefniadau asesu effaith wedi eu datblygu fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol rydym wedi adnabod, o edrych ar yr asesiadau sydd wedi dod i law, fod lle i wella eu cysondeb a'u datblygiad.  Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Comisiynydd Pobl Hyn yn pwysleisio pwysigrwydd asesiadau o'r fath. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Pob un |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Rhoi cymorth a hyfforddiant i swyddogion i sicrhau fod ganddynt wybodaeth am eu dyletswydd tuag at bobl gyda nodweddion cydraddoldeb.  Dylai hyn gynnwys sicrhau fod asesiadau effaith yn rhan o ddatblygiad unrhyw bolisi, prosiect neu weithdrefn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.<br>• Sicrhau fod y negeseuon sy'n dod o geisio mewnbwn grwpiau ac unigolion â nodweddion gwarchodedig yn cael eu rhannu drwy'r Cyngor ar gyfer eu cynnwys mewn asesiadau effaith. |
| Beth yw'r amserlen? | Parhaol |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | • Gweithlu sy'n ymwybodol o'n dyletswydd i ymgysylltu ac asesu effaith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r budd sy'n dod o wneud hynny, fel bod asesu effaith yn dod yn rhan naturiol o weithredu.<br>• Gwella parhaus i greu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon drwy adnabod yr effaith ar wahanol garfannau a lleihau unrhyw ganlyniadau annheg. |

| **Amcan 3** | **Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig.** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb wedi adnabod fod angen gwaith pellach yn y maes gan nad oes llawer o welliant wedi bod mewn cynrychiolaeth wleidyddol gan unigolion â nodweddion cydraddoldeb dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Deddf Llywodraeth Leol (2012) hefyd yn rhoi dyletswydd arnom i gynyddu amrywiaeth. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Pob un |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Cynnal arolwg lleol i adnabod yr elfennau sy'n rhwystr i unigolion rhag sefyll etholiad i fod yn gynghorydd lleol<br>• Gweithredu (lle'n bosib) ar ganlyniadau'r uchod i symud rhwystrau<br>• Amrywiol ddulliau i godi ymwybyddiaeth pobl Gwynedd o ddemocratiaeth a'r cyfleon i gynrychioli fel cynghorydd lleol |
| Beth yw'r amserlen | 2016/17 – 2017/18 |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | Cynyddu amrywiaeth yn yr unigolion sy'n sefyll yn etholiadau Mai 2017. |

| **Amcan 4** | **Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau** |
|---|---|
| Pam rydym ni wedi penderfynu ar y maes yma? | Mae'r awdit tâl diwethaf wedi dangos fod y Cyngor wedi gweithredu i sicrhau fod tâl sylfaenol yn gydradd. Yr hyn sydd angen sylw yw adnabod os oes rhwystrau yn atal unrhyw garfan rhag cael cyfleoedd i ddatblygu o fewn y gwaith.<br><br>Ar hyn o bryd dim ond 46% o staff sydd wedi datgelu gwybodaeth am nodweddion cydraddoldeb. Wrth dderbyn hawliau'r unigolyn i beidio â datgelu, byddai cael gwybodaeth lawnach ei gwneud yn haws i ni adnabod gwahaniaethau. |
| Pa grwpiau cydraddoldeb mae'n eu heffeithio yn benodol? | Bydd cael gwybodaeth lawnach yn gwella dealltwriaeth o bob nodwedd, ond disgwylir iddo effeithio meysydd rhyw ac anabledd yn fwyaf penodol |
| Sut ydym ni am wneud hyn? | • Ymgyrch i lenwi bylchau yn y data nodweddion cydraddoldeb<br>• Cwblhau awdit tâl<br>• Gweithredu ar sail y dystiolaeth o'r awdit tâl ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall |
| Beth yw'r amserlen | • Cychwyn yr ymgyrch i lenwi bylchau ym Mehefin 2016<br>• Bydd gweddill y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod bywyd y cynllun |
| Pa ganlyniadau yda ni eisiau eu gweld? | • Cael mwy o wybodaeth am nodweddion cydraddoldeb aelodau staff er mwyn adnabod os oes rhwystrau<br>• Lleihau unrhyw anghydraddoldeb ar sail y dystiolaeth a gasglwyd |

# Gwybodaeth bellach

## a) Proffil o Wynedd

Mae 75 Aelod Lleol yn eistedd ar Gyngor Gwynedd. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus ar gyfer 122,273 o breswylwyr, gan gynnwys: addysg ac ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, gwasanaethau cynllunio, priffyrdd, rheoli gwastraff, gwarchod y cyhoedd, gwasanaethau ieuenctid a datblygu'r economi.




Ers 2011, mae poblogaeth Gwynedd wedi cynyddu o 0.6% (750 o bobl). Mae hyn yn cymharu gyda chynnydd o 0.9% yng Nghymru.

Mae Gwynedd yn ardal wledig fawr sydd yn 2,535 cilomedr sgwâr o faint mewn termau daearyddol. Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru ac mae'n werth 12% o gyfanswm arwynebedd y wlad.

Mae 65% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg a hithau hefyd yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor.

Yn 2015-16, roedd Gwariant Refeniw Crynswth y Cyngor yn £367 miliwn. Ymhlith amrywiaeth eang o wasanaethau eraill, defnyddiwyd yr arian hwn i addysgu dros 16,000 o ddisgyblion, cynnal 2,888 cilomedr o briffyrdd a 301 cilomedr o arfordir.

Mae 95 Ysgol Gynradd, 14 Ysgol Uwchradd a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am redeg 12 Canolfan Hamdden o fewn y sir ac 17 o Lyfrgelloedd.

Mae amgylchedd naturiol Gwynedd yn atyniad gwerthfawr o ran denu twristiaeth. Yn 2014, daeth oddeutu 6.9 miliwn o ymwelwyr i Wynedd gan greu £975 miliwn mewn refeniw.

Mae 67.5% o dir Gwynedd wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, y parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru.

Cafodd ran helaeth o Ben Llŷn ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol yn 1956, un o bump yng Nghymru.

Yn 2015, roedd canolrif incwm cartref yng Ngwynedd (£22,458) yn 8% yn is na'r ffigwr ar gyfer Cymru (£24,271) ac 28% yn is na'r ffigwr ar gyfer Prydain (£28,696).

Yn 2015, y pris canolrif ar gyfer tŷ yn cael ei werthu yng Ngwynedd oedd £145,000 sydd yn gynnydd o 9.8% o'i gymharu â 2011.

Amcangyfrifir bydd nifer yr aelwydydd yng Ngwynedd wedi cynyddu o 12.5% erbyn 2036. Mae hyn yn llai na'r amcangyfrif o gynnydd ar gyfer Cymru oll, sef 14.6%.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Cyngor a'i wasanaethau drwy ymweld â'r wefan - www.gwynedd.gov.uk

## b) Hyfforddiant a Datblygiad

Darparwyd hyfforddiant i staff ar asesiadau effaith a derbyniwyd ymateb da iawn o ran adborth a niferoedd. Mae gan y Cyngor fodiwl e-ddysgu cydraddoldeb hefyd ar gyfer staff ac aelodau.

Gan ein bod yn adnabod y pwysigrwydd o wreiddio cydraddoldeb yn bob dim ryda ni'n wneud, yn enwedig yn wyneb y cyfnod heriol sydd o'n blaenau, byddwn yn adolygu anghenion hyfforddiant a datblygiad yn fuan.

## c) Deddfwriaeth

Wrth baratoi'r cynllun yma mae'r Cyngor wedi dilyn canllawiau anstatudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n rhoi arweiniad ar sut ddylid ymateb i ddyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010.

Maes gwaith arall dros y pedair blynedd nesaf fydd sicrhau ein bod yn edrych i'r dyfodol a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol er mwyn creu Gwynedd yr ydym i gyd eisiau byw ynddi (Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fydd yn dod i rym yn Ebrill 2016). Ein bwriad yw plethu'r gwaith yma gyda'r gwaith ar gydraddoldeb.

## ch) Cyhoeddi

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyhoeddi a'i gylchredeg gan ddefnyddio dulliau amrywiol. Bydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ar gais. Cysylltwch os gwelwch yn dda â'r cyfeiriad ar gychwyn y ddogfen.

## d) Monitro

Wrth wynebu heriau'r pedair blynedd nesaf mae'n hollbwysig ein bod yn monitro cynnydd yn erbyn y pedwar amcan ac yn penderfynu ar ffyrdd gwahanol o weithredu. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol fydd yn dangos y camau y byddwn fel Cyngor wedi eu cymryd dros y deuddeg mis i weithio tuag at gyflawni ein pedwar amcan.

# Crynodeb

Mae Cyngor Gwynedd yn falch o gyflwyno drafft o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ar gyfer ymgynghoriad.

Bwriad y cynllun ydi lleihau anghydraddoldeb i bobl hefo nodweddion cydraddoldeb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 sef oedran, ailbennu rhywedd, rhyw, hil, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred), priodas a phartneriaeth sifil.

Mae Cyngor Gwynedd eisiau rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Mae cael trefniadau addas i sicrhau cydraddoldeb yn holl bwysig wrth wneud hynny. Fydd hi ddim yn bosib rhoi gwasanaeth cyson i bawb fel arall.

Rydym ni'n ymwybodol fod lle i wella'n trefniadau mewnol er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wrth galon popeth mae'r Cyngor yn ei wneud. Rydym yn credu mai'r ffordd orau, ar adeg anodd fel hyn, i sicrhau tegwch ydi gwrando ar y bobl berthnasol cyn gweithredu. Ein bwriad felly yn ystod y pedair blynedd nesaf yw cryfhau'r ffordd rydym yn derbyn a defnyddio barn a sylwadau pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb amrywiol.

Rydym wedi pennu pedwar amcan, wedi eu selio ar dystiolaeth fewnol, barn a data er mwyn gwneud hynny:

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | Gwella ein trefniadau i ganfod a defnyddio barn pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb |
| Amcan 2 | Gwella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb |
| Amcan 3 | Creu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd trwy sefyll etholiad I fod yn aelod etholedig |
| Amcan 4 | Adnabod unrhyw wahaniaethau cyflogaeth a thâl a gweithredu i'w lleihau |

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyhoeddi a'i gylchredeg gan ddefnyddio dulliau amrywiol. Bydd ar gael i aelodau o'r cyhoedd mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd ar gais. Cysylltwch os gwelwch yn dda â'r cyfeiriad ar gychwyn y ddogfen.

Wrth wynebu heriau'r pedair blynedd nesaf mae'n hollbwysig ein bod yn monitro cynnydd yn erbyn y pedwar amcan. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol fydd yn dangos y camau y byddwn fel Cyngor wedi eu cymryd dros y deuddeg mis i weithio tuag at gyflawni ein pedwar amcan.

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB LLAWN CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Delyth G Williams, Swyddog Polisi

## 2) PARTNERIAID

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer? Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

- Pobl sy'n rhannu nodweddion cydraddoldeb
- Grwpiau sy'n cynrychioli pobl á'r nodweddion yma

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

8 Hydref 2015

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

7 Ionawr 2016

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd hefo nodweddion cydraddoldeb a gweddill y gymdeithas. Y bwriad yw gwneud hynny drwy bennu amcanion fydd yn sicrhau fod llais pobl hefo'r nodweddion hynny'n cael ystyriaeth teg. Pwysig hefyd yw sicrhau fod cydraddoldeb yn treiddio trwy holl waith y Cyngor.

**6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad? Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda pobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

Rydym wedi derbyn mewnbwn trwy nifer o ffynonellau. Cynhaliwyd diwrnod ymgysylltu rhanbarthol gydag amrywiol fudd-ddeiliaid i drafod ein hamcanion rhanbarthol.

Mae'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth ar flaenoriaethau pobl drwy ymarferiad casglu barn Her Gwynedd, oedd yn cynnwys cyfarfod gyda grwpiau pobl hyn, pobl ifanc a phobl anabl. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio wrth lunio'r amcanion isod ond hefyd bydd yn cael ei defnyddio wrth lunio ein gwaith yn y dyfodol.

Mae gwybodaeth o ymgysylltiadau blaenorol wedi ei dderfynddio hefyd.

Y bwriad rwan ydi cael cyfnod o ymgysylltu gan hysbysebu'n eang a chysylltu gyda grwpiau penodol.

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

Mae ein tystiolaeth wedi dod o amryw o ffynonellau gan gynnwys

- Ymgysylltu – gweler uchod
- Gwybodaeth fewnol y Cyngor
- Data ar nodweddion cydraddoldeb

Rydym yn ymhelaethu ar y data yma yn y Cynllun.

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

Rydym wedi nodi bylchau mewn tystiolaeth yn y Cynllun ac wedi adnabod dulliau o'u cywiro e.e. casglu gwybodaeth ar nodweddion cydraddoldeb y gweithlu.

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**
Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

**9a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |
| **Meithrin perthnasau da** | Positif | Bwriad y Cynllun yw ymateb i'r dyletswyddau hyn ac felly bydd yn cael effaith bositif. |

**9b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr  effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Anabledd** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Rhyw** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Crefydd neu gred** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Oedran** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif | Pwrpas y cynllun a'r amcanion yw lleihau anghydraddoldeb ac felly bydd yn cael effaith bositif ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd yma. |

## 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)**<br><br>Disgwlyir i'r cynllun a'r amcanion gael effaith bositif o safbwynt cydraddoldeb. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Monitro ac adolygu, gweler isod. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nac Oes |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er fod yr asesaid uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

| |
|---|
| Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gwblhau yn flynyddol i nodi'r gwaith fydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ac i adnabod unrhyw fylchau |

## 12) PENDERFYNU

| |
|---|
| Cyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghori ar ei gynnwys gyda'r cyhoedd. |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
19.01.16

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Ioan Thomas / Dafydd Meurig**

**Pwnc: Adolygiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn**

**Swyddog cyswllt: Arwel Owen, Uwch Rheolwr Tai , Oedolion a Llesiant**

---

## Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i aelodau'r Cabinet gymeradwyo'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr Adolygiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn gan ganolbwyntio ar argymhellion Gwynedd sydd wedi eu nodi o 1-7 yn nhabl Argymhellion ac Oblygiadau isod.

---

## Barn yr aelod lleol

*Mae safle parhaol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr o fewn ward yr Aelod Cabinet ar gyfer Cynllunio a byddai unrhyw ddarpariaeth i ymestyn neu greu llecynnau ychwanegol, rhai parhaol neu dros dro yn rhan o drefn cyflwyno cais drwy gynllunio*

---

## Cyflwyniad

Mae Rhan 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei wneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal Asesiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr gael eu hadnabod, eu deall a'i gyfarch ar yr un sail â grwpiau eraill o'r Gymuned.

Mae gofynion Llywodraeth Cymru yn nodi ei fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal Asesiad Lletya Sipsiwn a Theithwyr bob 5 mlynedd oherwydd natur symudol y boblogaeth hon.

Nod yr asesiad hwn yw adnabod anghenion lletya presennol ynghyd ag anghenion yn ystod y pum mlynedd nesaf ar gyfer:

- **safleoedd preswyl** -safle parhaol sydd yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol neu ddarpariaeth breifat
- **man stopio dros dro** –llain o dir ar gyfer symud rhai sydd ar safle anghyfreithlon iddo am gyfnod dros dro

yng Ngwynedd a Môn (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri).

Wrth gydymffurfio â deddfwriaeth wrth gyflawni astudiaeth hon, bydd Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn defnyddio'r wybodaeth i'w hystyried yn y Cynllun Datblygu Lleol -Gwynedd a Môn. Yn ogystal, bydd yn cynorthwyo Parc Cenedlaethol Eryri yn eu hadolygiad o'u Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Gweler Atodiad A am gopi llawn o'r Astudiaeth.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Yn dilyn cynnal yr asesiad mae'r Uned Strategol Tai ac Uned Cynllunio ar y Cyd yn argymell bod:

1. Angen diogelu safle preswyl presennol o fewn yr Ardal Astudiaeth
2. Cael darpariaeth ychwanegol ar safle Llandygai ym Mangor drwy'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd er mwyn cwrdd ag anghenion Gwynedd
3. Bod y Cyngor yn gwneud cais ariannol i LC er mwyn ehangu'r safle preswyl presennol
4. Dynodi man stopio dros dro o fewn ardal Caernarfon
5. Gan fod rhan fwyaf o wersylla anghyfreithlon yn ardal Bala a Criccieth wedi bod ar gyfer 1 ymweliadau dylid parhau i gynnig protocol goddefu ar gyfer ymweliadau i'r ardaloedd hyn
6. Bod y Cyngor yn sicrhau cyllideb ar gyfer hwyluso mannau stopio dros dro o fewn yr ardal astudiaeth
7. Bod y Grŵp Llywio Prosiect yn parhau i gyfarfod yn chwarterol er mwyn sicrhau monitro cyson a bod darpariaeth breswyl neu dros dro yn cael ei ddarparu os bydd angen yn cael ei adnabod

8. Bod y Grŵp Llywio Prosiect yn datblygu cynllun gwaith ar y cyd fydd yn cynnwys unrhyw faterion sydd heb eu datrys o'r Asesiad Anghenion yn 2013 yng nghyd ag argymhellion yr Astudiaeth 2015

Ar sail yr argymhellion uchod gofynnir bod y Cabinet yn ystyried yr isod a'r oblygiadau hynny i'r Cyngor:

| | **ARGYMHELLIAD** | **GOBLYGIADAU** |
|---|---|---|
| 1. | Angen diogelu safle preswyl presennol o fewn yr Ardal Astudiaeth | Dim heblaw goblygiadau cynnal y safle sydd o fewn cyllideb yr adran |
| 2. | Cael darpariaeth ychwanegol ar safle Llandygai ym Mangor drwy'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd er mwyn cwrdd ag anghenion Gwynedd | Cynnig yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ar gyfer adnabod tir ac wedyn gofynion ariannol yn sgil hynny (gweler argymhelliad 3) |
| 3. | Bod y Cyngor yn gwneud cais ariannol i LC er mwyn ehangu'r safle preswyl presennol | Mae Y Cynulliad yn gweithredu cynllun grant sy'n cynnig 100% o gost datblygu safle ar y ddealltwriaeth bod modd adnabod lleoliad. Byddai ein gallu i weithredu yn amodol ar dderbyn cyfraniad grant tuag at y cynllun |
| 4. | Dynodi man stopio dros dro o fewn ardal Caernarfon | Ar hyn o bryd rydym yn ceisio adnabod ardaloedd ac mae'r mater yn cael ei drafod gyda 'r ddau arweinydd Portffolio. Mae 3 lleoliad yn cael ei ystyried. Gall olygu ffurfioli trefniant hanesyddol neu ddynodi man newydd. Y disgwyliad yw ein bod yn cadarnhau man penodol fel lle y byddwn yn goddef arosiadau tymor byr (3 diwrnod). Byddai hyn o gymorth wedyn petai angen cymryd camau cyfreithiol. |
| 5. | Goddef arhosiad anawdurdodedig gan ddilyn protocol mabwysiedig | Dim effaith, protocol mewn lle i ddelio gyda safleoedd anawdurdodedig a byddai cael man stopio dros dro (argymhelliad 4)yn cynnig datrysiad mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | | amgylchiadau o'r fath |
| 6. | Sicrhau cyllideb ar gyfer man stopio dros dro | Dim effaith, hyn i'w gynnwys o fewn cyllideb Gwasanaethau Tai |
| 7. | Parhau i gynnal Grŵp Llywio er mwyn goruchwylio'r cynllun gwaith (Argymhelliad 7 ac 8) | Dim effaith, adnoddau staff ac Aelod Cabinet ei angen er mwyn sicrhau bod y cynnydd yn cael ei fonitro |

**Ystyriaethau perthnasol**

Yn dilyn cwblhau'r asesiad, mae'n ddisgwyliedig gan LLC bod bob Cyngor yn ymateb i'r anghenion sydd wedi eu hadnabod

**Cyllid**
Gall y Cyngor wneud cais ariannol i LC ar gyfer estyniad ar ddarpariaeth safleoedd preswyl Llandygai er mwyn cwrdd â chostau cyfalaf. Mae costau refeniw o gynnal y safle yn rhan o gyllideb Gwasanaethau Tai. Nid oes cefnogaeth ariannol ar gael gan LLC ar gyfer cyllido man aros dros dro, byddai angen defnyddio cyllideb bresennol yr adran ar gyfer y ddarpariaeth hon.

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb**
Yn unol â'r ddyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynnig a chyfeirir chi yn benodol i Atodiad B. Mae'r asesiad yn amlygu'r ardrawiadau posib a'r trefniadau sydd mewn lle i ymateb. Fe noder fod yr asesiad yn wedi canfod yr ardrawiadau posib canlynol :
Ymateb yn bositif i Ddyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb a nodweddion penodol gan fod yr arolwg yn adnabod yr angen am safleoedd yn ystod y 5 mlynedd nesaf fel sydd wedi eu hadnabod gan yr ymatebwyr .

Mae'r Asesiad yn cyfarch y rhain drwy gynnig cynyddu capasiti lleoliad parhaol a chreu safle stopio dros fydd yn darparu cyfleusterau gan ymateb yn uniongyrchol i'r angen sydd wedi ei adnabod.

**Ymgynghoriad**
Mae'r Cyngor wedi ymgymryd ag ymgynghoriad gyda Sipsiwn a theithwyr sydd wedi ei adnabod er mwyn canfod eu barn. Mae'r adroddiad wedi ei selio ar yr ymatebion a dderbyniwyd drwy'r holiaduron.

**Camau nesaf ac amserlen**

Yn dilyn cymeradwyaeth gan aelodau'r Cabinet fydd angen cyflwyno'r Asesiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn i Lywodraeth Cymru erbyn 26 ain o Chwefror 2016 i'w gymeradwyo.

Yn dilyn hynny, byddem yn cynnal Grŵp Llywio Sipsiwn a Theithwyr dwywaith y flwyddyn er mwyn gweithredu ar yr argymhellion drwy gynllun gwaith penodol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'r adroddiad yn esbonio'r angen i wneud yr adolygiad hwn ac mae goblygiadau'r argymhellion yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad. Nod oes gennyf unrhyw beth arall i'w ychwanegu.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi Asesiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr o fewn yr ardal. Mae'r Asesiad yn ddarostyngedig i gadarnhad Gweinidogion Cymru. Hefyd bydd Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ddiwallu'r anghenion a adnabyddir o fewn yr asesiad. Mae angen felly sicrhau fod canfyddiadau'r Asesiad yn gadarn gan fod oblygiadau cyfreithiol yn deillio o'r Asesiad.

O ran yr argymhellion o fewn yr adroddiad i ddiwallu'r anghenion a adnabyddir, bydd prosesau penodol angen eu dilyn er mwyn eu gwireddu. Bydd angen eglurder pellach, a chyngor cyfreithiol penodol, wrth lunio canllawiau/polisïau wrth ddynodi mannau stopio dros dro.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r adroddiad yn argymell ehangu'r ddarpariaeth ar y safle sipsiwn a theithwyr presennol yn Llandygai. Fel mae'r adroddiad yn nodi, byddai angen gwneud cais i Lywodraeth Cymru ariannu'r cyfalaf (100%) er mwyn ehangu'r safle. Mewn blynyddoedd diweddar, bu trefn briodol o ran rhedeg y safle, gyda'r preswylwyr yn talu rhent ac yn cyfrannu at eu costau trydan a dŵr. Pe bai hyn yn parhau, yna byddai modd dygymod gyda'r costau rhedeg ychwanegol o fewn y gyllideb bresennol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y dylai 'man stopio dros dro' gael ei adnabod o fewn ardal Caernarfon. Pan fydd sipsiwn a theithwyr yn sefydlu eu hunain ar safle anawdurdodedig, mae'r costau ynghlwm a hyn yn gallu bod yn uchel. Am y rheswm yma, mae'r gwasanaeth wedi bod yn cyfrannu at gronfa safleoedd anawdurdodedig dros y blynyddoedd er mwyn dygymod gyda'r costau pan fydd safle anawdurdodedig yn codi. Gan na fu llawer o hyn yn y blynyddoedd diwethaf, erbyn diwedd 2015/16 mae'n debyg bydd na £35k ar gael yn y gronfa. Gall y gronfa yma fod ar gael er mwyn ariannu costau un-tro o sefydlu 'man stopio dros dro'.

---

**Atodiadau**

*Atodiad A – Asesiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn 2016.*
*Atodiad B- Asesiad Effaith Cydraddoldeb*

# Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016

**Dyddiad mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd:-**

**Dyddiad mabwysiadau gan Gyngor Sir Ynys Môn:-**

# Mynegai


| Pennod | | Tudalen |
|---|---|---|
| | **Cyd-destun** | 3 |
| **Pennod Un** | **Cyd-destun y Polisi** | |
| 1.1 | Deddfwriaeth a Chanllawiau | 4 |
| 1.2 | Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol | 4-5 |
| 1.3 | Diffiniad Llywodraeth Cymru o Dermau Allweddol | 6-9 |
| **Pennod Dau** | **Cefndir a Dadansoddiad o'r data cyfredol** | |
| 2.1 | Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru | 10 |
| 2.2 | Data Poblogaeth ar gyfer Gwynedd | 10-12 |
| 2.3 | Data Poblogaeth ar gyfer Môn | 13-14 |
| 2.4 | Nifer y Carafanau – Gwynedd | 15-16 |
| 2.5 | Nifer y Carafanau – Môn | 17-18 |
| 2.6 | Safleoedd sydd heb ganiatâd a gofnodwyd gan Gyngor Gwynedd | 19-21 |
| 2.7 | Safleoedd sydd heb ganiatâd a gofnodwyd gan Fôn | 22-23 |
| 2.8 | Y Ddarpariaeth llety ar hyn o bryd – Gorffennaf 2015 – Gwynedd | 24 |
| 2.9 | Y Ddarpariaeth llety ar hyn o bryd – Gorffennaf 2015 – Môn | 25 |
| **Pennod Tri** | **Methodoleg** | |
| 3.1 | Grŵp Llywio'r Prosiect | 26 |
| 3.2 | Methodoleg yr Astudiaeth | 26-29 |
| 3.3 | Canfyddiadau - Gwynedd | 30-32 |
| 3.4 | Canfyddiadau – Môn | 33-34 |
| **Pennod Pedwar** | **Canfyddiadau'r Arolwg** | |
| 4.1 | Canfyddiadau Cyngor Gwynedd | 35-41 |
| 4.2 | Canfyddiadau Cyngor Môn | 42-44 |
| **Pennod Pump** | **Asesu Anghenion Llety** | |
| 5.1 | Angen preswyl heb ei ddiwallu - Gwynedd | 45 |
| 5.2 | Angen preswyl heb ei ddiwallu - Môn | 46-47 |
| 5.3 | Angen tramwy/dros dro heb ei ddiwallu - Gwynedd | 48 |
| 5.4 | Angen tramwy/dros dro heb ei ddiwallu - Môn | 48 |
| **Pennod Six** | **Casgliad ac Argymhellion** | |
| 6.1 | Casgliad | 49-50 |
| 6.2 | Argymhellion | 51-52 |
| | Cyfeirnodau | 53 |
| **Atodiadau** | | |
| Atodiad A | Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol | 54-63 |
| Atodiad B | Map - Cynllunio | 64 |
| Atodiad C | Gwersylloedd Anghyfreithlon 2015 – Gwynedd | 65 |
| Atodiad D | Aelodau Grŵp Llywio'r Prosiect | 66-67 |
| Atodiad E | Holiadur | 68-80 |
| Atodiad F | Dulliau o godi ymwybyddiaeth – Gwynedd a Môn | 81-82 |
| Atodiad G | Cofnod Cyfweliadau Gwynedd a Môn | 83-86 |

## Cyflwyniad

Dan ran 3 Deddf Tai (Cymru) 2014 mae gofyn i Awdurdodau Lleol gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn eu hardal. Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru dylid adnabod a deall anghenion llety'r Sipsiwn a'r Teithwyr yn union fel anghenion sectorau eraill o'r Gymuned.

Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr bob pum mlynedd oherwydd natur fyrhoedlog y boblogaeth hon.

Nod yr asesiad hwn yw adnabod anghenion llety cyfredol a rhagweld faint o leiniau preswyl / safleoedd tramwy ac aros dros dro y bydd gofyn eu darparu yn Siroedd Gwynedd (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri yng Ngwynedd) ac Ynys Môn.

Cwblhawyd yr Asesiad blaenorol o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ym mis Mawrth 2013 ac roedd yn cynnwys Gwynedd, Ynys Môn, Parc Cenedlaethol Eryri, Conwy, Sir Ddinbych a Sir Fflint.

Yn ogystal â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth i gynnal yr astudiaeth hon, bydd Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a fydd o gymorth wrth lunio Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Ynys Môn a Gwynedd. At hyn, bydd yn cynorthwyo Parc Cenedlaethol Eryri yn yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ganddo.

# 1. Pennod Un: Cyd-destun Polisi

## 1.1 Deddfwriaeth a Chanllawiau

1.1.1 Mae Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau ethnig amlwg ac wedi'u gwarchod rhag unrhyw wahaniaethu yn eu herbyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n ddyletswydd hefyd ar y Llywodraeth, trwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998, i hwyluso ffordd o fyw'r sipsiwn mewn perthynas â Sipsiwn ethnig.

1.1.2 Mae **Adran 225 a 226 Deddf Tai (Cymru) 2014** yn datgan ei fod yn ddyletswydd ar Awdurdod Lleol i gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn yr ardal. Os nodwyd bod angen, rhaid i'r Awdurdod Lleol nodi safleoedd addas yn eu Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer defnydd preswyl a thramwy.

1.1.3 Yng **Nghylchlythyr Cynllunio 30/07** Llywodraeth Cymru tanlinellir y gofyn sydd ar Awdurdodau Lleol i adnabod a darparu safleoedd priodol yn eu cynlluniau lleol.

**1.1.4 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013**. Mae'r Ddeddf yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ar safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru. Trwy ei ddarpariaethau, ei nod yw gwella gwaith rheoli a chynnal a chadw safleoedd cartrefi symudol preswyl yng Nghymru. Mae'n cael gwared â grym perchennog y safle i 'flocio' gwerthu cartrefu symudol. Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi newid ei delerau ysgrifenedig gyda deiliaid trwydded i adlewyrchu gofynion y ddeddf.

## 1.2 Polisïau Cynllun Datblygu Lleol

1.2.1 Penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd weithio gyda'i gilydd i baratoi Cynllun ar y cyd yn cynnwys Ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol Môn a Gwynedd. Aeth fersiwn adnau'r Cynllun allan i ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol rhwng 16 Chwefror 2015 a 31 Mawrth 2015.

1.2.2 Yn Atodiad B yr adroddiad hwn ceir eglurhad o'r cynlluniau datblygu sydd mewn grym ar hyn o bryd yn Ardal Gynllunio Gwynedd a Môn yn ogystal â'r polisïau yn y Cynllun Adnau drafft a thynnir sylw atynt ynddo. Pan fydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn cael ei fabwysiadu, bydd yn disodli'r amryfal Gynlluniau Datblygu presennol y cyfeirir atynt yn Atodiad B ac sy'n berthnasol i Ardal Gynllunio Gwynedd ac i Ynys Môn.

1.2.3 Mae'r Cynghorau'n cydnabod y bydd angen iddynt adnabod digon o safleoedd i gwrdd â'r angen am leiniau ychwanegol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a gyfrifwyd o'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Bydd y safleoedd ychwanegol hyn yn cael eu cyflwyno mewn atodiad i'r Cynllun Datblygu a'u disgrifio fel 'Newidiadau y Canolbwyntir arnynt'. Bydd yr holl Newidiadau y Canolbwyntir arnynt yn cael eu cyflwyno i'r Arolygydd Cynllunio fel gwelliannau a argymhellir i'r Cynllun Adnau.

1.2.4 Yn yr Archwiliad Cyhoeddus i'r Cynllun, bydd yr Arolygydd Cynllunio'n asesu cywirdeb y Cynllun. Gallai'r Arolygydd argymell newidiadau i bolisïau ac i ddynodiadau arfaethedig (gan gynnwys polisïau a dyraniadau safleoedd arfaethedig Sipsiwn a Theithwyr) er mwyn sicrhau fod y Cynllun yn cydymffurfio gyda'r profion cywirdeb. Bydd y Newidiadau y Canolbwyntir arnynt ac unrhyw Newidiadau a gyfyd o'r Archwiliad yn mynd i ymgynghoriad cyhoeddus (a ddisgwylir yn ystod 2016).

1.2.5 Mabwysiadodd Parc Cenedlaethol Eryri ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Gorffennaf 2011. Bryd hynny drafftiwyd polisi'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (gweler Atodiad B) gan nad oedd tystiolaeth bendant o'r angen am safle wedi'i hadnabod yn Ardal y Parc Cenedlaethol. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio tystiolaeth a chanfyddiadau Asesiad 2016 o anghenion Sipsiwn a Theithwyr wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

**Gweler Atodiad A a B** am ragor o fanylion

## 1.3 Diffiniadau Llywodraeth Cymru o Dermau Allweddol

| | |
|---|---|
| Sipsiwn a Theithwyr | (a) Personau ag arfer nomadaidd o fyw, waeth beth yw eu hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:<br>(1) Personau sydd, oherwydd eu hanghenion addysgol neu iechyd eu hunain neu eu teulu neu eu dibynyddion neu oherwydd henaint, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol, ac<br>(2) Aelodau o grŵp sydd wedi'i drefnu o bobl sioe sy'n teithio neu bobl syrcas (p'un a ydynt yn teithio gyda'i gilydd fel hynny ai peidio); a<br>(b) Pob person arall sydd â thraddodiad diwylliannol o grwydro neu o fyw mewn cartref symudol.<br>Ffynhonnell: Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014 |
| Safle preswyl | Mae modd bod yn berchennog preifat ar safle preswyl parhaol neu i'r Awdurdod fod yn berchen arno. Bydd y safle hwn yn cael ei ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr yn amhenodol. Mae modd i breswylwyr ar y safleoedd hyn ddisgwyl cael defnyddio'u lleiniau cyhyd ag y byddant yn cydymffurfio â thelerau cytundebau eu lleiniau, dan Ddeddf Cartrefi Symudol 2013.<br>Mae modd, hefyd, ddarparu ar safleoedd neu gerllaw iddynt, fannau gweithio ar gyfer gweithgareddau a gynhelir gan aelodau'r gymuned. |
| Safle preswyl dros dro | Safleoedd preswyl sydd â chaniatâd cynllunio neu drwydded safle am gyfnod penodol yn unig yw'r safleoedd hyn. Mae modd i breswylwyr ar y safleoedd hyn ddisgwyl cael defnyddio'u lleiniau am gyfnod y caniatâd cynllunio neu drwydded y safle (neu cyhyd ag y byddant yn cydymffurfio â thelerau cytundebau eu lleiniau, dan Ddeddf Cartrefi Symudol 2013 - p'un bynnag a ddaw gyntaf). |

| | |
|---|---|
| Safle tramwy | Cyfleusterau parhaol sydd wedi'u cynllunio i ddeiliaid eu defnyddio dros dro yw safleoedd tramwy. Rhaid I'r safleoedd hyn gael eu dynodi fel y cyfryw a bod yn fodd i Sipsiwn a Theithwyr fyw'n nomadaidd yno. Caniateir i ddeiliaid unigol breswylio ar y safle am hyd at dri mis ar y tro.<br><br>Mae telerau penodol dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn berthnasol ar y safleoedd hyn. Mae modd, hefyd, ddarparu ar safleoedd neu gerllaw iddynt, fannau gweithio ar gyfer gweithgareddau a gynhelir gan aelodau'r gymuned. |
| Llecyn Aros Dros Dro | Fe'i hadnabyddir hefyd fel 'llecyn aros', 'Atchin Tan', neu 'lôn las', ymhlith enwau eraill. Bwriad y rhain yw bod yn llecynnau cyfnod byr o ran natur er mwyn cynorthwyo Awdurdodau Lleol lle derbynnir bod angen am leiniau ond nad oes rhai ar gael ar hyn o bryd. Mae modd defnyddio llecynnau aros dros dro a adnabyddir yn rhagweithiol i symud gwersylloedd sydd mewn lleoliadau amhriodol tra byddir yn bwrw ymlaen gyda safleoedd eraill.<br><br>Rhaid i lecynnau aros dros dro ddarparu ar gyfer o leiaf gael gwared â gwastraff, cyflenwad dŵr a charthffosiaeth. |
| Llain breswyl | Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan ddeiliaid hawl i osod eu cartref symudol yn amhenodol (oni nodir yn wahanol yng nghytundeb eu llain). Yn nodweddiadol, mae'n cynnwys bloc mwynderau, lle ar gyfer carafán sefydlog a charafán deithiol a pharcio. |
| Llain dramwy | Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan ddeiliaid hawl i osod eu cartref symudol am hyd at dri mis. Mae modd i leiniau tramwy fod ar safleoedd preswyl parhaol ond nid argymhellir hyn. |

| | |
|---|---|
| Gwersyllu heb ganiatâd | Tir a ddefnyddir heb ganiatâd y perchennog neu heb ganiatâd cynllunio ar gyfer y defnydd tir cywir.<br>Mae modd i Awdurdodau Lleol oddef gwersylloedd tra bo safleoedd eraill yn cael eu datblygu. |
| Datblygu heb ganiatâd | Perchennog yn defnyddio tir heb y caniatâd cynllunio angenrheidiol ar gyfer defnydd tir |
| Cyflenwad preswyl cyfredol | Nifer y lleiniau sydd ar gael ag sydd â chaniatâd arnynt ac a ddefnyddir yn yr Awdurdod Lleol neu yn yr ardal bartneriaeth.<br>Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd Awdurdod Lleol neu breifat. |
| Galw preswyl cyfredol | Y rhai hynny y mae angen lleiniau â chaniatâd arnynt am wahanol resymau yn cynnwys:<br>• Analluu i sicrhau llain â chaniatâd gan arwain at ddefnyddio gwersylloedd heb ganiatâd;<br>• Anallu i sicrhau caniatâd cynllunio am ddatblygiad heb ganiatâd;<br>• Aelwydydd sy'n byw mewn amgylchiadau gorlawn ac sy'n dymuno llain;<br>• Aelwydydd mewn tai confensiynol yn dangos gwrthwynebiad diwylliannol;<br>• Aelwydydd newydd y mae disgwyl iddynt gyrraedd o rywle arall. |
| Galw preswyl yn y dyfodol | Lefel yr aelwydydd newydd a ddisgwylir ac a fydd yn creu galw ychwanegol o fewn cyfnod pum mlynedd yr asesiad o lety ac o fewn cyfnod hwy'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| Angen cyffredinol am lain breswyl | Y cyfrifiad terfynol o'r angen am lety nad yw wedi'i ddiwallu ac y mae'n rhaid ei adnabod trwy broses yr asesiad o lety Sipsiwn a Theithwyr. Mae modd canfod y ffigwr hwn trwy ychwanegu'r angen preswyl dybryd at y galw preswyl fydd yn y dyfodol. Bydd yr angen preswyl cyffredinol yn dal yr anghenion ar draws y pum mlynedd yr ystyrir bod yr |

| | |
|---|---|
| | asesiad o lety'n gadarn. |
| Cyflenwad wedi'i gynllunio am lain breswyl | Nifer y lleiniau sydd â chaniatâd ac sy'n wag ac ar gael i'w rhentu ar safleoedd Awdurdodau Lleol neu breifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau fydd yn cael eu gwagio yn y dyfodol agos gan aelwydydd sy'n symud i dai confensiynol neu mewn amgylchiadau eraill. Dylid cynnwys lleiniau ychwanegol, y mae disgwyl iddynt agor neu safleoedd preifat sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio'n fuan, fel cyflenwad preswyl wedi'i gynllunio. |
| Aelwyd | Yn y canllawiau hyn, mae hyn yn cyfeirio at unigolion o'r un teulu sy'n byw gyda'i gilydd ar un llain / tŷ / gwersyll. |
| Aelwyd gudd neu 'ddwbl' | Mae hyn yn cyfeirio at aelwydydd sy'n methu cael caniatâd i gael eu llety eu hunain ac sydd, yn lle hynny, yn byw mewn llety â chaniatâd (tai neu leiniau) sydd wedi'u neilltuo i aelwyd arall.<br><br>Gallai hyn olygu plant sy'n oedolion ac sydd wedi methu symud cartref neu aelwydydd gwahanol yn byw ar un llain. |
| Twf yr aelwyd | Caiff twf yr aelwyd ei ddiffinio gan nifer yr aelwydydd newydd sy'n codi o aelwydydd sydd eisoes yn byw yn yr ardal. |

# 2.0 Pennod dau: Cefndir a dadansoddiad o'r data cyfredol

## 2.1 Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru

Cynhaliwyd yr astudiaeth uchod ar ran Cynghorau Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd gan Brifysgol Bangor yn ystod 2011/12. Gan nad oes darpariaeth ar gyfer safleoedd tramwy yng Ngogledd Cymru, mae'r adroddiad yn argymell bod awdurdodau lleol perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried darparu tri neu bedwar o safleoedd ac arnynt saith llain ar draws ardal yr astudiaeth. O'r adroddiad, yr argymhelliad ar gyfer nifer y lleiniau preswyl i Gyngor Gwynedd oedd 10 ac 11 i Fôn.


Mae'r Cynllun Gweithredu a ddaw yn sgil Asesiad 2013 o Lety wedi'i ddiweddaru a bydd unrhyw faterion na roddwyd sylw iddynt yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

## 2.2 Data poblogaeth ar gyfer Cyngor Gwynedd

Nododd cyfrifiad 2011 fod yng Ngwynedd 153 o bobl sydd wedi datgan eu bod yn dod o dras ethnig* y Sipsiwn neu'r Teithwyr Gwyddelig. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys pob grŵp oedran ac, felly, yn cynnwys plant.

O'r wybodaeth, mae cyfran uwch o bobl rhwng 20 mlwydd oed i oddeutu 55 mlwydd oed yng Ngwynedd, gyda'r nifer uchaf yn y categori oedran 20-24 a 40-44 mlwydd oed. Gweler graff Rhif 1 isod.


**Graff Rhif 1 - Categori Oedran Sipsiwn a Theithwyr (Gwynedd)**




Ffynhonell:- cyfrifiad 2011

**Graff Rhif 2- Nifer y Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn ôl ardal (Gwynedd)**

Yn y graff isod ceir gwybodaeth am leoliad y Sipsiwn a'r Teithwyr Gwyddelig yn ardal Gwynedd yn ôl pentref.




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

O'r 153 o unigolion a adnabuwyd trwy Gyfrifiad 2011, Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi tynnu sylw at y ffaith mai'r ddau fath o aelwydydd sydd i'w gweld fwyaf yng Ngwynedd yw:

- 65 mewn Brics a Morter (tŷ neu fyngalo a fflat/*maisonette* neu 'apartment') a;
- 7 mewn carafán neu strwythur dros dro symudol.

Mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Dai rydym wedi adnabod 13 o aelwydydd mewn brics a morter. Mae'r saith carafán a'r strwythur dros dro symudol arall wedi'u hadnabod fel safle Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Gwynedd yn Llandygai.

**Tabl Rhif 1- Math o Lety** (Gwynedd)**

| | Cyfanswm Math y Llety | Tŷ neu fyngalo | Fflat, *maisonette* neu 'apartment' | Carafán neu strwythur dros dro neu symudol arall |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 72 | 54 | 11 | 7 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011/ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol


*****Bellach 'Person Cyswllt y Cartref' (PCC) a ddefnyddir yn y cyfrifiad yn hytrach na'r 'Penteulu'. Gyda PCC ceir un person mewn aelwyd sy'n bwynt cyfeirio ar gyfer cael rhagor o ystadegau ac ar gyfer nodweddu aelwyd gyfan yn unol â nodweddion y person cyswllt a ddewiswyd.***

## 2.3 Data Poblogaeth – Ynys Môn

Yng nghyfrifiad 2011 roedd 65 o bobl ym Môn wedi datgan eu bod yn dod o dras ethnig* y Sipsiwn neu'r Teithwyr Gwyddelig. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys pob grŵp oedran ac, felly, yn cynnwys plant.

*(* Mae grŵp ethnig yn dosbarthu pobl yn unol â'u grŵp a'u cefndir diwylliannol canfyddedig eu hunain)*


**Graff rhif 3 – oedran y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr– Cyfrifiad 2011 (Môn)**




Ffynhonnell:- cyfrifiad 2011

Pan gaiff y wybodaeth hon ei dadansoddi ymhellach ar draws 40 ward Môn, ceir fod y 65 wedi'u gwasgaru'n eang ar draws Môn gydag un ward yn unig lle mae mwy na 10 o bobl sydd wedi nodi eu bod yn Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn y cyfrifiad.

**Graff rhif 4 – Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig - yn ôl ward (ffiniau 2001) (Môn)**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

30 oedd cyfanswm yr aelwydydd lle datganodd person cyswllt y cartref* eu bod yn dod o dras ethnig y Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig. O'r 30 aelwyd hyn, roedd 25 yn byw mewn brics a morter a phump mewn carafán neu strwythur symudol neu dros dro arall.

**Tabl rhif 2 – Math y Llety (Môn)**

| | Cyfanswm math y llety | Tŷ neu fyngalo | Fflat, *maisonette* neu 'apartment' | Carafán neu strwythur dros dro neu symudol arall |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 30 | 19 | 6 | 5 |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

**Bellach 'Person Cyswllt y Cartref' (PCC) a ddefnyddir yn y cyfrifiad yn hytrach na'r 'Penteulu'. Gyda PCC ceir un person mewn aelwyd sy'n bwynt cyfeirio ar gyfer cael rhagor o ystadegau ac ar gyfer nodweddu aelwyd gyfan yn unol â nodweddion y person cyswllt a ddewiswyd.*

## 2.4 Nifer y carafanau - Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn beth yw nifer y carafanau yn y Sir. Gweler y wybodaeth isod o 2013 i 2015:-

**Tabl Rhif 3 – Nifer y safleoedd yn ôl caniatâd ac awdurdod lleol 2013 i 2015 (Gwynedd)**

| | Ionawr 2013 | Gorffennaf 2013 | Ionawr 2014 | Gorffennaf 2014 | Ionawr 2015 | Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Safleoedd â chaniatâd (cynllunio) | **2** | **2** | **2** | **2** | **2** | **2** |
| Safleoedd heb ganiatâd (cynllunio) | **3** | **4** | **4** | **3** | **3** | **3** |

Ffynhonnell: StatsCymru – Llywodraeth Cymru

**Tabl Rhif 4 – Nifer y lleiniau'n ôl statws preswyl, statws meddiannol ac Awdurdod Lleol (Gwynedd)**

Safle Awdurdod Lleol yn Llandegai ar gyrion Bangor yw'r 7 uned a nodi'r isod.

| | Ionawr 2013 | Gorffennaf 2013 | Ionawr 2014 | Gorffennaf 2014 | Ionawr 2015 | Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Preswyl Wedi'i feddiannu | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 |
| Preswyl gwag | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tramwy Wedi'i feddiannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tramwy gwag | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm yr holl leiniau | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 |

Ffynhonnell: StatsCymru – Llywodraeth Cymru

**Tabl Rhif 5 – Nifer y carafanau'n ôl caniatâd ac awdurdod lleol. (Gwynedd)**

| | Ionawr 2013 | Gorffennaf 2013 | Ionawr2014 | Gorffennaf 2014 | Ionawr 2015 | Gorffennaf 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pob carafán | Pob carafán | Pob carafán | Pob carafán | Pob carafán | Pob carafán |
| Gwynedd | 13 | 22 | 10 | 13 | 13 | 14 |

Ffynhonnell: StatsCymru – Llywodraeth Cymru

## 2.5 Nifer y Carafanau – Cyngor Môn

Mae'r tabl isod yn dangos yr wybodaeth sy'n cael eu darparu i Lywodraeth Cymru gan Gyngor Sir Ynys Môn dwywaith y flwyddyn sef dyddiad a ddewisir gan Lywodraeth Cymru yn ystod Ionawr a Gorffennaf. Rhaid i'r cynghorau ddarparu Gwybodaeth ar y nifer o garafanau o fewn y Sir yn ystod y misoedd a nodir.

Ym Môn mae ffair fach yng Nghaergybi bob mis Gorffennaf a charafanau pobl sioeau teithiol yw nifer o'r carafanau a gofnodwyd ar y ffurflen.

Er mai teithio at ddibenion eu busnes y mae pobl sioeau teithiol, mae ganddynt hawliau datblygiad a ganiateir dan y system gynllunio ar gyfer defnyddio'r tir.

O'r herwydd, mae'r tabl isod wedi gwahanu'r safleoedd a ganiateir hyn oddi wrth y safleoedd nad oes caniatâd iddynt

**Tabl rhif 6 – Nifer y safleoedd â chaniatâd a heb ganiatâd (Môn)**

| Data nifer y carafanau ym Môn | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Â chaniatâd | Heb ganiatâd | Pobl Sioeau Teithiol | Cyfanswm |
| **Chwef 2013** | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **Gorff 2013** | 0 | 2 | 2 | 4 |
| **Chwef 2014** | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **Gorff 2014** | 0 | 1 | 2 | 3 |
| **Chwef 2015** | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **Gorff 2015** | 0 | 2 | 1 | 3 |

**Tabl rhif 7 – Nifer y lleiniau / carafanau ar safleoedd sydd â chaniatâd / heb ganiatâd (Môn)**

| Data nifer y carafanau ym Môn | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Â chaniatâd | Heb ganiatâd | Pobl sioeau teithiol | Cyfanswm |
| **Ion 2013** | 0 | 12 | 0 | 12 |
| **Gorff 2013** | 0 | 23 | 16 | 39 |
| **Ion 2014** | 0 | 12 | 0 | 12 |
| **Gorff 2014** | 0 | 14 | 18 | 32 |
| **Ion 2015** | 0 | 14 | 0 | 14 |
| **Gorff 2015** | 0 | 23 | 12 | 35 |

**Dehongliad o'r data uchod yng nghyswllt nifer carafanau**

Mae'r data uchod yn cipio tueddiadau ond nid yw'n rhoi llun cyffredinol o nifer y gwersylloedd a gafwyd ym Môn oherwydd mai dwywaith y flwyddyn yn unig y digwydd hyn.

Dylid nodi nad yw nifer y carafanau'n cyd-fynd â nifer y bobl sy'n aros ar y safle.

Mae'r gwersyll y mae Teithwyr Newydd yn ei ddefnyddio - gwersyll nad oes caniatâd iddo ond a gaiff ei oddef - wedi'i gynnwys ym mhob un o'r dyddiadau yn y tablau uchod. 14 o gerbydau sydd wedi ei nodi i fod ar y safle yn ystod Ionawr a Gorffennaf 2015. Mae nifer y cerbydau'n uwch na nifer y deiliaid gan nad yw'r holl gerbydau'n cael eu defnyddio fel llety ond eu bod yn ffitio'r diffiniad a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfrif.

## 2.6 Data safleoedd sydd heb ganiatâd a gofnodwyd gan Gyngor Gwynedd


Dengys cofnodion fod nifer y safleoedd heb ganiatâd wedi bod yn gyson yn 2013 a 2014 gyda 7 y flwyddyn.

Bu cynnydd yn nifer y gwersylloedd anghyfreithlon yn 2015 (Ionawr 2015 – Tachwedd 2015) a hyd yn hyn adroddwyd y bu 20 gwersyll yn aros ar gyfartaledd dair noson gyda dim un yn aros dim hwy na 10 noson.

Efallai mai'r rheswm am nifer uchel y gwersylloedd anghyfreithlon yw bod prosesau cyfathrebu/cofnodi mewnol Gwynedd wedi gwella a'n bod yn gweld mwy o wersylloedd anghyfreithlon nac mewn blynyddoedd a fu neu fod mwy o sipsiwn a theithwyr wedi aros yn ardal Gwynedd o gymharu â blynyddoedd a fu.

**Graff Rhif 5 Nifer y Gwersylloedd Anghyfreithlon yn ôl Ardal – mis Ionawr – mis Tachwedd 2015 (Gwynedd)**


Ardal Arfon yng Nghaernarfon sydd wedi cael y nifer uchaf o wersylloedd anghyfreithlon (9 gwersyll) yn 2015. Gweler y graffiau isod am ragor o wybodaeth.




.


**Graff Rhif 6 - Dadansoddiad o Wersylloedd Anghyfreithlon yn ôl trefi/pentrefi – mis Ionawr – mis Tachwedd 2015 (Gwynedd)**

Mae'r graff isod yn nodi'r union bentref neu dref lle bu gwersylloedd anghyfreithlon. **Gweler Atodiad C** am eu lleoliad ar Fap Gwynedd.





**Graff Rhif 7 – Nifer y gwersylloedd anghyfreithlon fesul mis – mis Ionawr – mis Tachwedd 2015**

Bu cynnydd mewn achosion o wersylloedd anghyfreithlon yng Ngwynedd yn ystod misoedd Awst a Medi.



**Graff Rhif 8 – Lleoliad y Gwersylloedd Anghyfreithlon – mis Ionawr – mis Tachwedd 2015**

Mae'r rhan fwyaf o'r gwersylloedd ar feysydd parcio yn y Sir gan fod gan y rhan fwyaf o feysydd parcio gyfleusterau y mae modd cael atynt, megis toiledau a thap dŵr sy'n rhedeg.




## 2.7 Data safleoedd heb ganiatâd a gofnodwyd gan Fôn

**Cofnodion o wersylloedd tymor byr heb ganiatâd**

Bellach caiff cofnodion eu cadw o wersylloedd heb ganiatâd a gyfyd ym Môn adegau eraill o'r flwyddyn, er eu bod yn gwbl gyflawn ar gyfer y 12 mis diwethaf yn unig.

**Graff Rhif 9 - Graff yn dangos y nifer o wersylloedd diawdurdodedig yn Ynys Môn yn ystod 2015.**




Yn ogystal mae Gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor dros y 3 mlynedd diwethaf yn dangos fod gwersylloedd mawr yn ystod mis Gorffennaf/ Awst am sawl wythnos ar dir y Cyngor ar stad ddiwydiannol Mona. Bu rhwng 11 a 15 o garafanau a bu'r cyfnod rhwng 10 ac 19 diwrnod.

Bu gwersylloedd llai (dwy neu dair carafán) hefyd yn Stad Ddiwydiannol Mona ym mis Medi 2014 a mis Hydref 2015.

Bu gwersylloedd eraill yn ardal Caergybi. . Er mis Awst 2014 cofnodwyd tri gwersyll mewn gwahanol leoliadau yng Nghaergybi gan gynnwys ar dir Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru a thir preifat (maes parcio archfarchnad). Am gyfnod byr yr oedd y rhain yno, sef rhwng un a phedair noson.

Bu un gwersyll o bum carafán yn Llangefni ar faes parcio'r Cyngor yn ystod Tachwedd 2015.

Gwyddys o gysylltiad yr Heddlu neu'r Cyngor â'r Teithwyr y cyfyd y gwersylloedd hyn weithiau o Deithwyr Gwyddelig yn teithio o Iwerddon neu i Iwerddon. Gallai'r rhesymau dros aros gynnwys disgwyl am deithwyr eraill, y tywydd, cymryd toriad yn ystod y daith.

Mae'r gwersyll mawr ym misoedd Gorffennaf / Awst yn codi yn sgil sipsiwn Romani yn dod ynghyd fel rhan o'u patrymau teithio am resymau gwaith a chymunedol.

## 2.8 Y ddarpariaeth llety ar hyn o bryd - Gorffennaf 2015 – Gwynedd

Darperir saith llety yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Mae'r saith i gyd wedi'u lleoli ar Safle Llandygai ar gyrion Bangor ac mae pobl yn byw ar bob un o'r lleiniau.

Mae tri safle preifat wedi'u hadnabod, dau yn Arfon ac un yn Nwyfor. Cysylltwyd â phob un o'r tair aelwyd iddynt gymryd rhan yn yr Asesiad o Lety.

**Tabl Rhif 8 – Y Ddarpariaeth Llety ar hyn o bryd - Gorffennaf 2015**

| | Safleoedd sydd â chaniatâd (cynllunio) | | Safleoedd sydd heb ganiatâd (cynllunio) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y carafanau | | Nifer y carafanau ar safleoedd tir y sipsiwn eu hunain | | Nifer y carafanau ar safleoedd nad yw sipsiwn yn berchen arnynt | |
| | Rhentu cymdeithasol | Preifat | Yn cael eu goddef | Dim yn cael eu goddef | Yn cael eu goddef | Dim yn cael eu goddef |
| Gwynedd | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 | 1 |

## 2.9 Y Ddarpariaeth Llety ar hyn o bryd - Gorffennaf 2015 - Môn

Nid oes safleoedd Awdurdod Lleol ym Môn

Nid oes safleoedd preifat ym Môn

Mae gwersyll tymor hir nad oes caniatâd iddo mewn cilfan wrth ymyl Ffordd Pentraeth yr A5025. Mae hwn wedi'i oddef ers i'r Cyngor golli achos llys yn 2009. Cafodd y defnydd cyfredol a wneir o'r safle ei asesu yn ystod yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr fel a nodi'r o dan adran 5.2

# 3.0 Pennod Tri: Methodoleg

## 3.1 Cyfansoddiad Grŵp Llywio'r Prosiect.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (tudalen 14 - 5.6 Rheoli Prosiect) sefydlwyd grŵp llywio. Ymhlith y rhai oedd yn y grŵp llywio oedd y rhai sydd wedi sefydlu rhwydweithiau gyda'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr a'r rhai hynny sy'n atebol am gwrdd ag anghenion llety'r Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. (**Gweler Atodiad D**). Cynhaliwyd pedwar cyfarfod ar y dyddiadau a ganlyn: 15.06.15/28.09.15/02.11.15 a 02.12.15.

## 3.2 Methodoleg yr Astudiaeth

### 3.2.1 Dull Gweithredu'r Gwaith Ymchwil

Cafodd yr astudiaeth ei rheoli gan Unedau Strategaeth Tai Cynghorau Môn a Gwynedd. Ffurfiwyd dull gweithredu'r astudiaeth trwy weithio mewn partneriaeth gydag unigolion allweddol. Comisiynwyd Tai Gogledd Cymru i gefnogi unigolion i gwblhau'r holiadur er mwyn sicrhau y byddid yn ddiduedd. (**Gweler Atodiad E)**

### 3.2.2 Ymgysylltu â Chyfranddeiliaid

Aeth Cyngor Gwynedd a Thai Gogledd Cymru gyda'i gilydd i ymweld â thrigolion ar safle Llandygai. Aeth Cyngor Môn a Thai Gogledd Cymru i ymweld â safle Pentraeth. Yn ystod yr ymchwiliadau cychwynnol rhoddwyd eglurhad am y broses asesu llety. Rhoddwyd gwybod i breswylwyr hefyd mai sefydliad annibynnol oedd Tai Gogledd Cymru a fyddai'n cynorthwyo unigolion i gwblhau'r holiadur.

Defnyddiodd Cynghorau Gwynedd a Môn amryfal safleoedd cyfryngau cymdeithasol/sefydliadau a'r wasg i godi ymwybyddiaeth o'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (**Gweler Atodiad F**).

### 3.2.3 Dosbarthu holiaduron

**3.2.3.1** Cafodd pob aelwyd ei hannog i gwblhau holiadur gyda chymorth gan staff Tai Gogledd Cymru. Yna gofynnwyd i Dai Gogledd Cymru roi'r wybodaeth i mewn i Lime Survey, sef peiriant cofnodi a ddefnyddir gan Gyngor Gwynedd. Yna byddai Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda Chyngor Môn i edrych ar y canfyddiadau.

**3.2.3.2** Gofynnwyd i Dai Gogledd Cymru roi adborth i'r grŵp llywio ar y cynnydd a wnaed a'r gefnogaeth ychwanegol yr oedd gofyn amdani, os oedd gofyn.

**3.2.3.3** Casglwyd rhagor o wybodaeth trwy'r Adrannau Addysg, Safonau Masnach, Cymdeithasau Tai, cyfrifiad, adroddiadau a dogfennau hanesyddol a thrwy nifer y carafanau a gyfrifir ddwywaith y flwyddyn.

**3.2.3.4** Oherwydd cyfrinachedd nid oedd Cymdeithasau Tai a'r Adran Addysg yn gallu rhannu gwybodaeth bersonol gyda'r rheolwyr prosiect am denantiaid / defnyddwyr y gwasanaeth. O'r herwydd bu i ni ddibynnu ar y Cymdeithasau Tai a'r Adran Addysg i gysylltu ar ein rhan.

**3.2.3.5** Mae Gwynedd a Chyngor Ynys Môn, mewn partneriaeth â Tai Gogledd Cymru wedi cofnodi pob ymdrech a wnaed i gysylltu ag unigolion a nodwyd i fod yn Sipsiwn-Teithwyr neu Wyddelig - **gweler Atodiad G.**

### 3.2.4 Rhestr Wirio'r Gwaith Ymgysylltu

**Gweler Cofnod o'r Cyfweliadau (Atodiad G)**

| Y Gwaith yr oedd gofyn ei wneud | Sylwadau |
|---|---|
| Ymweld â phob aelwyd Sipsiwn a Theithwyr a adnabuwyd trwy'r broses dadansoddi'r data hyd at dair gwaith os bydd rhaid. | Cysylltwyd trwy lythyr /galwad ffôn ac ymweliadau personol â Sipsiwn a Theithwyr y gwyddys amdanynt yng Ngwynedd a Môn. Rhoes Tai Gogledd Cymru gymorth i'r unigolion gwblhau'r holiaduron. |
| Cyhoeddi manylion proses yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys manylion cyswllt fel bod modd i aelodau'r gymuned ofyn am gyfweliad, ar safle'r Awdurdod Lleol, gwefan *Travellers' Times* ac yng ngyhoeddiad *World's Fair.* | Gweler atodiad CH am fanylion y gwaith a wnaed i roi cyhoeddusrwydd I'rr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yng Ngwynedd a Môn |
| Ymgynghori â sefydliadau perthnasol sy'n rhoi cefnogaeth i'r gymuned | Gweler Atodiad Ch am fanylion gwaith a wnaed i roi cyhoeddusrwydd i'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yng Ngwynedd a Môn. |
| Datblygu rhestr aros yr Awdurdod Lleol ar gyfer lleiniau a thai - rhestr y mae modd i aelodau'r gymuned gael gwybod amdani a chael ati. | Rhestr aros electronig wrthi'n cael ei datblygu i gysylltu â'r gofrestr tai cymdeithasol. Rhestr aros bapur a ddefnyddir yng Ngwynedd ar hyn o bryd.<br><br>Mae Ynys Môn wedi datblygu cofrestr ar gyfer y rhai hynny sydd â diddordeb mewn lleiniau ac mae copïau papur a ffurflenni ar lein ar gael nawr. |

| **Y Gwaith yr oedd gofyn ei wneud** | **Sylwadau** |
|---|---|
| Ymdrechu i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr ar Grŵp Llywio Prosiect yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr | Roedd aelod o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar y Grŵp Llywio. |
| Sicrhau y dilynir i fyny'r manylion cyswllt a roddir i'r Awdurdod Lleol gan aelodau'r gymuned trwy'r broses arolwg a bod yr anghenion yn cael eu hasesu. | Cysylltwyd trwy lythyr /galwad ffôn ac ymweliadau personol â Sipsiwn a Theithwyr y gwyddys amdanynt yng Ngwynedd a Môn. |
| Ystyried cynnal digwyddiadau gwybodaeth Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd (neu gerllaw iddynt) i egluro pam y dylai aelodau'r gymuned gymryd rhan ac annog preswylwyr y safleoedd i ddod ag eraill nad yw'r Awdurdod Lleol o bosib yn gwybod amdanynt. | Argymhellwyd gan gynrychiolydd y Sipsiwn a'r Teithwyr y byddai'n well ymweld ag unigolion wyneb yn wyneb yn hytrach na chynnal digwyddiad.<br><br>Cafwyd ymweliadau cyflwyniadol cychwynnol yn egluro'r broses, ac yna ymweliadau gan staff Tai Gogledd Cymru. |

## 3.3 Canfyddiadau - Gwynedd

**3.3.1** Bu i Adran Addysg Gwynedd adnabod 26 o blant yn ysgolion Gwynedd oedd o dras y Sipsiwn a'r Teithwyr – roeddynt yn amrywio o Flwyddyn 0 i Flwyddyn 11.

**3.3.2** O'r 26 o blant, adnabuwyd 9 teulu a chafodd pob un ohonynt lythyr a galwad ffôn gan yr Adran Addysg yn rhoi gwybod iddynt am yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr. Ymatebodd dri yn cadarnhau nad oeddynt yn dymuno cwblhau'r holiadur ac ni wnaeth chwech unrhyw gyswllt. Roedd 22 o'r 26 o blant yn mynd i'r Ysgol yn ardal Arfon, ym Mangor a Bethesda gan fwyaf, ac roedd pedwar o blant yn mynd i'r Ysgol yn ardal Dwyfor.

**3.3.3** Cadarnhaodd Tai Gogledd Cymru nad oedd ganddynt denantiaid oedd wedi nodi eu bod yn Sipsiwn a Theithwyr. Roedd gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd 21 o unigolion (12 aelwyd) ac roedd gan Grŵp Cynefin un tenant (un aelwyd).

**3.3.4** Roedd Cymdeithasau Tai a Chyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth i anfon at y tenantiaid y taflenni gwybodaeth oedd yn cynnwys manylion y person cyswllt yn Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd. Roedd Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn rhoi gwybodaeth ar eu gwefan i godi ymwybyddiaeth ymhlith eu tenantiaid.

**3.3.5** O'r 13 aelwyd a adnabuwyd trwy'r Cymdeithasau Tai, roedd wyth yn ardal Arfon, ym Mangor gan fwyaf, a phump yn ardal Dwyfor.

**3.3.6** Fel y nodwyd yn 4.2 adnabu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol 72 o aelwydydd yng Ngwynedd oedd yn Sipsiwn a Theithwyr. Mae

Gwynedd wedi llwyddo i gysylltu â 13 o'r 65 mewn brics a morter trwy Gymdeithasau Tai.

**3.3.7** Roedd y saith carafán / strwythur dros dro yr adroddwyd arnynt yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adnabyddus i Wynedd fel y safle Sipsiwn a Theithwyr yn Llandygai. Cysylltwyd â'r saith a chwblhaodd pedwar yr holiadur.

**3.3.8** Cysylltwyd trwy lythyr â thri datblygiad nad oedd ganddynt ganiatâd oherwydd nad oedd rhifau ffôn ar eu cyfer. Ni wnaeth un ohonynt ymateb, cysylltodd un dros y ffôn gan wrthod gadael i ni gysylltu ag o eto a threfnodd y trydydd i Dai Gogledd Cymru ymweld er mwyn cwblhau'r holiadur.

**3.3.9** Roedd adran drwyddedu Cyngor Gwynedd yn gallu adnabod lleoliadau'r ffeiriau a'r syrcasau. Cafodd y wybodaeth hon ei throsglwyddo i Dai Gogledd Cymru ym mis Awst 2015 er mwyn gwneud trefniadau i ymweld. Nid oedd Tai Gogledd Cymru'n gallu gwneud trefniadau i ymweld â'r tri digwyddiad hyn oherwydd trefniadau staffio.

**3.3.10** Aeth Cyngor Gwynedd i ymweld â'r syrcas yn Ninas ddiwedd mis Awst 2015. Bu iddynt gadarnhau nad oeddynt yn dymuno cwblhau'r holiadur ac yn dymuno i ni nodi nad oeddynt yn dymuno cael eu categoreiddio fel Sipsiwn a Theithwyr gan mai pobl sioe oeddynt.

**3.3.11** Gwnaeth staff Tai Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd drefniadau i ymweld â ffair ym Mangor ar y 10$^{fed}$ o Fedi 2015. Yn anffodus, erbyn i ni gyrraedd y safle, roedd y ffair wedi symud yn ei blaen.

**3.3.12** Gwnaed cyswllt â Kirk Mulhearn o'r *Showman's Guild* ac â Lynn Whatmore sy'n golygu'r cylchgrawn *World's Fair*. Rhoddwyd

hysbyseb gan Lywodraeth Cymru yn rhifyn Gorffennaf 2015. Rhoes hyn gyfle i bobl y sioeau teithiol gysylltu ag i drefniadau gael eu gwneud i gwblhau'r holiadur.

**3.3.13** Cofnodwyd ugain gwersyll anghyfreithlon yn ardal Gwynedd yn 2015/16, cyfanswm o 69 o garafanau.

**3.3.14** O fis Awst 2015 ymlaen (dechrau'r cyfnod ymgynghori), rhoddwyd y cynnig i 11 o wersylloedd anghyfreithlon, cyfanswm o 27 o garafanau, gwblhau'r holiadur. Rhoddwyd eglurhad am y rheswm y tu ôl i'r holiadur a'r posibilrwydd o edrych ar safleoedd aros tramwy neu dros dro ar gyfer y dyfodol. Er bod rhai o'r gwersylloedd yn nodi y câi safle aros tramwy/dros dro eu croesawu, nodwyd ganddynt hefyd na chodir arnynt ar hyn o bryd pan fyddant yn aros gan eu bod yn aros mewn meysydd parcio gan fwyaf lle ceir cyfleusterau gerllaw.

## 3.4 Canfyddiadau – Môn

**3.4.1** Edrychwyd ar wybodaeth am broffil tenantiaid mewn tai cymdeithasol ym Môn er mwyn canfod unrhyw denantiaid oedd o dras Sipsiwn a Theithwyr. Wrth wneud hyn daethpwyd ar draws un tenant Roedd yn bosib adnabod 1 tenant oedd mewn tŷ Cymdeithasol sef tenant Cyngor Sir Ynys Môn a chysylltodd Cymdeithas Tai Gogledd Cymru ag o am gyfweliad.

**3.4.2** Yn sgil cofnodion Adran Addysg Môn bu modd canfod tair aelwyd lle cofnodwyd tras ethnig Sipsiwn neu Deithwyr ar gyfer plant yn ysgolion Môn.

**3.4.3** Cysylltwyd â'r teuluoedd hyn trwy lythyr ac yna trwy eu ffonio. Cytunodd y teuluoedd i gwblhau'r holiadur dros y ffôn.

**3.4.4** Ymwelwyd sawl gwaith â'r safle ar ffordd Pentraeth, safle a gaiff ei oddef. Ymwelodd swyddogion y Cyngor er mwyn egluro'r arolwg a chynnig y cyfle i fynd i'r grŵp llywio. Aeth swyddogion o blith y rhai a benodwyd i gyfweld pobl yng nghyswllt yr arolwg, Tai Gogledd Cymru, i ymweld er mwyn ceisio trefnu apwyntiadau. Cafodd swyddogion Tai Gogledd Cymru drafferth i drefnu cyfweliadau. Yn y pen draw, cwblhaodd un ymatebwr ei holiadur yn rhannol, heb gymorth a chwblhawyd un arall trwy gyfweliad gyda swyddog y Cyngor.

**3.4.5** Yn ystod cyfnod yr arolwg cynhaliwyd dwy ffair deithiol ym Môn. Trefnwyd cyfweliad gyda pherchennog ffair ym Menllech ym mis Medi. Gwnaed ymdrechion hefyd i gyfweld pobl sioeau teithiol yn ffair Borth a gynhelir yn flynyddol ond ni fu'n bosib trefnu apwyntiadau. Bu i staff Tai Gogledd Cymru ymgeisio i gyfweld y bobl sioeau teithiol sy'n ymweld â Phorthaethwy yn flynyddol ond yn anffodus nid oedd yn bosib gwneud trefniadau a hwy gan nad oedd neb yn y carafanau yn ystod yr ymweliadau.

**3.4.6** Fel y disgrifir ym mharagraff 3.3.12 cysylltodd Gwynedd a Môn â'r *Showman's Guild* gyda'i gilydd a rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r arolwg yng Nghylchgrawn *World's Fair* ym mis Tachwedd.

**3.4.7** Yn ystod cyfnod yr Arolwg rhoddwyd gwybod i Gyngor Sir Ynys Môn am ddau wersyll nad oedd caniatâd iddynt. Mewn un gwersyll roedd y teithwyr wedi symud ymlaen cyn i swyddog y Cyngor ymweld. Yn yr ail, gwrthodwyd cyfweliad ffurfiol ond cafwyd trafodaeth am y rheswm am y gwersyll. Roedd y grŵp o

deithwyr yn dychwelyd i Iwerddon ac wedi gohirio eu taith, yn rhannol oherwydd tywydd mawr. Dywedodd y sawl oedd yn cael ei gyfweld nad oedd wedi aros yn rheolaidd ym Môn yn flaenorol.

# 4. Pennod Pedwar: Canfyddiadau'r Arolwg Gwynedd

## 4.1 Canfyddiadau Arolwg Cyngor Gwynedd

### 4.1.1 Cyfweliadau ag Aelwydydd

Cafodd saith aelwyd eu cyfweld yng Ngwynedd a tri ym Môn. Fel y nodwyd eisoes, roedd Tai Gogledd Cymru'n cynorthwyo'r unigolion i gwblhau'r holiaduron

Roedd tri o'r 7 aelwyd ar safle'r Awdurdod Lleol, roedd 1 mewn llety rhent preifat, a 2 ar ddatblygiad heb ganiatâd. Roedd yr aelwydydd yn adnabod eu hunain fel Teithwyr Gwyddelig/ Teithwyr Romani / Pobl sioe, Teithwyr Gwyddelig /Saeson neu Saeson/Sipsiwn.


### 4.1.2 Gwybodaeth am Aelwydydd

Roedd nifer y bobl ym mhob aelwyd fel a ganlyn:-

- 3 aelwyd – 1 person fesul aelwyd a gwrywod oedd y 3;
- 1 aelwyd – 5 o bobl, 3 gwryw a 2 fenyw;
- 1 aelwyd – 6 o bobl, 3 gwryw a 3 menyw;
- 1 aelwyd – 9 o bobl, 4 gwryw a 5 menyw.
- 1 aelwyd - 2 o bobl, 1 gwryw a 1 menyw

Mae'r aelwyd 9 person yn byw mewn brics a morter ar hyn o bryd.

**Graff Rhif 10 - Lle mae Sipsiwn a Theithwyr yn byw nawr?**





Pan ofynnwyd iddynt pam oeddynt yn byw yno, roedd yr ymatebion fel a ganlyn:-

- **Cysylltiadau Lleol (Teulu neu Waith) (6)**
- **Arall (1) - "Yn Wrecsam cyn symud - roeddem yn symud cartref fel bod modd i'r plant fynd i'r Ysgol a chael rhywfaint o addysg".**

Cyfnod yr amser yn y lleoliad presennol – roedd pedwar wedi byw yn y lleoliad ers dros bum mlynedd. Mae un yn byw yn ei leoliad presennol ers 7-12 mis, un ers 1-2 flynedd ac 1 ers 2-5 mlynedd**.** O'r saith, nododd pedwar nad oeddynt yn bwriadu symud o'u lleoliad presennol ac nid oeddynt yn gwybod am faint y byddent yn aros yno.

**Graff Rhif 11 – Cyfnod yr amser yn y lleoliad presennol**




Nodir isod y rheswm pam y bu i'r ddwy aelwyd symud yn y 12 mis diwethaf:-

- **Priodi;**
- **Roedd ganddynt garafán yn Wrecsam, wedi symud ers dros 12 mis.**

### 4.1.3 Proffil demograffig o'r boblogaeth

Mae'r siart isod yn cymharu data'r cyfrifiad mewn cymhariaeth â'r data gwirioneddol a ddaeth i law trwy'r holiaduron a gwblhawyd. Ni wnaeth rhai o'r ymatebwyr ddadlennu eu hoedran/oedran eu partner ar yr holiadur er iddynt ddadlennu oed eu plant.

**Graff Rhif 12 – Oed Sipsiwn a Theithwyr yng Ngwynedd o Gymharu â Data Cyfrifiad 2011**




### 4.1.4 Addasrwydd y Llety Cyfredol

Nododd chwe aelwyd nad oeddynt yn fodlon gyda'u llety cyfredol ac mae'r sylwadau fel a ganlyn:-

- **Dim angen gwelliannau - dim yn dymuno byw mewn tŷ rhagor wedi bod yno 12 mis - yn dymuno mynd yn ôl i garafán. (1)**
- **Cyfleusterau toiled gwell (1)**

- **Gwaith cynnal a chadw gwell e.e. gwaith plymio /traeniau / casglu gwastraff(3)**
- **Llecyn chwarae i blant ifainc (3)**
- **Llecynnau parcio ychwanegol i geir (3)**
- **Dim cyfleusterau ar y safle, unlle arall i fynd iddo (1)**

Nododd aelod un aelwyd ei fod yn fodlon gyda'i lety cyfredol gan ei fod yn berchen ar ei gae ei hun a bod safle mewn cyflwr da, ond ei fod yn ymdrin â materion cynllunio ar hyn o bryd.

Pan ofynnwyd i'r aelwydydd a fyddent yn aros yn hwy yn eu llety cyfredol pe gwnaed gwelliannau, roedd ymatebion fel a ganlyn. Noder y daeth mwy nag un ateb i law gan aelwydydd:-

- **Na – gwell ganddynt fyw mewn carafán (1)**
- **Byddent – angen gwelliannau (2)**
- **Byddent – gwneud y safle'n fwy (3)**
- **Byddent - angen addasiadau (4)**
- **Byddent – gwneud y llety'n fwy diogel (3)**
- **Byddent – cael caniatâd cynllunio (2)**
- **Dim ateb (1)**

Yn ystod ymweliadau â safle Llandygai, trafodwyd rhai o'r uchod a lluniwyd cynllun gweithredu ar gyfer gwelliannau ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Edrychir i mewn i faterion eraill a godwyd.


Nododd tair o'r 7 aelwyd bod digon o leoedd cysgu i'r holl breswylwyr.
Mae rhagor o ddadansoddi fel a ganlyn:-

- **Nododd 1 fod digon o le ar y llain i ddwy garafán ychwanegol**
- **Nododd 1 fod digon o le ar y cae i bum carafán ychwanegol**
- **Nododd pedair nad oedd lle ar gyfer lleiniau ychwanegol**
- **Nododd un aelwyd nad oedd hyn yn berthnasol**

### 4.1.5 Dyheadau ynghylch Llety

Roedd pedair o'r saith aelwyd oed wedi tynnu sylw at yr angen am leiniau'n dymuno mynd ar restr aros Cyngor Gwynedd. Mae ffurflenni cais ynghyd â thaflenni gwybodaeth wedi'u hanfon at bob un o'r pedair aelwyd. At hyn, mae Swyddog Cyswllt Safleoedd wedi cynnig cymorth i gwblhau'r ffurflenni.

**Graff Rhif 13:- Nifer y bobl sy'n dymuno mynd ar restr aros yr Awdurdod Lleol am leiniau**




Pan ofynnwyd i'r aelwydydd i ba fath o lety yr oeddynt yn bwriadu symud, roedd yr ymatebion fel a ganlyn. Noder bod rhai aelwydydd wedi dewis mwy nag un opsiwn ac roedd eraill wedi dewis peidio ag ymateb.


- Safleoedd Rhent Cymdeithasol y Cyngor (2)
- Safle preifat ym mherchenogaeth yr aelwyd (1)
- Safle preifat ym mherchenogaeth rhywun arall (2)
- Brics a Morter (0)
- Rhentu gan y Cyngor/Gymdeithas Tai (0)
- Rhentu gan Landlord preifat (0)

### 4.1.6 Twf yr Aelwyd

Mae tri ymatebwr wedi nodi bod ganddynt aelodau o'u teulu fydd yn dymuno symud i'w cartref eu hunain yn y pum mlynedd nesaf.
Dywedodd dau o'r tri ymatebwr y byddent yn dymuno aros yng Ngwynedd.

Nid oedd un o'r tri ymatebwr yn siŵr i ba Awdurdod Lleol yr oedd yn dymuno symud

**Graff Rhif 14:- Nifer yr aelwydydd fydd yn debygol o fod yn dymuno symud i'w cartref eu hunain yn y pum mlynedd nesaf**




O'r tri ymatebwr, mae 2 wedi nodi eu bod yn dymuno aros yng Ngwynedd ac y byddai angen 4 aelwyd ychwanegol (8 o bobl o bosib) ar safle Awdurdod Lleol Gwynedd.


Nododd y trydydd ymatebwr mai carafán fyddai math y llety y byddai ei angen ar gyfer 2 aelwyd (4 o bobl o bosib) ond nid oeddynt yn siŵr a fyddai'r aelwydydd yn ofynnol yng Ngwynedd.

Hyd yn hyn mae 5 aelwyd wedi'u cofnodi ar restr aros Cyngor Gwynedd. O'r 5 ymgeisydd ar y rhestr aros, mae 3 wedi cymryd rhan yn yr asesiad o lety ac

wedi cwblhau holiadur ond maent wedi'u cynnwys yn y 5 lle mae angen llety arnynt nawr.

**Graff Rhif 15:- Yr Angen am Aelwydydd yng Ngwynedd yn y pum mlynedd nesaf**

**Faint o aelwydydd fydd yno a pha bryd y bydd angen y rhain?**




**Yn y tabl isod dangosir math yr aelwydydd y gellir bod angen tenantiaeth/llain arnynt yn y pum mlynedd nesaf.**

| | Oedran | Oedran | Nifer yr aelwydydd sy'n ofynnol |
|---|---|---|---|
| Aelwyd Rhif 1 | 17 mlwydd oed | 15 mlwydd oed | 2 |
| Aelwyd Rhif 2 | 17 mlwydd oed | 15 mlwydd oed | 2 |
| Aelwyd Rhif 3 | 23 mlwydd oed | 15 lwydd oed | 2 |

## 4.2 Canfyddiadau Arolwg Cyngor Ynys Môn

**4.2.1** Cwblhawyd 5 holiadur gan aelwydydd ym Môn. Mewn achosion lle nad oed yn bosib trefnu cyfweliad wyneb yn wyneb, wedi i staff Tai Gogledd Cymru gysylltu â'r Sipsiwn a'r Teithwyr, cytunwyd ar gyfweliadau ffôn a chwblhau'r holiadur heb gymorth. Golygodd hyn nad oedd rhai holiaduron wedi'u cwblhau cymaint ag y byddid wedi'i ddymuno.

**4.2.2** Cafodd yr holiaduron a gafwyd ym Môn eu cwblhau gan Sipsiwn a Theithwyr o gymysgedd o gefndiroedd yn cynnwys dyn sioe deithiol, Teithwyr Newydd a Sipiwn / Teithwyr mewn brics a morter.

**4.2.3** Oherwydd y nifer fechan a gwblhawyd, natur amrywiol yr ymatebwyr ac am resymau cyfrinachedd, ni wnaed ymdrech i gyflwyno'r ymatebion ar ffurf graff ar gyfer Môn.

**4.2.4** At hyn, mae'n ddefnyddiol defnyddio gwybodaeth am yr angen am y ddau safle parhaol a dros dro a gafwyd trwy sgyrsiau mwy anffurfiol gyda staff yr arolwg a swyddogion y Cyngor sydd wedi cael cyswllt gyda Theithwyr ac wedi trafod gyda hwy'r llynedd eu hanghenion llety a'r hyn y byddent yn ei ddymuno. Mae trafodaethau gyda theuluoedd sydd wedi aros mewn gwersyll anawdurdodedig yn ystod yr haf yn dangos bod rhai ohonynt yn perthyn a bod hyn y lleoliad yn rhan o'i patrwm teithio. Roedd gan nifer o aelwydydd gysylltiad ar gyfer gwaith ar yr Ynys neu yn chwilio am waith cynnal a chadw gerddi/coed. Cyfeirir at hyn yn hwyrach ymlaen yn yr adroddiad yn adran 5 Asesu Anghenion Llety.

### 4.2.5 Teuluoedd ar safleoedd – Môn

Cwblhawyd dau holiadur gan aelwydydd Teithwyr Newydd. Ar sail y rhain a thrafodaeth gyda'r Teithwyr Newydd ystyrir bod pedair aelwyd sy'n byw ar safle Pentraeth ar hyn o bryd y mae angen llain arnynt.

Tynnodd y ddau a gafodd eu cyfweld sylw at y ffaith nad oedd cyfleusterau sylfaenol ar y safle. Roedd un wedi byw ar y safle dros bum mlynedd ac un ddeunaw mis. Nododd y ddau fod lleoliad y safle'n dderbyniol ond bod y safle'n anfoddhaol oherwydd nad oedd trydan, cawodydd a nodweddion diogelwch.

Ni ddywedodd yr un aelwyd a gyfwelwyd y byddai'r aelwyd yn debygol o dyfu dros y pum mlynedd nesaf.

### 4.2.6 Teuluoedd mewn brics a morter – Môn

Fel y manylir yn adran 3.2 defnyddiwyd nifer o ffyrdd i geisio cysylltu ag aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn brics a morter.

Cytunodd tair aelwyd sy'n byw mewn brics a morter ym Môn i gymryd rhan mewn cyfweliadau.

Roedd pob aelwyd yn fodlon gyda'u llety cyfredol er bod un yn ceisio trosglwyddo i dŷ cymdeithasol arall.

Roedd yr holl aelwydydd wedi byw yn eu cartrefi presennol er dros bum mlynedd.

Ni chafwyd unrhyw achos o dystiolaeth o wrthwynebiad diwylliannol i fyw mewn brics a morter. Roedd un aelwyd yn

fodlon gyda'r llety cyfredol ond nododd y byddai byw ar lain yn "opsiwn a ffafrir".

Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r wybodaeth a roddwyd yn y cyfweliadau. Er bod aelwydydd yn dweud eu bod yn hapus ar hyn o bryd yn eu llety presennol, roeddynt yn awyddus y dylai safleoedd fod ar gael fel bod modd i Sipsiwn a Theithwyr ddewis byw ar safle gan ddibynnu ar eu dymuniadau a'u hamgylchiadau. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg o'r aelwydydd a gyfwelwyd bod angen llain yn y pum mlynedd nesaf. Ni ddywedodd yr un ar y pryd eu bod yn dymuno mynd ar restr aros am lain.

Roedd plant ifainc mewn dwy aelwyd. Nid oedd eu hoedran yn mynd i arwain at dwf yn eu teulu a allai greu angen am lain yn y pum mlynedd nesaf.

### 4.2.7 Pobl Sioeau Teithiol – Môn

Cwblhawyd un holiadur gan aelod o urdd y Bobl Sioeau Teithiol oedd yn cynnal ffair deithiol ym Môn. Roedd Môn yn un o nifer o gyrchfannau yr oedd yn teithio iddo yn ystod yr haf. Er mynegi diddordeb mewn canfod safle i gadw ei offer yn nes i'w ardal weithio, nid oedd yn amlwg bod angen iard ym Môn. Crybwyllwyd Manceinion fel ardal y byddai'n bosib symud iddi yn y dyfodol.

### 4.2.8 Safleoedd tramwy/ Mannau Aros Dros Dro - Môn

Cafwyd tri ymateb i'r cwestiwn E5, lle mae angen safleoedd tramwy neu fannau aros dros dro. Mae'r tri ymatebwr yn cydnabod fod angen safleoedd tramwy ychwanegol. Enwyd corridor yr A55, "unrhyw le ym Môn" ac ardal arfordirol Gogledd Cymru fel lleoliadau.

# 5 Pennod Pump – Asesu Anghenion Llety

## 5.1 Angen preswyl heb ei ddiwallu – Gwynedd

O'r ymatebion a ddaeth i law gan y saith aelwyd, roedd angen ffurflen gais yr Awdurdod Lleol ar bedair ohonynt er mwyn eu hystyried ar gyfer llety yng Ngwynedd. O'r pedair, mae tair ar y rhestr aros ar hyn o bryd.

O'r saith aelwyd yr angen posib yn y pum mlynedd nesaf fyddai chwe aelwyd. Mae pedair aelwyd wedi nodi'n benodol y byddent yn dymuno aros yng Ngwynedd. Nododd dwy aelwyd nad oeddynt yn siŵr ym mha Awdurdod Lleol y byddent yn dymuno byw.

O ran angen preswyl nodir y pum ffigwr a ganlyn yn yr astudiaeth**:**

| Cyfnod | Gwynedd |
|---|---|
| Nawr (ar y rhestr aros ar hyn o bryd) | 5 |
| O fewn blwyddyn | 1 |
| 1 i 2 flynedd | 2 |
| 3 i 5 mlynedd | 3 |
| **CYFANSWM** | **11** |

Mae pawb ar y rhestr aros yng Ngwynedd wedi mynegi diddordeb mewn cael llain ar safle'r Cyngor yn Llandygai.

Ni wnaeth yr angen yn y dyfodol a adnabuwyd yn yr arolwg nodi'n benodol mewn Siroedd unigol lle'r oedd y Sipsiwn / y Teithwyr yn chwilio am lety. Fodd bynnag, yng nghyswllt Gwynedd, daeth yr angen hwn gan breswylwyr yn ardal Bangor (safle Llandygai yn bennaf) ac ym Môn deuai o'r safle a oddefir ym Mhentraeth.

## 5.2 Angen Tramwy/Dros Dro heb ei Ddiwallu – Gwynedd

**5.2.1** Mae Cyngor Gwynedd yn gwneud pob ymdrech i ymweld â phob gwersyll anghyfreithlon yn yr Ardal.

**5.2.2** O fis Awst 2015 rhannwyd gwybodaeth ag unigolion am yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd adnabod safleoedd aros tramwy a dros dro ac roeddem yn annog yr unigolion i gwblhau'r holiadur.

**5.2.3** Er na chwblhawyd yr un holiadur nododd rhai unigolion bod safleoedd aros dros do yn ofynnol ond eu bod yn ansicr ynghylch gorfod talu i aros ar y safle. Dengys gwybodaeth fod carafanau'n parcio'n anghyfreithlon ar hyn o bryd, mewn meysydd parcio'n bennaf, gyda chyfleusterau gerllaw.

**5.2.4** Nododd y saith ymatebwr a gwblhaodd yr holiadur bod angen safleoedd tramwy/aros dros dro ac awgrymu'r isod:-

- **Meddwl fod angen mwy - ddim yn siŵr yn lle, ond ddim yn meddwl eu bod yn gweithio gystal â hynny. Os oes safleoedd yn gofyn am arian, byddir yn tueddu i ddefnyddio safleoedd nad oes ganddynt ganiatâd ac sydd â chyfleusterau'n rhad ac am ddim. At hyn, yn gallu cael gwahanol deuluoedd sydd ddim yn cael ymlaen â'i gilydd yn aros ar un safle. Gwell gennyf beidio dweud yn lle (1)**
- **Ar hyd yr A55 (5)**
- **Ardal Bangor/ Gwynedd (1)**

**5.2.5** Dengys y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr astudiaeth hon yw bod angen mannau aros dros dro ar sipsiwn neu deithwyr yn hytrach na safleoedd tramwy.

**5.2.6** Mae lefel y gwersylloedd anghyfreithlon a welwyd yn y rhan helaeth o ardaloedd wedi bod am un ymweliad yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain ar safleoedd sydd, yn hanesyddol, wedi gweld symudiadau o'r fath ers

sawl blwyddyn ac, yn hynny o beth, caiff y defnydd dros dro ei oddef am yr ymweliad blynyddol hwn.

**5.2.7** Er hynny, mae dwy ardal benodol lle gwelir defnydd uwch, sef maes parcio Shell yng Nghaernarfon (9 ymweliad yn ystod 2015) ac ar hyd yr A55 ar draws Ynys Môn (9 Gwersyll ar hyd y llwybr hwn yn ystod 2015).

## 5.3 Angen preswyl heb ei ddiwallu – Môn

**5.3.1** Fel y cyfeirir yn Adran 4.2.5 uchod, nodwyd bod angen nad oedd wedi'i ddiwallu ar y safle nad oedd caniatâd iddo ond a gaiff ei oddef - safle a ddefnyddir gan Deithwyr Newydd. Yn sgil holiaduron a sgyrsiau mwy anffurfiol, gwelwyd fod angen gan bedair aelwyd un person sy'n preswylio'n barhaol ar y safle.

| Cyfnod | Ynys Môn |
|---|---|
| Nawr (ar y rhestr aros ar hyn o bryd) | 4 |
| O fewn blwyddyn | 0 |
| 1 i 2 flynedd | 0 |
| 3 i 5 mlynedd | 0 |
| **CYFANSWM** | **4** |

## 5.4 Angen Tramwy / Dros Dro heb ei Ddiwallu – Môn

**5.4.1** Cafodd dau wersyll, 3 a 5 o carafanu nad oedd caniatâd iddynt eu cofnodi ym Môn yn ystod cyfnod yr arolwg ond nid oedd modd trefnu cyfweliadau ffurfiol. Yn adran 2.7 cyflwynir y dystiolaeth a gofnodwyd ar wersylloedd diweddar nad oedd caniatâd iddynt.

**5.4.2** Yn sgil trafodaethau gyda rhai Sipsiwn a Theithwyr ar y gwersylloedd hyn gwelwyd fod y teithwyr wedi dilyn yr A55 i Iwerddon ac oddi yno neu wedi ymgynnull ym Môn o wahanol fannau yn y Deyrnas Unedig fel rhan o batrymau teithiol blynyddol.

5.3.1 Mae patrwm i'r gwersylloedd hyn sef mae'r gwersylloedd yng Nghaergybi wedi bod am un neu ddwy o nosweithiau gyda dim mwy na 6 charafán. Fel sydd wedi ei nodi yn adran 2.7 mae 'na wersyll mwy ym Mona bod Haf sydd hefo 15 o garafanau. Ar sail hyn, rydym yn argymell man aros dros dro yng nghanol yr Ynys a'r ail yng nghyffiniau Caergybi sef man stopio addas fyddai'n cyfarch yr angen presennol. Fyddai angen darpariaeth i oddeutu 15 o garafanau yng nghanol yr Ynys.

# 6.0 Pennod Chwech – Casgliad ac Argymhellion

## 6.1 Casgliad

### 6.1.1. Y Broses Asesu

Yn yr adroddiad hwn ceir manylion sut mae Cynghorau Gwynedd a Môn wedi dilyn camau'r fethodoleg a argymhellir dan Ganllawiau Llywodraeth Cymru "Asesu Llety Sipsiwn a Theithwyr".

Mae'r ddau Awdurdod wedi ymgysylltu â'r Cyhoedd trwy amryfal ffyrdd i godi ymwybyddiaeth a sicrhau fod cymunedau lleol ac aelodau o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi cael digon o gyfle i roi mewnbwn ar y galw fydd yn y dyfodol am leiniau preswyl a mannau aros dros dro. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau y rhoddwyd ystyriaeth i agweddau perthnasol o Gydlyniant Cymunedol.

Y rhwystrau y daethpwyd ar eu traws yn ystod yr astudiaeth oedd cyndynrwydd aelodau gwersylloedd, nad oedd caniatâd iddynt, i gwblhau'r holiadur a thrafferthion gyda threfnu cyfweliadau gyda rhai aelodau o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Un ai nid oeddynt ar gael am resymau personol neu roeddynt yn anfodlon cymryd rhan. Caiff ei gydnabod y daethpwyd i ddeall y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn well yn ystod yr astudiaeth hon, sy'n sail i ymgysylltu ac i'r asesiad ffurfiol nesaf ymhen pum mlynedd.

Fel rhan o'r broses ymgysylltu trefnwyd hyfforddiant i staff ac Aelodau Etholedig ym mhob Awdurdod Lleol ac mae staff wedi medru cael gwybodaeth a chymorth i gynyddu eu hymwybyddiaeth o Sipsiwn a Theithwyr ac agweddau o Gydlyniant Cymunedol. Mae'r ddau Awdurdod Lleol wedi bod mor gynhwysol ag y gallant yn ymarferol trwy fabwysiadu sawl dull o ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r grŵp llywio wedi cyfarfod o bryd i'w gilydd yn ystod proses cynllunio'r asesiad ac wedi cynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Dai, Cydlyniant Cymunedol, Aelodau Lleol a chynrychiolwyr ymhlith y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

**6.1.2 Yn sgil dilyn y fethodoleg hon, dyma yw'r angen a nodir am safleoedd yng Ngwynedd a Môn**

**Lleiniau preswyl parhaol**

| | Lleiniau preswyl parhaol y mae eu hangen nawr | Yr angen posib am leiniau preswyl dros y pum mlynedd nesaf |
|---|---|---|
| Gwynedd | 5 | 6 |
| Môn | 4 | 0 |

**Safleoedd ar gyfer mannau tramwy / aros dros dro**

| | Nifer y safleoedd ychwanegol y mae eu hangen | Lleoliad y safleoedd y mae eu hangen |
|---|---|---|
| Gwynedd | 1 | Ardal Caernarfon |
| Môn | 2 | Canol Môn ac Ardal Caergybi |

## 6.2 Argymhellion

Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr awdurdodau lleol i arfer eu swyddogaethau i ddarparu lleiniau er mwyn diwallu’r anghenion a nodir.

Er mwyn diwallu’r angen a nodir yn yr asesiad gwneir yr argymhellion a ganlyn.

### 6.2.1 Bod yr angen preswyl a nodir am leiniau preswyl yn cael ei ddiwallu trwy:-

6.2.1.1 Ddiogelu'r ddarpariaeth breswyl bresennol yn Ardal yr Astudiaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd;

6.2.1.2 Neilltuo estyniad i’r safle Sipsiwn presennol yn Llandygai ym Mangor yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd er mwyn diwallu angen preswyl Gwynedd.

6.2.1.3 Neilltuo safle yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn ardal Menai ar gyfer diwallu’r angen a aseswyd am bedair llain barhaol yn sgil y safle a oddefir ar Ffordd Pentraeth.

6.2.1.4 Bod y Cyngor yn ceisio arian o Grant Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu’r safleoedd preswyl a nodir. Bod y ddau Gyngor yn cytuno ar gynlluniau prosiect

### 6.2.2 Dylai’r angen a nodir am fan aros dros dro gael ei ddiwallu trwy:

**6.2.2.1** Neilltuo man aros dros dro yn ardal Caernarfon;

**6.2.2.2** Yn ogystal yng Ngwynedd, gan y crybwyllwyd mai am un ymweliad oedd y rhan fwyaf o wersylloedd anghyfreithlon yn ardal y Bala a Chricieth, parhau i ddefnyddio’r protocol goddefol yng nghyswllt y mathau hyn o ymweliadau yn yr ardaloedd hyn.

**6.2.2.3** Neilltuo dau fan aros dros dro ar hyd yr A55 ar Ynys Môn, un yn ardal Caergybi ac un yng nghanol yr ynys, ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi gwersyllu’n anghyfreithlon yn rheolaidd yn y ddwy ardal hyn.  Dylai bod lle yn y safle yng nghanol yr ynys ar gyfer 15 carafán. Dylai bod lle yn y safle yng Nghaergybi ar gyfer 12 carafán.

### 6.2.3 Argymhellion Ychwanegol

**6.2.3.1** Bod y Cynghorau’n ymrwymo arian tuag at hwyluso’r tri man aros dros dro a nodir fel bo angen.

**6.2.3.2** Bod Grŵp Llywio’r Prosiect yn parhau i gwrdd ddwywaith y flwyddyn i sicrhau y byddir yn parhau i fonitro’r sefyllfa a gweld a ddylid darparu rhagor o fannau preswyl neu aros dros dro er mwyn diwallu unrhyw angen pellach a nodir.

**6.2.3.3** Bod Grŵp Llywio’r prosiect yn datblygu cynllun gweithredu ar y cyd yn cynnwys unrhyw faterion o Asesiad 2013 o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr na roddwyd sylw iddynt, ynghyd â’r argymhellion a nodir yn astudiaeth 2015.

**Cyfeirnodau:-**

1. **Cyfrifiad 2011**
   https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/KS201EW/view/1946157384?cols=measures
2. **Y Swyddfa Ystadegau Gwladol**
   http://www.ons.gov.uk/ons/search/index.html?newquery=CT0128
3. **StatsCymru – Llywodraeth Cymru** :-
   https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Equality-and-Diversity/Gypsy-and-Traveller-Caravan-Count - gwelwyd 17.08.15

**Atodiad A**

# Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol

**Cyflwyniad**

- Mae'r cynllun datblygu cyfredol ar gyfer Ynys Môn yn cynnwys Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993) a Chynllun Lleol Ynys Môn (1996). Oherwydd y gwnaed gwaith sylweddol wrth baratoi Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn, rhoddir pwys iddo hefyd fel ystyriaeth berthnasol wrth ymdrin â cheisiadau cyfredol.

- Mae'r cynllun datblygu ar gyfer Gwynedd yn cynnwys Cynllun Unedig Gwynedd a fabwysiadwyd (2009).

- Mae Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd wrthi'n paratoi Cynllun ar y Cyd newydd ar gyfer y ddwy Sir, a adwaenir fel **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2011 – 2026)**.

- Mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2011) yn ymwneud â thir y tu mewn i ffiniau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

- Er bod polisïau a ganlyn y Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi canllawiau ar faterion cynllunio defnydd tir sy'n ymwneud â datblygiadau Sipsiwn a Theithwyr, mae'n bwysig pwysleisio na ddylid darllen y polisïau hyn ar wahân i bolisi eraill sydd yn y Cynllun Datblygu perthnasol.

- **Ynys Môn – Polisiau'r Cynllun Lleol ynghylch Sipsiwn a Theithwyr**

  Mae'r cynllun datblygu ar gyfer Ynys Môn yn cynnwys:
  - Cynllun Fframwaith Gwynedd (a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn 1993); a
  - Chynllun Lleol Ynys Môn (a fabwysiadwyd yn1996).

Paratowyd y ddau gynllun hyn dan yr hen system gynllunio gyda'r Cynllun Fframwaith yn ymwneud â'r strategaeth yn gyffredinol tra bo'r Cynllun Lleol yn ymwneud ag achosion penodol a pholisïau yn seiliedig ar bynciau. Tystiwyd bod y Cynllun Lleol "yn cydymffurfio" â'r Cynllun Fframwaith.

- **Cynllun Fframwaith Gwynedd (a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 1993)**

  - Nid oes polisïau penodol sy'n ymwneud â Datblygiadau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghynllun Fframwaith Gwynedd. Ni chynigwyd safleoedd yng Nghynllun Fframwaith Gwynedd.

  - Mae modd edrych ar ddolen i gopi o Gynllun Fframwaith Gwynedd ar wefan y Cyngor. Dyma'r ddolen i'r ddogfen: http://www.anglesey.gov.uk/planning-and-waste/planning-policy/current-plans-and-policies/gwynedd-structure-plan/

**Datganiad Ysgrifenedig Cynllun Lleol Ynys Môn (1996)**

Nid oes polisïau na chynigion penodol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghynllun Lleol Ynys Môn. Fodd bynnag, cyfeirir at y safle Sipsiwn yn Llandygai, sy'n gyfrifoldeb i Gyngor Gwynedd. Nodir yn y Cynllun hwn fod digon o ddarpariaeth ar hyn o bryd i gwrdd ag anghenion yn ystod Cyfnod y Cynllun Lleol. Mae'r cynllun yn egluro y bydd ceisiadau cynllunio am Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, os cânt eu cyflwyno, yn cael eu hystyried yng nghyd-destun Polisi 1 'Polisi Cyffredinol' a'r cyngor a roddir yng nghylchlythyr 2/94 y Swyddfa Gymreig, Safleoedd Sipsiwn a Chynllunio.

Mae modd edrych ar ddolen i gopi o Gynllun Lleol Ynys Môn ar wefan y Cyngor. Dyma'r ddolen i'r ddogfen:
**http://www.anglesey.gov.uk/planning-and-waste/planning-policy/current-plans-and-policies/ynys-mn-local-plan/**

**Cynllun Unedol a Stopiwyd (mis Rhagfyr 2005)**

Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 awdurdodau unedol yng Nghymru gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lunio Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU).

Dechreuodd Cyngor Môn weithio ar y CDU yn hwyr yn yr 1990au ac aeth y cynllun trwy'r newidiadau adnau ac arfaethedig i Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol. Yn 2004, daeth Adroddiad yr Arolygydd i law'r Cyngor ac aeth gwaith rhagddo i baratoi'r Newidiadau Arfaethedig i'r cynllun.

Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2005, penderfynodd y Cyngor llawn roi terfyn ar ragor o waith ar y cynllun a chafodd y newidiadau arfaethedig erioed eu cyhoeddi.

Rhoddir pwys i'r CDU fel ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau at ddibenion rheoli datblygu ond nid oes ganddo statws cynllun llawn sydd wedi'i fabwysiadu. Caiff y safiad hwn ei gefnogi mewn llythyr, dyddiedig y 6ed o Orffennaf 2006, oddi wrth Adain Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru (mae copi o'r llythyr hwn yn y CDU a stopiwyd).

Rhaid penderfynu ar y pwys i'w roi i amryfal rannau'r CDU (polisïau ac ati) yn ôl haeddiannau achos yng nghyswllt nodweddion y cais, Argymhellion yr Arolygydd ym mis Gorffennaf 2004 ac unrhyw wrthwynebiadau arbennig.

Mae modd edrych ar ddolen i gopi o'r CDU a stopiwyd (2005) ar wefan y Cyngor. Dyma'r ddolen i'r ddogfen:

http://www.anglesey.gov.uk/planning-and-waste/planning-policy/current-plans-and-policies/unitary-development-plan/stopped-udp-unadopted-december-2005/

Nid oes polisïau ynghylch neilltuo safleoedd penodol nac eithriadau gwledig sy'n ymwneud â Sipsiwn yn y Cynllun. Bydd y polisi sy'n seiliedig ar y meini prawf a ganlyn yn cael ei ddefnyddio pe cyfyd tystiolaeth bod yno angen.

**Polisi Tai HP13 – SAFLEOEDD SIPSIWN**

**Caniateir cynigion ar gyfer safleoedd i garafanau Sipsiwn lle:**

**i) bod y safle wedi ei sgrinio'n ddigonol neu fod modd ei sgrinio'n ddigonol; a**

**ii) bod y safle mewn ardal lle bydd Sipsiwn yn arfer mynd; a**

**iii) bod y safle o fewn pellter rhesymol i ysgolion, siopau, cyfleusterau meddygol ac o fathau eraill yn y gymuned.**

**Ardal Gynllunio Gwynedd – Polisiau Cynllunio Lleol ynghylch Sipsiwn a Theithwyr**

**Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (a fabwysiadwyd yn 2009)**

Pan oedd y cynllun uchod wrthi'n cael ei baratoi, y gred oedd bod digon o ddarpariaeth ar gyfer anghenion sipsiwn ar y safle yn Llandygai, ger Bangor ond gellid cyflwyno ceisiadau i'r Cyngor am ragor o safleoedd. Nid oes safleoedd wedi'u neilltuo'n benodol yn y Cynllun

**Polisi CH16 – SAFLEOEDD SIPSIWN**

**Caniateir cynigion am safleoedd Sipsiwn yn ardal y Cynllun ar yr amod y darparwyd tystiolaeth o wir angen am y datblygiad.**

Mae modd edrych ar ddolen i gopi o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd ar wefan y Cyngor. Dyma'r ddolen i'r ddogfen:
**http://www.cartogold.co.uk/gwynedd/**

Yn yr eglurhad am y polisi, nodir y caiff Sipsiwn, at bwrpas y polisi hwn, eu diffinio fel pobl sy'n symud ac yn teithio fel rhan o'u bywoliaeth ac nid yw hyn yn cynnwys pobl sy'n crwydro o le i le heb ennill bywoliaeth, sef Teithwyr yr Oes Newydd.

Cyn cymeradwyo safle ychwanegol, rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon bod yna angen gwirioneddol am y safle newydd.  Fel yn achos datblygiadau eraill, ni fydd safleoedd a gâi effaith annerbyniol ar y tirlun, yr arfordir neu ar fywyd gwyllt, yn sgil eu lleoliad neu osodiad y safle, yn cael eu cymeradwyo.  Ni fydd bwriadau a gâi effaith ar fwynderau trigolion gerllaw neu ar ddiogelwch y briffordd yn cael eu cymeradwyo.

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2011 – 2026) Cynllun Adnau (2015)**

Yn 2010 penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd weithio gyda'i gilydd i baratoi Cynllun ar y cyd yn cynnwys Ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn. Ymgynghorwyd â'r cyhoedd yn ffurfiol ynghylch fersiwn adnau'r Cynllun rhwng 16 Chwefror a 31 Mawrth 2015. Unwaith y bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd wedi'i fabwysiadu, bydd yn disodli'r amryfal Gynlluniau y cyfeirir atynt uchod a bydd yn fan cychwyn ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer ardal gynllunio Ynys Môn a Gwynedd.

Er bod cryn waith wedi'i wneud ar y polisïau ni roddir pwys iddynt fel ystyriaeth gynllunio berthnasol at ddibenion rheoli datblygu. Bydd y pwys sydd i'w roi i fersiwn ddrafft Cynllun Datblygu Lleol yn dibynnu'n gyffredinol ar ba mor bell y mae wedi mynd, ond nid yw'n cynyddu wrth i'r cynllun fwrw ymlaen i gael ei fabwysiadu (Polisi Cynllunio Cymru Tachwedd 2014, paragraff 2.8.1).Wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fwrw ymlaen trwy'r cyfnod archwilio ac, felly, yn nes at gael ei fabwysiadu, efallai y byddai modd rhoi rhyw gymaint o bwys i'w bolisïau drafft fel ystyriaethau perthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Bydd gofyn i'r arolygydd a benodwyd  i gynnal y gwaith archwilio ystyried cywirdeb y cynllun cyfan yng nghyd-destun y polisi cenedlaethol a'r holl faterion eraill sy'n berthnasol iddo wrth gynnal y gwaith

archwilio. Bydd pwysau polisïau drafft yn llai os bydd gwrthwynebiadau iddynt neu os ydynt yn groes i bolisïau cynllunio cenedlaethol.

Mae tri pholisi yn y Cynllun Adnau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae modd gweld y polisïau yn: http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2015/02/13/r/v/e/Deposit-Plan-2015.pdf

**POLISI TAI11: GWARCHOD SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR**

**Mae'r safle Sipsiwn presennol yn Llandygai, Bangor, fel sydd i'w weld ar y Map Cynigion, yn cael ei ddiogelu fel safle preswyl parhaol i'w ddefnyddio ddim ond gan Sipsiwn.**

**Bydd unrhyw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd sy'n cael caniatâd cynllunio ac yn cael eu gweithredu hefyd yn cael eu diogelu i'w defnyddio gan Sipsiwn neu Deithwyr.**

**Gwrthodir cynigion ar gyfer defnydd arall ar safle sydd wedi'i ddiogelu heblaw am pan fydd safle arall yn ei le wedi cael ei adnabod a'i ddatblygu i ddarparu cyfleusterau o safon gyfatebol neu well (yn cynnwys o ran lleoliad) tra mae angen yn parhau am y fath safleoedd, yn ôl Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr neu'r dystiolaeth orau sydd ar gael.**

Pwrpas y polisi hwn yw diogelu safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio at ddefnydd preswyl Sipsiwn a Theithwyr a safleoedd y rhoddir y cyfryw ganiatâd iddynt yn y dyfodol. Bydd yn cynorthwyo i sicrhau na chaiff safleoedd Sipsiwn a Theithwyr eu colli i ddefnyddiau amgen, onid yw ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill yn nodi fel arall.

**POLISI TAI12: DYRANNU SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR**

**Er mwyn cyfrannu at ateb yr angen am leiniau i Sipsiwn a Theithwyr fel y dangosir yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr mae'r lleoliad a ganlyn, fel y dangosir ar y Map Cynigion, wedi cael ei adnabod ar gyfer datblygiad posib fel defnydd parhaol gan Sipsiwn neu Deithwyr, ac i'w feddiannu ddim ond gan Sipsiwn neu Deithwyr**

**Safleoedd parhaol i Sipsiwn neu Deithwyr**

| Lleoliad | Nifer y lleiniau | Preswylwyr |
|---|---|---|
| **Estyniad i'r safle presennol yn Llandygai, Bangor** | **5** | **Sipsiwn** |

Wrth i'r Cynghorau symud tuag at y cyfnod Cyflwyno (a ddisgwylir ym mis Chwefror 2016) yn y broses o gynllunio'r Cynllun, mae Methodoleg Asesu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei defnyddio i adnabod safleoedd lle mae bylchau mewn darpariaeth er mwyn bodloni'r asesiad mwyaf cyfredol o anghenion am leiniau preswyl parhaol yn ogystal â chyfres o leiniau aros dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Yn y Cynllun Adnau mae canllawiau ynghylch y broses asesu arfaethedig a ddefnyddir i adnabod safleoedd preswyl parhaol posib a safleoedd aros dros dro fel dyraniadau yn Ardal y Cynllun. Cyflwynir rhagor o wybodaeth am y broses asesu ym Mhapur Tesun 18 yn nodi Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a chaiff ei diweddaru yn y cyfnod Cyflwyno.

Mae modd edrych ar ddolen i gopi o Bapur Testun 18 ar wefan y Cyngor. Dyma'r ddolen i'r ddogfen: http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2015/02/16/r/a/r/Topic-Paper-Identifying-Gypsy-and-Traveller-Sites.pdf

Mae’r polisi arfaethedig a ganlyn sy’n seiliedig ar feini prawf wedi’i ddrafftio fel bod modd rhoi caniatâd cynllunio i Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl parhaol ac estyniadau i safleoedd sydd eisoes wedi’u caniatáu, a hynny ar dir na fyddai, fel arall, yn cael ei ryddhau ar gyfer codi ‘tai brics a morter’.

**POLISI TAI13: SAFLEOEDD AR GYFER LLEINIAU I SIPSIWN A THEITHWYR**

**Caniateir cynigion am safleoedd preswyl parhaol ar gyfer Sipsiwn neu Deithwyr ac estyniadau i safleoedd sydd wedi cael eu hawdurdodi’n barod ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar dir na fyddai fel arall yn cael ei ryddhau ar gyfer datblygiad preswyl os gellir cydymffurfio gyda’r meini prawf canlynol i gyd:**

1. **Bod angen lleol gwirioneddol yn cael ei adnabod;**
2. **Bod mynediad ar gael at yr isadeiledd cludiant a chymdeithasol angenrheidiol, neu fod modd eu darparu’n rhwydd;**
3. **Does dim modd darparu ar eu cyfer ar safle awdurdodedig sy’n bodoli’n barod;**
4. **Nad yw ffactorau amgylcheddol, yn cynnwys risg o lifogydd, sefydlogrwydd y tir, tir wedi’i halogi, a bod yn agos at leoliadau peryglus yn gwneud y safle’n amhriodol ar gyfer datblygiad preswyl;**
5. **Mae modd cael gwasanaethau dŵr, trydan a rheoli gwastraff i’r safle;**
6. **Bod dyluniad y datblygiad yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth briodol i Ganllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru, Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru;**
7. **Nad oes effaith afresymol ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardaloedd o gwmpas, yn cynnwys ar amwynder preswyl meddianwyr cyfagos neu amodau gweithredu busnesau sy’n bodoli’n barod;**
8. **Nad oes effeithiau niweidiol ar ardaloedd wedi’u dynodi o**

**bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth a thirwedd;**

9. **Bod trefniadau boddhaol yn eu lle i gyfyngu ar feddiannaeth o'r lleiniau i Sipsiwn neu Deithwyr.**

Yn ogystal â bod yn bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf, byddai modd disgrifio'r polisi hwn fel "math sy'n eithriad" i'r polisi. Pwrpas y polisi hwn yw ei gwneud yn bosib rhyddhau tir y tu allan i ffiniau datblygu ar gyfer llety fforddiadwy Sipsiwn a Theithwyr lle na fyddai 'tai o frics a morter' fel arfer yn cael eu caniatáu.

Mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wrthi'n ystyried yn ofalus sylwadau a gyflwynwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Cynllun Adnau yng nghyswllt elfennau o'r polisïau a ddisgrifir uchod. Bydd unrhyw welliannau y bydd gofyn eu gwneud i roi sylw i'r sylwadau hyn yn cael eu cyflwyno mewn atodiad i'r Cynllun Adnau a'u disgrifio fel 'Newidiadau y Canolbwyntir arnynt'.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd gofyn iddynt adnabod digon o safleoedd i gwrdd ag angen am leiniau ychwanegol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a gyfrifwyd o'r Asesiad diweddaraf o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Bydd y safleoedd ychwanegol hyn yn cael eu cyflwyno mewn atodiad i'r Cynllun Adnau a'u disgrifio fel 'Newidiadau y Canolbwyntir arnynt'. Bydd yr holl Newidiadau y Canolbwyntir arnynt yn cael eu cyflwyno i'r Arolygydd Cynllunio fel gwelliannau a argymhellir i'r Cynllun Adnau.

Yn ystod archwiliad y Cyhoedd i'r Cynllun, bydd yr Arolygydd Cynllunio'n asesu cywirdeb y Cynllun. Gallai'r Arolygydd Cynllunio argymell newidiadau i bolisïau ac i ddyraniadau arfaethedig (gan gynnwys y polisïau Sipsiwn a Theithwyr a dyraniadau safleoedd arfaethedig) er mwyn sicrhau fod y Cynllun yn cydymffurfio â'r profion cywirdeb. Bydd y Newidiadau y Canolbwyntir arnynt ac unrhyw Newidiadau a gyfyd o'r Archwiliad yn mynd i ymgynghoriad cyhoeddus (a ddisgwylir yn ystod 2016).

**Parc Cenedlaethol Eryri – Polisïau Cynllunio Lleol ynghylch Sipsiwn a Theithwyr**

**Datganiad Ysgrifenedig Eryri 2007-2022 (2011)**

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri cyn cyhoeddi Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru yn 2013. Oherwydd nad oedd tystiolaeth o angen wedi'i brofi am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ni neilltuodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol unrhyw safleoedd yn benodol at ddefnydd Sipsiwn a Theithwyr a chyflwynwyd ganddynt y polisi dros dro a ganlyn sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn barnu ceisiadau cynllunio yn y dyfodol ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

**Polisi Datblygu 13: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**


O fewn y Parc Cenedlaethol bydd caniatâd cynllunio am safleoedd sipsi yn cael ei gymeradwyo ar yr amod y bodloni'r meini prawf canlynol:

i. Mae tystiolaeth o'r angen i leoli neu ddarparu trefniadau darfodol yn yr ardal wedi'i bennu.
ii. Ni fydd defnydd y safle yn achosi niwed sylweddol i amwynder preswyl na chyhoeddus.
iii. Fod y safle ar raddfa gyfartal gyda'r gymunedol sefydlog agosaf.
iv. Fod gan y safle ddarpariaeth ddigonol o wasanaethau hanfodol gan gynnwys gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu a gwasanaethau prif ffrwd gyflenwad, ac nid yw'n gosod unrhyw faich ychwanegol ar isadeiledd lleol
v. Fod gan y safle fynediad uniongyrchol i brif ffordd ac mae ar lwybr taith bws sydd yn rhoi mynediad at wasanaethau lleol.
vi. Nid yw'r cynnig yn ymddangos yn sylweddol ymwthiol, mae'n cydweddu â'r dirwedd ac mae wedi'i dirlunio'n foddhaol.


Mae paragraff 5.49 o'r testun eglurhaol yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau fod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu lleoli'n gynnil a'u bod yn unol â dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae modd edrych ar y Cynllun Cyfan yn: http://www.eryri-npa.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0004/184684/ELDP-Final-6.1.12.pdf

**Atodiad B**

## Map – Cynllunio



**Atodiad C**


Illegal Encampments in 2015
Bangor
Abergwyngregyn
Caernarfon
Llanberis
Criccieth
Porthmadog
Pwllheli
Y Bala
Dolgellau
Bermo
Fairbourne
Number of illegal encampments
1
2
9
Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100023387
Research and Analytics Service, Corporate Support Department
© Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100023387

**Atodiad D**

**Grŵp Llywio Prosiect Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn**

| Enw | Adran | Corff |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Ioan Thomas | Arweinydd Portffolio Tai / Gofal Cwsmer ac Amddifadedd a Chydraddoldeb | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd Dafydd Meurig | Arweinydd Portffolio Cynllunio a Rheoleiddio | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd Aled Morris Jones | Arweinydd Portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai | Cyngor Môn |
| Arwel Owen (Cadeirydd) | Tai -<br>Uwch-swyddog Tai | Cyngor Gwynedd |
| Lucy Reynolds | Tai -<br>Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai (Rheolwr Prosiect Môn) | Cyngor Môn |
| Catrin Roberts | Tai -<br>Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai (Rheolwr Prosiect Gwynedd) | Cyngor Gwynedd |
| John Hughes Jones | Uwch-swyddog Lles<br>Addysg | Cyngor Gwynedd |
| Bethan Roberts | Swyddog Sicrhau Ansawdd | Cyngor Gwynedd |

| Enw | Adran | Corff |
|---|---|---|
| **Robert Thomas** | **Arweinydd Tîm – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn** | **Cyngor Gwynedd a Môn** |
| **J Mike Evans** | **Uwch-swyddog Cynllunio – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn** | **Cyngor Gwynedd a Môn** |
| **Rebeca Jones** | **Swyddog Cynllunio (Polisi)** | **Parc Cenedlaethol Eryri** |
| **Megan Marie Riley** | **Cynrychiolydd Sipsiwn a Theithwyr** | **Cynrychiolydd Sipsiwn a Theithwyr** |
| **Paulette Campbell** | **Rheolwr Gweithredol Tai â Chymorth** | **Tai Gogledd Cymru** |
| **Adrian Roberts** | **Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr – Tai** | **Cyngor Gwynedd** |
| **Tony Jones** | **Cydgysylltydd Cydlynol Cymunedau Rhanbarthol** | **Conwy, Gwynedd a Môn** |

**Atodiad E**

## ATODIAD 2 – HOLIADUR

### ADRAN A – EICH CARTREF

### A1 Lle ydych chi'n byw nawr?

| | |
|---|---|
| Safle Preswyl yr Awdurdod Lleol ("Y Cyngor") | |
| Safle symudol y Cyngor | |
| Safle preifat ac arno ganiatâd cynllunio | |
| Safle Preifat heb ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd | |
| Gwersyll heb ganiatâd | |
| Brics a Morter – Rhentu Cymdeithasol | |
| Brics a Morter – Rhentu preifat | |
| Brics a Morter – Perchen-ddeiliad | |

### A2 Ydych chi'n fodlon gyda'ch llety presennol?

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |

Os 'nac ydw', eglurwch beth fyddai modd ei wella:

**A3 Oes modd i chi ddweud wrthyf pam eich bod yn byw yma ?**

| | |
|---|---|
| Cysylltiadau lleol (Teulu neu waith) | |
| Dim llain arall â chaniatâd arno | |
| Methu cael hyd i dŷ i symud iddo | |
| Rhesymau iechyd neu oedran | |
| Gwell gennyf dai na charafanau | |
| Arall: | |
| | |

**A4 Ers pryd ydych chi'n byw yma?**

| Llai na mis | 1–6 mis | 7 – 12 mis | 1 - 2 flynedd | 2-5 mlynedd | Dros 5 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**A5 Os ydych wedi symud yn y flwyddyn ddiwethaf, oedd eich cartref diwethaf yn yr Awdurdod Lleol yma?**

**OEDD / NAC OEDD**

Rhoddwch fanylion isod:

| **Math y llety** | **Oedd Caniatâd cynllunio arno?** | **Ym mha Awdurdod Lleol oedd o?** | **Pam wnaethoch chi adael?** |
|---|---|---|---|
| | | | |

**A6 Am faint ydych yn meddwl y byddwch yn aros yma?**

| 1 neu 2 ddiwrnod | 3 – 28 diwrnod | 1 – 3 mis | 3 mis – 2 flynedd | 2 – 5 mlynedd | Dros 5 mlynedd | Dim yn bwriadu symud | Dim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

**A7 Fyddech chi'n aros yn hirach pe bai newidiadau neu welliannau i'ch llety presennol**

*(Noder: Efallai na fyddai'r Awdurdod Lleol yn gallu gwneud y gwelliannau yma ond gallai dealltwriaeth o'r problemau gyda'ch llety fod o gymorth)*

**BYDDWN** **NA FYDDWN**

| Rheswm | Tic |
|---|---|
| Angen atgyweirio | |
| Safle'n cael ei wneud yn fwy | |
| Llety'n cael ei wneud yn fwy diogel | |
| Caniatâd Cynllunio wedi'i roi | |
| Angen addasiadau (nodwch isod) | |

| Reason | Tic |
|---|---|
| Pasio trwodd | |
| Yn dymuno llain ac arni ganiatâd mewn ardal arall | |
| Yn dymuno symud i dŷ | |
| Perthynas wedi torri i lawr | |
| Gwell gennyf fyw mewn carafán | |

Arall:

**ADRAN B – EICH TEULU**

| | Perthynas â'r ymatebwr (e.e. Gŵr/gwraig, mab/merch ac ati) | Oed | Rhyw | Teithiwr Romani / Gwyddelig / Teithiwr Newydd / Person sioe / Roma / Arall (hunan penodedig) | Oes rhesymau pam na allwch barhau i fyw yn y llety yma? (rhoddwch fanylion) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymatebwr | | | | | |
| Person 2 | | | | | |
| Person 3 | | | | | |
| Person 4 | | | | | |
| Person 5 | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Person 6 | | | | | |
| Person 7 | | | | | |
| Person 8 | | | | | |
| Person 9 | | | | | |
| Person 10 | | | | | |
| Person 11 | | | | | |
| Person 12 | | | | | |

*Os nad ydych yn byw mewn carafanau ewch i B4.*

**B2 Os ydych yn byw mewn carafanau, oes digon o fannau cysgu i bob preswylydd?**

**OES / NAC OES**

**B3 Oes lle ar y llain i garafanau ychwanegol er mwyn osgoi gorlenwi?**
*(Noder: awgryma canllawiau y dylid bod bwlch o 6 metr rhwng trelars a bwlch o 3 metr i ffiniau fel bod y llety'n ddiogel ar y safle)*

**OES / NAC OES**

**Os oes, sawl man cysgu ychwanegol y mae modd ei ychwanegu?**

**B4 Fyddai rhywun yn eich teulu yn dymuno mynd ar restr aros yr Awdurdod Lleol am lain neu dŷ?**

**BYDDAI / NA FYDDAI**

**Rhoddwch gyfeiriad isod fel bod modd anfon y pecyn ymgeisio:**

*Nodwch os ydych eisoes ar restr aros ac ar ba un.*

ADRAN C – EICH CYNLLUNIAU

**C1 Ydych chi'n bwriadu symud i lety arall?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | ***Ewch i C2*** | |
| Nac ydw | ***Ewch i D1*** | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | ***Ewch i D1*** | |

**C2 I le ydych chi'n bwriadu symud?**

| | |
|---|---|
| O fewn yr Awdurdod Lleol | |
| Awdurdod Lleol arall yng Nghymru – nodwch pa un: | |
| Rhywle arall yn y Deyrnas Unedig | |

**C3 Pam ydych chi'n bwriadu symud?**

| | |
|---|---|
| Angen mwy o le | |
| Angen cyfleusterau gwahanol | |
| Cysylltiad lleol (teulu neu waith) | |
| Angen bod yn nes at wasanaethau – ysgolion ac ati (Rhowch fanylion isod) | |
| Cyfleoedd cyflogaeth | |
| Arall (Nodwch isod) | |

**Gwasanaethau:** **Arall:**

| | |
|---|---|
| | |

**C4 Pa fath o lety ydych chi'n bwriadu symud iddo?**

| 1. Safle | |
|---|---|
| Cyngor / Rhentu cymdeithasol | |
| Safle preifat yr ydych yn berchen arno | |
| Safle preifat y mae rhywun arall yn berchen arno | |

| 2. Brics a Morter | |
|---|---|
| Perchen-ddeiliad | |
| Rhentu gan y Cyngor / Gymdeithas Dai | |
| Rhentu gan landlord preifat | |

**C5 Ydych chi'n berchen ar dir yn yr Awdurdod Lleol y byddech yn dymuno iddo gael ei ystyried fel safle posib yn y dyfodol?**

*(Noder: Bydd y sawl sy'n rhoi'r cyfweliad yn egluro nad oes modd gwarantu y bydd y safle'n cael ei neilltuo neu ei ddatblygu ond gallai swyddogion cynllunio gysylltu â'r ymatebwr i drafod ei sefyllfa a chynnig cymorth)*

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | ***Rhoddwch fanylion isod*** | |
| Nac ydw | ***Ewch i C6*** | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | ***Ewch i C6*** | |

**Pe byddech yn dymuno i'r Awdurdod Cynllunio drafod y cynlluniau yma gyda chi, rhoddwch fanylion cyswllt isod:**

| | | BYDDWN | NA FYDDWN |
|---|---|---|---|
| **C6** | **Os ydych yn chwilio am lain ac arni ganiatâd, fyddech chi'n byw ar safle a reolir gan yr Awdurdod Lleol pe caech gynnig un?** | | |
| **C7** | **Pe bai llain ac arni ganiatâd ar gael mewn Awdurdod Lleol arall, a fyddech yn ystyried symud yno?**<br><br>**Os 'byddwn', pa Awdurdodau Lleol?** | | |

**D1 Oes rhywun yn eich aelwyd yn debygol o fod eisiau symud i'w gartref ei hun yn y pum mlynedd nesaf?**

| | | |
|---|---|---|
| Oes | ***Ewch i D2*** | |
| Nac oes | ***Ewch i D4*** | |
| Dim yn gwybod | ***Ewch i D4*** | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | ***Ewch i D4*** | |

**D2 Fydd hyn yn yr Awdurdod Lleol yma?**

| | | |
|---|---|---|
| Bydd | ***Ewch i D3*** | |
| Na fydd | ***Ewch i D4*** | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | ***Ewch i D4*** | |

**D3 Sawl aelwyd newydd fydd yno a pha bryd fydd angen y rhain?**

| | **Math y llety (safle'r ALI; safle preifat; tai brics a morter)** | **Nifer y bobl** | **Nawr** | **O fewn blwyddyn** | **1-2 flynedd** | **2-5 mlynedd** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelwyd 1** | | | | | | |
| **Aelwyd 2** | | | | | | |
| **Aelwyd 3** | | | | | | |
| **Aelwyd 4** | | | | | | |

**D4 Oes gennych aelodau o'r teulu'n byw y tu allan i'r ardal hon sy'n gwersyllu yn yr Awdurdod Lleol hwn yn rheolaidd?**

| | | |
|---|---|---|
| Oes | ***Ewch i D5*** | |
| Nac oes | ***Ewch i E1*** | |
| Dim yn gwybod | ***Ewch i E1*** | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | ***Ewch i E1*** | |

**D5 Os ydynt yn dymuno cael eu cyfweld ynghylch yr angen am leiniau, nodwch isod eu manylion cyswllt ac enw'r Awdurdod Lleol y maent yn byw ynddo ar hyn o bryd:**

## ADRAN E – SAFLEOEDD TRAMWY

**E1 Ydych chi wedi gwersyllu wrth ochr ffordd / ar wersyll nad oedd arno ganiatâd / ar safle tramwy yng Nghymru pan oeddech yn teithio yn y flwyddyn ddiwethaf?**

*(Nodyn atgoffa: ni ddylid defnyddio'r wybodaeth yma ac eithrio i ddeall a oes angen rhagor o safleoedd tramwy)*

| | | |
|---|---|---|
| Do | ***Ewch i E2*** | |
| Naddo | ***Ewch i E4*** | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | ***Ewch i E4*** | |

**E2 Ym mha Awdurdodau Lleol ydych chi wedi gwersyllu?**

| | |
|---|---|
| | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |

**E3 Pa mor hir fyddech chi'n aros mewn un lle fel arfer pan fyddwch yn teithio?**

| 1 – 2 diwrnod | 3 diwrnod – wythnos | Wythnos – pythefnos | Pythefnos– mis | 1 – 3 mis |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

**E4 Ydych chi'n meddwl fod angen rhagor o safleoedd tramwy yng Nghymru?**

| | |
|---|---|
| Ydw ***Ewch i E5*** | |
| Nac ydw ***Diwedd yr holiadur*** | |
| Gwell gennyf beidio â dweud ***Diwedd yr holiadur*** | |

**E5 Lle mae eu hangen?**

*(Ymchwiliad ar gyfer Awdurdodau Lleol a lleoliadau penodol)*

| | |
|---|---|
| | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |

**Atodiad F**

Dull o godi ymwybyddiaeth o'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr

**Cyngor Gwynedd**

| Dyddiadau | | |
|---|---|---|
| Misoedd Mehefin a Gorffennaf 2015 | Cylchgrawn ar lein i deithwyr | Trefnwyd gan Lywodraeth Cymru |
| 18.08.15 | Sesiwn Briffio i Staff Tai Gogledd Cymru | Cyfarfod |
| 30.07.15 a 02.10.15 | Fforwm Digartref Gwynedd | Dau gyfarfod ac E-byst |
| Mis Awst 2015 a 16.09.15 | Fforwm Cefnogi Pobl | Un cyfarfod ac E-byst |
| 14.09.15 | Newyddlen Cyngor Gwynedd – dosberthir i Breswylwyr Gwynedd | Newyddlen |
| O 19.10.15 ymlaen | Twitter Cyngor Gwynedd | Safle Rhwydwaith Cymdeithasol |
| O 19.10.15 ymlaen | Facebook Cyngor Gwynedd | Safle Rhwydwaith Cymdeithasol |
| O 13.08.15 ymlaen | Gwefan Cyngor Gwynedd | Safle Rhwydwaith Cymdeithasol https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Trigolion/Tai/Tai.aspx |
| Mis Medi 2015 | Cymdeithasau Tai | E-byst<br>Dosbarthu llythyrau i denantiaid trwy Gymdeithasau Tai<br><br>http://www.ccgwynedd.org/cy-GB/Ymgynghori |

**Atodiad F**

Dull o godi ymwybyddiaeth o'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr

**Cyngor Sir Ynys Môn**

| Dyddiadau | | |
|---|---|---|
| Mehefin a Gorffennaf 2015 | Cylchgrawn ar lein teithwyr | Wedi'i drefnu gan Lywodraeth Cymru |
| 18.08.15 | Sesiwn Briffio ar gyfer staff Tai Gogledd Cymru | Cyfarfod |
| Medi 2015 | Cynghorwyr Cyngor Sir Ynys Môn | E-bost yn egluro'r Asesiad ac yn gofyn iddynt dynnu sylw aelodau'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr y maent yn ymwybodol ohonynt at yr Asesiad |
| Medi 2015 | Adran ar wefan y Cyngor a sefydlwyd gyda gwybodaeth am yr Asesiad | Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r arolwg http://www.anglesey.gov.uk/housing/anglesey-local-housing-strategy-and-the-anglesey-housing-partnership/gypsy-and-traveller-accommodation-assessment |
| Medi 2015 | Cymdeithasau Tai yn gweithio ym Môn | Cysylltiadau yn y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr |
| Hydref 2015 | Rhestr y Cyngor o randdeiliaid y trydydd sector | E-bost yn gofyn am gymorth i roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg. |
| Tachwedd 2015 | Cysylltwyd ag unigolion oedd wedi cysylltu'n flaenorol â'r Cyngor ynghylch materion Sipsiwn a Theithwyr trwy Facebook | Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r arolwg |
| Tachwedd 2015 | Twitter a Facebook Cyngor Sir Ynys Môn | Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r arolwg |
| Tachwedd 2015 | Cylchgrawn *World's Fair* | Erthygl wedi'i chynnwys ar Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yng Ngogledd Cymru |

## Atodiad G – Cofnod o Gyfweliadau Gwynedd

| Math y ddeiliadaeth | Ymdrechion i gyfweld | | | Technegau ymgysylltu a ddefnyddiwyd | Holiadur - wedi'i gwblhau ynteu ei wrthod? | Rhesymau dros wrthod? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Brics a morter | √ | | | Apwyntiad | Wedi'i gwblhau | |
| Safle Llywodraeth Lleol | √ | | | Apwyntiad | Wedi'i gwblhau | |
| Safle Llywodraeth Lleol | √ | | | Apwyntiad | Wedi'i gwblhau | |
| Safle Llywodraeth Lleol | √ | | | Apwyntiad | Wedi'i gwblhau | |
| Safle Llywodraeth Lleol | √ | √ | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | Wedi'i wrthod | Ddim eisiau cymeryd rhan |
| Safle Llywodraeth Lleol | √ | √ | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | Wedi'i wrthod | Ddim eisiau cymeryd rhan |
| Safle Llywodraeth Lleol | √ | | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | Wedi'i wrthod | Ddim eisiau cymeryd rhan |
| Safle Llywodraeth Lleol | √ | | | Apwyntiad | Wedi'i gwblhau | |
| Brics a morter | √ | √ | √ | Cyswllt drwy'r Asiantaeth Dai (llythyr a galwadau ffon) | | Methu cysylltu |
| | √ | √ | | Cyswllt dryw'r Adran Addysg | | 3 wedi gwrthod a dim cyswllt a 6 |
| Brics a morter | √ | √ | √ | Llythyr a galwadau ffon | | Methu cysylltu |
| Brics a morter | √ | √ | √ | Llythyr a galwadau ffon | | Methu cysylltu |
| Brics a morter | √ | √ | | Llythyr a galwadau ffon | Gwrthod | Hapus yn Llety presennol |

| Math y ddeiliadaeth | Ymdrechion i gyfweld | | | Technegau ymgysylltu a ddefnyddiwyd | Holiadur - wedi'i gwblhau ynteu ei wrthod? | Rhesymau dros wrthod? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Brics a morter | √ | √ | √ | Llythyr a galwadau ffon | | Methu cysylltu |
| Brics a morter | √ | √ | | Llythyr a galwadau ffon | Gwrthod | Hapus yn Llety presennol |
| Brics a morter | √ | √ | √ | Llythyr a galwadau ffon | | Methu cysylltu |
| Brics a morter | √ | √ | | Llythyr a galwadau ffon | Gwrthod | Hapus yn Llety presennol |
| Brics a morter | √ | √ | | Llythyr a galwadau ffon | Gwrthod | Hapus yn Llety presennol |
| Brics a morter | √ | √ | | Llythyr | | Methu cysylltu |
| Brics a morter | √ | √ | √ | Llythyr a galwadau ffon | | Methu cysylltu |
| Brics a morter | √ | | | Llythyr | Gwrthod | Hapus yn Llety presennol |
| Brics a morter | √ | | | Llythyr | Gwrthod | Hapus yn Llety presennol |
| | √ | | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | | Syrcas wedi symd ymlaen |
| | √ | | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | Gwrthod | Syrcas - ddim eisiau cymeryd rhan |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | Gwrthod | Ddim eisiau cymeryd rhan |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | Gwrthod | Ddim eisiau cymeryd rhan |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | Gwrthod | Ddim eisiau cymeryd rhan |

| Math y ddeiliadaeth | Ymdrechion i gyfweld | | | Technegau ymgysylltu a ddefnyddiwyd | Holiadur - wedi'i gwblhau ynteu ei wrthod? | Rhesymau dros wrthod? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | Gwrthod | Ddim eisiau cymeryd rhan |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | Gwrthod | Ddim eisiau cymeryd rhan |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Cyfweliad Wyneb i Wyneb | Gwrthod | Ddim eisiau cymeryd rhan |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Llythyr | Gwrthod | Ddim eisiau cymeryd rhan |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Llythyr | Wedi cwblhau | |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Llythyr | | Methu cysylltu |

## Atodiad G – Cofnod o Gyfweliadau Môn

| Math y ddeiliadaeth | Ymdrechion i gyfweld | | | Technegau ymgysylltu a ddefnyddiwyd | Holiadur - wedi'i gwblhau ynteu ei wrthod? | Rhesymau dros wrthod? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Safle preifat â chaniatâd | √ | | | Cyfweliad wyneb yn wyneb | Wedi'i gwblhau | |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | √ | √ | Apwyntiad | Wedi'i gwblhau | |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | √ | √ | Apwyntiad | Wedi'i wrthod | Apwyntiad heb ei gadw |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | √ | | Ymweliadau | Wedi'i gwblhau (heb gymorth) | Roedd y sawl oedd yn cael ei gyfweld oddi ar y safle ac felly'n methu cael cymorth |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | √ | √ | Ymweliadau | Wedi'i wrthod | Ar yr ymweliad olaf bu i salwch atal y cyfweliad rhag cael ei gynnal |
| Brics a morter | √ | √ | √ | Cyfweliad dros y ffôn | Wedi'i gwblhau | |
| Brics a morter | √ | | | Llythyr a chyfweliad dros y ffôn | Wedi'i gwblhau | |
| Brics a morter | √ | | | Llythyr a chyfweliad dros y ffôn | Wedi'i gwblhau | |
| Brics a morter | √ | √ | √ | Llythyr a galwad ffôn | | Trefnwyd apwyntiad ar gyfer cyfweliad dros y ffôn ond ni chafodd ei gadw. |
| Safle preifat â chaniatâd | √ | √ | | Ymweliadau | | Nid oedd neb yn bresennol adeg yr ymweliadau a daeth y ffair i ben cyn bod modd gwneud ymdrech bellach |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Ymweliad | | Y gwersyll wedi symud yn ei flaen y bore hwnnw. |
| Gwersyll heb ganiatâd | √ | | | Ymweliad | Wedi'i wrthod | Dim yn dymuno cymryd rhan ar yr adeg honno. |

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB LLAWN

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Elliw Llŷr

## 2) PARTNERIAID

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer? Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

Adran Addysg
Adran Polisi Cynllunio ar y Cyd
Gwasanaethau Tai (gweithredol a Strategol)
Aelodau Cabinet ar gyfer Tai a Chynllunio
Swyddogion Adran Tai Cyngor Mon
Tai Gogledd Cymru
Aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

Rhagfyr 2015

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

Ionawr 2016

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Adnabod anghenion lletya sipsiwn a theithwyr er mwyn sicrhau ein bod yn ateb gofynion LLC ar gynnal arolwg ac yn adnabod opsiynau ar gyfer cyfarch yr angen sydd wedi ei adnabod yn ystod yr arolwg
Bod cynllun gwaith yn cael ei lunio ac bod grwp Strategol yn cadw trosolwg o'r gwaith sydd yn cymryd lle yn dilyn cyhoeddi yr adroddiad

## 6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad? Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda pobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

| |
|---|
| Tai Gogledd Cymru wedi eu comisiynu i annog Sipsiwn a Theithwyr i gwblhau yr holiaduron yn annibynnol o'r Cyngor<br>Cyswllt uniongyrchol wedi bod drwy lythyr, ffon neu ymweliadau personol er mwyn egluro pwrpas y gwaith<br>LLC wedi creu fidio, taflenni gwybodaeth a llinell ffon wedi ei neilltuo<br>Hysbyseb wedi bod yn y 'Travellers Times' |

## 7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

| |
|---|
| Defnydd eang o dystiolaeth empirig, yn ogystal ag ffynonellau data craidd megis Cyfrifiad 2011, LLC a canlyniadau arolwg anghenion Sipsiwn a Theithwyr 2013 (Prifysgol Bangor) |

## 8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

| |
|---|
| Cyfnod penodol oedd ar gael i allu ymateb i'r ymgynghoriad ac yn anochel nid oedd pawb eisiau cymryd rhan<br>Pob ymdrech wedi ei wneud a'i gofnodi i gysylltu gyda preswylwyr mewn brics a morter ac mewn carafanau |

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

**9a)**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Positif | Argymhelliad bod safle stopio yn cael ei greu fel bod modd i Sipsiwn a Theithwyr aros am gyfnod byr gyda darpariaeth cyfleusterau yn cael eu trefnu |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Positif | Sicrhau bod lleoliad ar gyfer preswylwyr Sipsiwn a Theithwyr tymor hir a byr yn cael eu cyfarch |
| **Meithrin perthnasau da** | Positif | Cydnabyddiaeth nad oes angen cymysgu grŵp Sipsiwn a Theithwyr sydd yn aros dros dro gyda grwp sydd yn dymuno aros mewn carafán yn barhaol. Gall hyn arwain at densiynau rhwng anghenion dau wahanol grŵp o Sipsiwn a Theithwyr |

**9b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Positive | Ymateb i anghenion tymor hir o fewn y Sir er mwyn hwyluso ffordd o fyw Sipsiwn a Theithwyr |
| **Anabledd** | Positif | Arolwg yn edrych yn benodol ar anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y 5 mlynedd nesaf gyda disgwyliad bod y Cyngor yn ymateb i'r canfyddiadau |
| **Rhyw** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Ailbennu rhywedd** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Crefydd neu gred** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Yr iaith Gymraeg** | dim | Nid yw'r asesiad wedi adnabod unrhyw faterion allai gael impact negyddol ar hyn |
| **Oedran** | dim | Arolwg yn edrych yn benodol ar anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y 5 mlynedd nesaf gyda disgwyliad bod y Cyngor yn ymateb i'r canfyddiadau |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | dim | Arolwg yn edrych yn benodol ar anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y 5 mlynedd nesaf gyda disgwyliad bod y Cyngor yn ymateb i'r canfyddiadau |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | dim | Arolwg yn edrych yn benodol ar anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y 5 mlynedd nesaf gyda disgwyliad bod y Cyngor yn ymateb i'r canfyddiadau |

**10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)**<br>Astudiaeth yn edrych ar anghenion grwp penodol o fewn ein cymuned ac yn rhoi argymhellion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?** |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?** |

**11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU**

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er fod yr asesaid uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

| |
|---|
| Mae'n ofynnol bod arolwg asesu anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn digwydd bod 5 mlynedd |

**12) PENDERFYNU**

| |
|---|
| Cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad ar 19.1.16 |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
19 Ionawr 2016

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth W Roberts**

**Pwnc: Ymgynghoriad ar ddyfodol cartref Y Frondeg**

**Swyddog cyswllt: Olwen Ellis Jones**

---

**Y penderfyniad a geisir**

i) Datblygu Opsiwn 5, sef model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu ar safle Y Frondeg.

ii) Dod â defnydd cartref preswyl cofrestredig Y Frondeg i ben, yn dilyn cwblhau'r datblygiad llety newydd.

iii) Trosglwyddo'r safle i bartner gweithredol e.e. cymdeithas tai er cyd-weithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r model llety newydd.

---

**Barn yr aelod lleol**

Diolch am y cyfle i ymateb. Am nifer o flynyddoedd mae trigolion Y Frondeg wedi byw mewn cartref sy'n is na'r safon byw yn y gymdeithas heddiw. Yr wyf yn credu bod hwn yn gam ymlaen i roi safon dda o fyw i'r preswylwyr , a hefyd i staff gael gweithio mewn amgylchedd modern.

---

**Cyflwyniad**

Ers 2013 bu'r Cyngor yn cyd-drafod gyda defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a staff cartref preswyl cofrestredig Y Frondeg, ac â'r gymuned leol, ynglŷn â'u dyheadau am ddyfodol y gwasanaeth i oedolion ag anabledd dysgu. Yn dilyn y gwaith hwn ac ymchwil pellach gan swyddogion adnabuwyd 6 opsiwn i'w hystyried ar gyfer dyfodol darpariaeth ar y safle.

Penderfynodd y Cabinet ar 14 Gorffennaf 2015 i ymgynghori'n ffurfiol ar ddyfodol cartref Y Frondeg. Yr opsiwn a ffafriwyd gan y Cyngor oedd Opsiwn 5, sef datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu ar safle'r Frondeg.

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol cartref preswyl Y Frondeg, rhwng 14 Medi 2015 hyd at 30 Hydref 2015, er mwyn canfod barn y budd-ddeiliaid a'r cyhoedd ar Opsiwn 5. Cafwyd cyfle yn yr ymgynghoriad i roi barn ar y 6

opsiwn a adnabuwyd. (Rhestrir y chwe Opsiwn ar dudalen 3 o'r 'Pecyn Gwybodaeth a Holiadur', **Atodiad 1**)

Mae adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2**.
Fe gynhaliwyd Rhaglen Ymgysylltu yn ôl ym mis Medi 2013 gyda budd-ddeiliad Y Frondeg ond mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio yn benodol at yr Ymgynghoriad Ffurfiol diweddar yn unig.

Rhennir y canlyniadau yn ddwy ran:

- Y rhan gyntaf yw dadansoddiad o ganlyniadau'r holiadur a ddarparwyd (**Atodiad 2a).**
- Yr ail ran yw'r themâu a gyflwynwyd mewn gohebiaethau gan gyrff ac unigolion ar wahân i'r holiadur (**Atodiad 2b)**

**Rhesymau dros argymell dewis Opsiwn 5**

Gwnaed yr argymhelliad i ffafrio ar sail y canlynol:

- Maer cartref cofrestredig Y Frondeg yn fodel traddodiadol o ddarparu Gwasanaeth.

- Byddai angen buddsoddiad sylweddol i'r adeilad presennol.

- Nid yw'r model presennol yn cyd-fynd â Pholisi Llywodraeth Cymru na gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer gwasanaethau ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu.

- Byddai Opsiwn 5 yn cydymffurfio ag egwyddorion Polisïau Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru, gweledigaeth Cyngor Gwynedd, a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)2014. Byddai hefyd yn cynnig gwasanaeth a all fod yn fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn fwy cost effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

- Byddai Opsiwn 5 yn cyfrannu tuag at gynllunio ar gyfer cynnydd mewn galw i'r dyfodol ac yn rhoi cyfle i rai defnyddwyr sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal yn all-sirol i ddychwelyd i fyw i Wynedd.

- Byddai opsiwn 5 yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu arbenigedd yng Ngwynedd i gefnogi unigolion gydag anghenion dwys a chymhleth.

Mae mwy o fanylion yn ymwneud â'r uchod wedi ei gynnwys yn Adroddiad Cabinet 14 Gorffennaf), 2015.

Mae yn allweddol pwysleisio'r ffaith na ellir dod â defnydd presennol cartref y Frondeg i ben hyd nes y byddai'r datblygiad newydd wedi cael ei gwblhau.

**Ystyriaethau perthnasol**

Yn ystod yr ymgynghoriad amlygwyd nifer o ystyriaethau perthnasol gan yr ymatebwyr. Mae crynodeb o'r materion a godwyd yn ystod cyfnod ymgynghori wedi eu cyflwyno ar sail themâu. **(Gweler Atodiad 3)**

**Asesiad Cydraddoldeb**

Yn unol â'r ddyletswydd dan y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynnig (Gweler **Atodiad 4**). Mae'r asesiad yn amlygu'r ardrawiadau posib a'r trefniadau sydd mewn lle i ymateb. Fe noder fod yr asesiad wedi canfod ardrawiadau posib cadarnhaol ar y cyfan, gyda'r cynigion yn arwain at welliant o safbwynt cydraddoldeb i'r defnyddwyr.

Wedi ystyriaeth lawn, deuir i'r casgliad fod y Strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cyfarch yr ardrawiadau posib.

Yn ogystal, mae trefniadau mewn lle i sicrhau fod y sefyllfa'n cael ei monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. O ganlyniad, rydym yn hyderus fod canfyddiadau'r asesiad yn gyfredol ac yn berthnasol i'r penderfyniad a geisir.

**Camau nesaf ac amserlen**

Os bydd y Cabinet yn penderfynu dewis Opsiwn 5 fel y ffordd ymlaen yna bydd y gwaith ar y camau datblygol nesaf yn cychwyn ar unwaith. Bydd angen adnabod a chadarnhau partner ar gyfer y datblygiad. Mae trafodaethau dechreuol gyda Chymdeithasau Tai yn addawol ar gyfer adnabod partner.

Cam cyntaf yn unig yw ymgynghori ar ddyfodol cartref Y Frondeg. Mae angen llawer mwy o waith a chynnal trafodaethau ar gyfer cynllunio ac adnabod darpar denantiaid.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2016 bwriedir sefydlu Grŵp Ffocws gyda phrif fudd-ddeiliad er mwyn cyd-gynhyrchu darpariaeth addas a chyfrannu tuag at lunio cynlluniau llety pwrpasol ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu ar y safle.

**Camau Pellach**

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i adnabod y darpar denantiaid y byddai'r datblygiad newydd yn addas ar eu cyfer. Bydd lle i bob un preswylydd presennol Y Frondeg yn y datblygiad newydd ynghyd a rhai unigolion mewn lleoliadau all-sirol ar hyn o bryd ac unigolion a phobl ifanc o Wynedd fydd angen llety i'r dyfodol.

Bydd y Grŵp Ffocws yn fodd i lunio gwasanaeth sy'n sicrhau llais a defnyddiwr, rhoi'r person yn ganolog a datblygu gwasanaeth arloesol ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd.

**Casgliadau**

Mae canlyniad yr ymgynghoriad yn dangos ymateb cymysg i'r cynnig i ddatblygu model lletya modern a phwrpasol ar gyfer 16 oedolyn gydag anabledd dysgu.

Cafwyd ymateb gan 57 unigolyn i'r holiadur gyda mwyafrif sylweddol sef 47 ( 82 %) o'r ymatebwyr yn cefnogi opsiwn 5. 5 (8.8%)o'r ymatebwyr oedd yn cefnogi opsiwn 2, 1 (1.8%) yn cefnogi opsiwn 4 ac 1(1.8%) yn cefnogi opsiwn gwahanol na gynigwyd gyda 3 heb ateb.

Roedd yr ymgynghoriad ffurfiol yn gofyn am sylwadau a barn y budd-ddeiliad ar yr opsiwn a ffafrir gan y Cyngor. Tra roedd cefnogaeth gan nifer i ddatblygu gwasanaeth pwrpasol roedd hefyd nifer o sylwadau yn mynegi pryder gyda'r model newydd. Derbyniwyd sylwadau yn canmol y ddarpariaeth yn Y Frondeg gyda nifer yn pryderu am effaith unrhyw newid. Cafwyd 11 ymateb gan deulu defnyddwyr gwasanaeth Y Frondeg, roedd 5 yn cefnogi opsiwn 5, 5 yn cefnogi opsiynau i addasu Y Frondeg ag un heb fynegi barn. Buasai addasiadau i gartref Y Frondeg yn golygu buddsoddiad sylweddol ond o weithredu hyn ni fuasai'r gwasanaeth yn cyd-fynd gyda strategaeth Cymru na gweledigaeth Y Cyngor.

Bydd angen sicrhau fod sylw yn cael ei roi i'r holl faterion sydd wedi eu codi cyn ag yn ystod yr ymgynghoriad.

Bwriedir sefydlu grŵp ffocws gyda'r budd-ddeiliad er mwyn cyd-gynhyrchu darpariaeth addas a sicrhau mewnbwn gan amrediad o unigolion i ddatblygu gwasanaeth arloesol. Mae angen sicrhau gwasanaethau i'r dyfodol sy'n cyd-fynd gyda deddfwriaeth, strategaeth a pholisïau yn y maes anabledd dysgu ag sy'n gynaliadwy yn ogystal â rhoi ystyriaeth i'r her ariannol sy'n wynebu Cyngor Gwynedd. Mae opsiwn 5 yn gyfle i ddatblygu gwasanaeth newydd fydd yn rhoi cyfle i oedolion ag anabledd dysgu presennol ag i'r dyfodol dderbyn cefnogaeth sydd yn rhoi'r person yn ganolog ag yn hybu eu hannibyniaeth.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Er nad yw newid bob amser yn hawdd, yn yr achos hwn, mae'r achos dros newid yn un amlwg sydd yn cael ei gefnogi gan y mwyafrif llethol o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mae angen derbyn yr her hynny yn awr a symud ymlaen i'r camau allweddol o adnabod partner addas a sicrhau manylder y pecyn ariannol a fyddai'n gwireddu'r datblygiad.

**Y Swyddog Monitro:**

Yn dilyn cwblhau cyfnod ymgynghoriad mae'r Cabinet mewn sefyllfa i ddod i benderfyniad ar ddyfodol y cartref. Mae gofyn felly cloriannu'r holl ffactorau sydd yn berthnasol i'r penderfyniad gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chanlyniadau'r asesiad ardrawiad cydraddoldeb.

Amlygir bwriad i drosglwyddo'r safle i ddwylo partner gweithredol fel cyfrwng i wireddu'r opsiwn a ffafrir. Bydd angen gwaith pellach ar yr elfen yma wrth symud ymlaen i sicrhau fod y drefn penodi partner a'r amodau ynglŷn ag unrhyw drosglwyddiad yn gyfreithiol briodol ac yn gwarchod a hyrwyddo buddiannau'r Cyngor a'i ddisgwyliadau am y defnydd y datblygiad newydd.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Ni fu newid yn yr ystyriaethau / ffigyrau ariannol ar gyfer opsiwn 5 ers cyflwynwyd yr adroddiad blaenorol i Gabinet 14/07/15. Pryd hynny, nodais –

- Bu ystyriaeth briodol o'r achos busnes perthnasol, gyda'r arbedion £143,000 o'r buddsoddiad yn asesiad darbodus. Rhaid mentro er mwyn sicrhau'r arbedion, a bydd yn golygu buddsoddiad cyfalaf go sylweddol gan Gyngor Gwynedd er mwyn datblygu'r model llety cefnogol newydd wrth ymyl Cartref Frondeg, ac mae risg ariannol ynghlwm.
- Bydd gwireddu'r arbedion yn dibynnu ar y Gwasanaeth Anabledd Dysgu i lenwi'r unedau newydd (16 lle i gyd, gyda 10 eisoes yn Frondeg). Diau fe fydd y Cabinet awydd gofyn i'r Adran Oedolion gymryd camau priodol er mwyn lleddfu'r risg o lefydd gwag.
- Hefyd, gan fod yr ased ym mherchnogaeth ein 'partner' yn y fenter, dylid ymchwilio i drefniadau fel arwystl cyfreithiol ar i'r eiddo fod ar gael i'r pwrpas priodol, fel amod o'r 'grant' i'r 'partner'.

Mae'r pwyntiau uchod yn parhau'n berthnasol ac yn allweddol i lwyddiant ariannol y fenter.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 – 'Pecyn Gwybodaeth a Holiadur'**

**Atodiad 2 – Adroddiad Canlyniadau'r Ymgynghoriad**

**Atodiad 3 – Ystyriaethau Perthnasol**

**Atodiad 4 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

# PECYN GWYBODAETH
# A
# HOLIADUR

YMGYNGHORIAD AR DDYFODOL CARTREF

Y FRONDEG, MAESINCLA, CAERNARFON

**Bwriad i ddatblygu model lletya newydd yng Nghaernarfon ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu**

www.gwynedd.gov.uk/holiadurFrondeg



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# PECYN GWYBODAETH AR GYFER YR YMGYNGHORIAD

**Cyn cwblhau'r holiadur gofynnir i chwi ddarllen y pecyn gwybodaeth hwn.**

Fel rhan o'r broses ymgynghori ar ddyfodol cartref cofrestredig Y Frondeg, Maesincla Caernarfon, gyda'r bwriad i ddatblygu model lletya newydd ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu; rydym yn annog budd-ddeiliaid (sef defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd, gofalwyr, aelodau staff ac asiantaethau perthnasol) i fynegi eu barn drwy lenwi'r holiadur sydd yn dilyn y wybodaeth isod.

## CYFLWYNIAD

Mae Cabinet Cyngor Gwynedd wedi penderfynu ar 14 Gorffennaf 2015, i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol cartref Y Frondeg.

Mae cartref Y Frondeg yn gartref cofrestredig ar gyfer 10 unigolyn ag anabledd dysgu.

Mae adroddiad Cabinet a'i atodiad ar gael drwy ddilyn y linc
**www.gwynedd.gov.uk/adroddiadFrondeg**

Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn gofyn am sylwadau a barn y budd-ddeiliaid ar yr opsiwn a ffafrir gan y Cyngor ynglŷn â dyfodol cartref Y Frondeg.

## PAM FOD ANGEN NEWID?

Daw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yn Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r fframwaith gyfreithiol i wella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr sydd angen cymorth, a thrawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru drwy hyrwyddo annibyniaeth pobl, a rhoi llais cryf a rheolaeth iddynt.
Mae'r Cyngor yn parhau gyda chyfeiriad sydd wedi ei osod eisoes, i wella ansawdd bywyd unigolion gydag anabledd dysgu.

Gwneir hyn drwy weithredu rhaglen Trawsnewid Model Lletya Cyngor Gwynedd ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu, yn unol â Chynllun Comisiynu Anabledd Dysgu 2011-16 a Strategaeth Llywodraeth Cymru -'Polisi ac Arferion i Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu' 2007.
Mae cartref cofrestredig Y Frondeg, er yn darparu gofal o safon, nid yw'n fodel sydd yn cynnig cyfle i unigolion gael rheolaeth lawn ar eu bywydau.

Nid yw'n cydymffurfio gyda rhai o'r gofynion Deddf Gofal 2000. Yr Arolygaeth Gwasanaethau Gofal a Chymdeithasol Cymru (AGGCC) sydd yn gyfrifol am reoleiddio gofynion y Ddeddf yng Nghymru.

Nid yw yn cyd-fynd gyda Strategaeth Llywodraeth Cymru, a gweledigaeth Cyngor Gwynedd.

Nid yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i sicrhau'r adnoddau gorau posib ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth presennol ac ar gyfer defnyddwyr y dyfodol.

Mae'n bwysig fod yr adnoddau o'r safon uchaf bosib, yn cydymffurfio gydag egwyddorion strategaeth anabledd dysgu, yn gost effeithiol, ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â rhoi ystyried i'r her ariannol sy'n wynebu Cyngor Gwynedd

**PA OPSIYNAU SYDD WEDI EU ADNABOD?**

Adnabuwyd chwe opsiwn yn dilyn astudiaeth dichonolrwydd ar safle Frondeg.

Cwblhawyd gwaith ymgysylltu pellach gyda'r prif fudd-ddeiliaid, sef trigolion Y Frondeg, eu teuluoedd a'r staff, er mwyn iddynt gael cyfle i gynnig opsiynau ychwanegol . Cafwyd ymateb yn datgan fod yr opsiynau a nodwyd yn gynhwysfawr, ac ni chynigwyd opsiynau ychwanegol. Cyflwynwyd adroddiad i Gabinet y Cyngor ar 14 Gorffennaf 2015.

Mae gwaith pellach wedi cymryd lle i werthuso oblygiadau pob opsiwn yng nghyd destun gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Strategaeth Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru a'r her ariannol sy'n wynebu Cyngor Gwynedd, yn nodi cryfderau a gwendidau'r chwe opsiwn. (Gweler linc: **www.gwynedd.gov.uk/adroddiadFrondeg** am y rhestr gyflawn)

Gweler isod ganlyniad y gwerthusiad, sy'n crynhoi sut mae'r Cyngor wedi dod i'r canlyniad i ffafrio **Opsiwn 5**:

| Y 6 Opsiwn | Cwrdd â gofynion AGGCC | Cwrdd â Gweledigaeth Cyngor Gwynedd | Cwrdd â Strategaeth Llywodraeth Cymru | Cynllunio i'r dyfodol | Cynnig Arbedion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn1** Parhau gyda threfniadau presennol, gwaith angenrheidiol ar yr adeilad yn unig (10 preswylydd) | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| **Opsiwn 2** Addasu adeilad Y Frondeg i gwrdd â gofynion AGGCC (10 preswylydd) | ✓ | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| **Opsiwn 3** Gwneud defnydd llawn o'r adeilad ac addasu i gwrdd â gofynion AGGCC ar gyfer 14 preswylydd | ✓ | ✗ | ✗ | ✓ | ✓ |
| **Opsiwn 4** Gwneud defnydd llawn o'r adeilad ac addasu i gwrdd â gofynion AGGCC ar gyfer 14 preswylydd (1 uned ar gyfer unigolion ag anghenion dwys/ cymhleth) | ✓ | ✗ | ✗ | ✓ | ✓ |
| **Opsiwn 5** Datblygu model lletya pwrpasol newydd ar y safle ar gyfer 16 preswylydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Opsiwn 6** Ail leoli preswylwyr presennol mewn llety cefnogol yn lleol, dod a defnydd cartref preswyl i ben. | ✓ | ✓ | ✓ | ✗ | ✓ |

Mae'r pedwar opsiwn cyntaf yn cynnig amrywiad o addasiadau i adeilad presennol Y Frondeg, er gwariant sylweddol, ni fuasai'r opsiynau yma yn cyd-fynd a strategaeth Cymru a gweledigaeth y Cyngor yn yr hir dymor. Buasai opsiwn 2, 3 a 4 yn creu anhwylustod ac ansefydlogrwydd sylweddol i'r preswylwyr yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu.

Mae Opsiwn 5 ac Opsiwn 6 yn cyd-fynd gyda strategaeth a gweledigaeth y Cyngor. Nid yw Opsiwn 6 yn cynnig darpariaeth ar gyfer y dyfodol, ond ar gyfer preswylwyr presennol Y Frondeg yn unig.

Mae Opsiwn 5 yn cynnig darpariaeth fodern bwrpasol i ddefnyddwyr gwasanaeth presennol ac ar gyfer y dyfodol, ac yn rhoi cyfle i ddatblygu arbenigedd i gwrdd ag anghenion cymhleth unigolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd. Mae Opsiwn 5 hefyd yn ymateb i her ariannol Cyngor Gwynedd.

**YR OPSIWN MAE'R CYNGOR YN EI FFAFRIO A PHAM**

- **Opsiwn 5 - Datblygu model Lletya modern a phwrpasol newydd ar gyfer 16 oedolyn gydag anabledd dysgu, ar safle wrth ymyl y cartref presennol.**

**Pam ffafrio Opsiwn 5?**

- Mae'n cyd-fynd gyda'r strategaeth ranbarthol a Llywodraeth Cymru, ynghŷd â gweledigaeth y Cyngor ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.
- Mae yn cynllunio ar gyfer cynnydd mewn galw yn y dyfodol, a rhoi cyfle i unigolion sydd yn byw mewn lleoliadau all-sirol i ddychwelyd i fyw nôl i Wynedd.
- Datblygu arbenigedd yng Ngwynedd i gefnogi unigolion gydag anghenion cymhleth.
- Datblygu darpariaeth arbennig ar gyfer meysydd penodol e.e. awtistiaeth
- Cynnig cyfle i unigolion gael tenantiaeth a hybu eu hannibyniaeth dewis a rheolaeth.
- Byddai'r preswylwyr presennol yn parhau i fyw yng nghartref Y Frondeg tra byddai'r datblygiad newydd yn cael ei adeiladu.
- Gwasanaeth dwyieithog sydd yn cyd fynd â Strategaeth ' Mwy na Geiriau'.
- Byddai staff presennol Y Frondeg yn parhau i ddarparu'r gefnogaeth yn y model lletya newydd.
- Unwaith bydd y datblygiad newydd yn agor, bydd defnydd cartref cofrestredig Y Frondeg yn dod i ben.
- Mwy o ymreolaeth ariannol i'r tenantiaid i fyw bywydau llawn annibynnol
- Arbedion ariannol sylweddol i'r cyngor drwy ariannu model newydd o wasanaeth sy'n galluogi cefnogi unigolion sydd ag anghenion dwys a chymhleth
- Modd darparu gofal er mwyn sicrhau cwrdd ag anghenion unigolion yn hytrach na grŵp
- Gwneud gwell defnydd o dechnoleg gynorthwyol

- Gwell cyfle i gefnogi defnyddwyr i gyrraedd eu potensial yn y gymuned
- Hybu'r economi lleol
- Cyfleoedd datblygu sgiliau ac arbenigedd staff yn lleol
- Staff presennol yn rhoi sefydlogrwydd a chefnogaeth i'r preswylwyr trwy'r cyfnod newid

**Materion Pellach i'w Cysidro**

Angen adnabod partner i fuddsoddi yn y datblygiad newydd.

Gall fod risg ariannol gydag Opsiwn 5 o beidio gwireddu'r arbedion pe na bai modd cael 16 tenant, ond mae mesurau mewn lle gan y Gwasanaeth Oedolion i leddfu'r risg hon.

Mae Cabinet y Cyngor o'r farn bod y budd o ddod a thrigolion Gwynedd yn ôl i'r sir i fyw, ynghŷd â chynnig darpariaeth ddwyieithog, yn gwrthbwyso'r risg hon yn ogystal.

## BETH FYDDAI HYN YN EI OLYGU I BRESWYLWYR CARTREF Y FRONDEG?

Byddai'r preswylwyr presennol yn parhau i fyw yn Y Frondeg tra bydd y datblygiad newydd yn cael ei adeiladu.

Bydd y preswylwyr yn derbyn cefnogaeth gan y gweithlu presennol drwy'r cyfnod datblygu, ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth yn y datblygiad newydd.

Yn ystod yr ymgynghoriad bydd cyfarfodydd un i un yn cael eu trefnu gyda'r preswylwyr a'u teuluoedd, er mwyn trafod yr opsiynnau gyda hwy, a bydd gwasanaeth adfocatiaeth ar gael i'r preswylwyr os y dymunir.

## BETH FYDDAI HYN YN EI OLYGU I'R STAFF?

Bydd staff Y Frondeg yn parhau i weithio yn yr adeilad presenol tra byddai'r datblygiad newydd yn cael ei adeiladu, a symud i ddarparu gofal yn y datblygiad newydd.

Bydd y staff yn rhan bwysig o'r ymgynghoriad.

## SUT I YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Mae'r ymgynghoriad yn cychwyn ar 14 Medi 2015 am gyfnod o 6 wythnos, hyd at 23 Hydref 2015.

Darperir cefnogaeth briodol fel bo angen, gan gynnwys gwasanaeth adfocatiaeth. Bydd y pecyn gwybodaeth a holiadur hwn ar gael i sylw'r holl fudd-ddeiliaid.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori bydd swyddogion perthnasol o'r Cyngor ar gael i gynnal cyfarfodydd unigol gyda'r prif fudd-ddeiliaid os y dymunir, sef preswylwyr a theuluoedd Y Frondeg, a defnyddwyr gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn byw yn all-sirol, er mwyn derbyn eu sylwadau a barn.

Gellir cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn drwy gwblhau'r holiadur a'i anfon yn ôl i swyddfa'r Cyngor, neu gellir ei gwblhau ar lein drwy fynd i:
**www.gwynedd.gov.uk/holiadurFrondeg**.

Os hoffech dderbyn y pecyn gwybodaeth a holiadur mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â **01286 679 322**

Bydd cyfle i chwi fod yn rhan mewn trafodaethau pellach ynglŷn â'r math o fodel lletya i'w ddatblygu, drwy gynnwys eich manylion cyswllt ar yr holiadur, os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r ffordd ymlaen.

## Y CAMAU NESAF

Bydd y wybodaeth a gasglwyd o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei ddadansoddi ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

Bwriedir cyflwyno'r canlyniadau mewn adroddiad i Gabinet y Cyngor yn ystod mis Rhagfyr 2015 neu fis Ionawr 2016, i gael penderfyniad ar ddyfodol cartref Y Frondeg.

Ni fydd penderfyniad terfynol ar ddyfodol y ddarpariaeth yn Y Frondeg yn digwydd nes bydd canlyniadau'r ymgynghoriad wedi eu derbyn a'u cloriannu gan y Cabinet.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gloriannu effaith y penderfyniad ar unigolion a grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb cynhwysfawr wedi ei lunio ar gyfer yr ymgynghoriad, a bydd yn rhan o'r adroddiad canlyniadau ac argymhelliad i'r Cabinet wneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.

# HOLIADUR

Fel rhan o'r broses ymgynghori ar ddyfodol cartref cofrestredig Y Frondeg, Maesincla Caernarfon, a'r bwriad i ddatblygu model llety newydd ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu, rydym yn annog defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd, gofalwyr, aelodau staff ac asiantaethau perthnasol i fynegi eu barn drwy lenwi'r holiadur hwn.

**1. Ym mha rôl rydych yn ymateb i'r holiadur hwn, rhowch groes (x) yn y bocs mwyaf perthnasol.**

**a) Defnyddiwr gwasanaeth:**

- sy'n byw yn Y Frondeg
- sydd ar hyn o bryd yn byw yn all-sirol
- sydd o dan 18 oed
- sydd yn oedolyn dros18 oed

**b) Perthynas, gofalwr, neu ffrind i berson gydag anabledd dysgu:**

- sy'n byw yn Y Frondeg
- sydd ar hyn o bryd yn byw yn all-sirol
- sydd o dan 18 oed
- sydd yn oedolyn dros 18 oed

**c) Aelod o staff sy'n gweithio yn Y Frondeg**

**d) Aelod o staff sy'n gweithio yn y sector Iechyd, Gofal a Lles**

**e) Cynghorydd Cyngor Gwynedd /Cymuned**

**f) Aelod o asiantaeth, grwpiau lleol, cymdeithasau**

**Nodwch enw:**

**g) Y Cyhoedd**

**h) Arall (nodwch)**

**2. A ydych wedi darllen y wybodaeth ynghlwm sy'n egluro'r rhesymau dros gynnal ymgynghoriad ar ddyfodol y cartref?**

Do ☐ Naddo ☐

**3. Mae'r Cyngor wedi ystyried 6 opsiwn. A oes opsiwn neu opsiynau eraill y gallwch feddwl amdanynt fyddai'n ateb anghenion oedolion gydag anabledd dysgu yn y dyfodol, a fyddai'n gost effeithiol?**

Oes ☐ Nac Oes ☐

Manylwch os oes gennych opsiwn arall.

**4. Mae'r Cyngor yn ffafrio Opsiwn 5 sef:**

Datblygu model lletya modern a phwrpasol newydd ar gyfer 16 oedolyn gydag anabledd dysgu ar safle drws nesaf i'r cartref presennol.

Bydd defnydd cartref preswyl presennol Y Frondeg yn dod i ben, unwaith bydd y datblygiad newydd wedi ei gwblhau.

A ydych yn cefnogi bwriad Cyngor Gwynedd i ddatblygu model llety newydd ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu?

Ydw ☐ Nac Ydw ☐ Dim Barn ☐

Unrhyw sylwadau

**5. Os nad ydych yn cefnogi Opsiwn 5, pa opsiwn ydych yn ffafrio a pham?**

Rhowch ✓ mewn un bocs

| | | |
|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | Parhau gyda threfniadau presennol (10 unigolyn) | ☐ |
| **Opsiwn 2** | Addasu i gwrdd â gofynion AGGCC (10 unigolyn) | ☐ |
| **Opsiwn 3** | Addasu i wneud defnydd llawn o'r adeilad a chwrdd gofynion AGGCC (14 unigolyn) | ☐ |
| **Opsiwn 4** | Addasu i wneud defnydd llawn o'r adeilad a chwrdd gofynion AGGCC ( 14 unigolyn, gyda uned ar gyfer unigolion ag anghenion dwys) | ☐ |
| **Opsiwn 6** | Ail leoli preswylwyr presennol mewn llety cefnogol yn lleol | ☐ |
| **Opsiwn Arall** | Os ydych wedi ei adnabod mewn ymateb i gwestiwn 3 | ☐ |

Rheswm dros eich dewis

**6. Os penderfynir symud ymlaen gyda datblygu model lletya newydd, pa fath o lety fuasech yn ffafrio?**

| | ✓ neu ✗ |
|---|---|
| 1. Eiddo ar ben eich hun | ☐ |
| 2. Eiddo i rannu – mewn grŵp bychan 2/3 | ☐ |
| 3. Eiddo i rannu – mewn grŵp mwy 4/6 | ☐ |
| 4. Arall - disgrifiwch | ☐ |

Arall

## * Cwestiwn yn unig ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn byw tu allan i Wynedd.

**7. Os byddai cyfleusterau lletya modern pwrpasol ar gael yng Ngwynedd ar eich cyfer, fuasai gennych ddiddordeb dod yn ôl i fyw i'r Sir?**

Oes ☐ Nac Oes ☐ Dim yn Siŵr ☐

Esboniwch paham

**8. Oes gennych unrhyw sylwadau pellach?**

***Bydd unrhyw wybodaeth sy'n cael ei ddarparu gennych yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Ni fydd hi'n bosib adnabod unigolion mewn unrhyw adroddiad.***

## 9. Manylion Cyswllt

Os dymunwch gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau pellach, gofynnwn i chwi gwblhau'r rhan isod.

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif Ffôn: E bost:

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cwblhau eich holiadur a'i ddychwelyd i sylw'r Rheolwr Ymgysylltu erbyn **23 Hydref 2015**, drwy bostio at:

Wyn Meredydd Hughes
Rheolwr Ymgysylltu,
Adran Iechyd, Gofal a Llesiant Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl,
Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

**Ymholiadau :**

Ffôn: **01286 679 322** E bost: **wynmeredyddhughes@gwynedd.gov.uk**

Gellir hefyd cwblhau'r holiadur ar lein ar: **www.gwynedd.gov.uk/holiadurFrondeg**

Os hoffech dderbyn y pecyn gwybodaeth a holiadur mewn iaith neu fformat arall cysylltwch â **01286 679 322**

***DIOLCH YN FAWR AM GYMRYD RHAN YN YR YMGYNGHORIAD***

Nodyn
Deddf Diogelu Data 1998: Cyngor Gwynedd yw'r rheolwr data at ddibenion y deddf. Defnyddir y wybodaeth ar y ffurflen at ddibenion swyddogaethau corfforaethol. Gellir ei ddatblygu i wasanaethau eraill y Cyngor ac asiantaethau perthnasol eraill yn unol â chofrestriad y Cyngor o dan y Ddeddf.

# Adroddiad ar ganlyniadau ymgynghoriad ar ddyfodol cartref Y Frondeg

**Cyflwyniad**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol cartref preswyl cofrestredig Y Frondeg, rhwng 14 Medi a 30 Hydref 2015, gyda'r bwriad o ddatblygu model llety newydd ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu ar yr un safle.

Bu cyd-drafod cychwynnol cynharach yn ystod 2013 a 2014 gyda defnyddwyr, teuluoedd a staff Y Frondeg.

**Y Broses Ymgynghori**

Fel rhan o'r broses ymgynghori, paratowyd 'Pecyn Gwybodaeth a Holiadur' ar gyfer rhannu gwybodaeth a rhoi cyfle i fudd-ddeiliaid fynegi eu barn. Datblygwyd fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r 'Pecyn Gwybodaeth a Holiadur'. Roedd y Pecyn Gwybodaeth a Holiadur hwn ar gael ar wefan y Cyngor, gyda thudalen wedi ei sefydlu yn uniongyrchol ar gyfer rhannu gwybodaeth am yr ymgynghoriad.

Hysbyswyd holl gynghorwyr Cyngor Gwynedd am yr ymgynghoriad drwy gynnwys gwybodaeth yn y Rhaeadr, yn ogystal â gyrru'r Pecyn Gwybodaeth a Holiadur yn uniongyrchol at aelodau o'r Cabinet a chynghorwyr perthnasol, i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad ac i gymryd rhan ynddo: sef y Cynghorwyr Gareth Roberts, Ioan Thomas, Elin Walker Jones, Peter Reed, a Glyn Thomas.

Anfonwyd gwybodaeth at yr Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, Cyngor Tref Caernarfon, Mantell Gwynedd, Cynllun Cymunedol Arfon, cysylltiadau gwasanaeth Iechyd, a Grŵp Awtistiaeth Gwynedd a Môn.

Ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori rhannwyd y Pecyn gwybodaeth a Holiadur gyda theuluoedd preswylwyr y Frondeg drwy'r post, gyda chynnig i drefnu cyfarfod un-i-un pe dymunid. Cynhaliwyd cyfarfod gyda staff cartref y Frondeg a rhannwyd y pecyn gwybodaeth.

Gofynnwyd i weithiwyr achos/cymdeithasol gysylltu'n uniongyrchol gyda theuluoedd defnyddwyr gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal tu allan i'r Sir.

Cysylltwyd gyda gwasanaeth Derwen, sef y tîm integredig ar gyfer plant anabl a phlant ag anghenion ychwanegol, ar gyfer rhannu gwybodaeth am yr ymgynghoriad gyda phlant a theuluoedd oed trosiannol 14 - 18 oed.

Yn ogystal hysbysebwyd yr ymgynghoriad i holl ddefnyddwyr gwasanaeth sydd ar gofrestr anabledd dysgu Cyngor Gwynedd yn uniongyrchol drwy'r post, drwy hysbyseb wedi ei gynnwys yn ddogfen pecyn ymgysylltu 'Symud Ymlaen – Sut i ddarparu gwasanaethau anabledd dysgu yn y dyfodol' cyn i'r cyfnod ymgynghori ddechrau.

Rhannwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn y wasg leol drwy hysbyseb a datganiadau i'r wasg, a hefyd drwy gyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter.

Datblygwyd gwe-dudalen ar gyfer yr ymgynghoriad gyda dolen i'r Pecyn Gwybodaeth a Holiadur i naill ai ei lenwi ar-lein neu lawr lwytho copi caled. Roedd y fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' ar y dudalen yn ogystal ar gyfer ei lawr lwytho, gwybodaeth am sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a chyfeiriadau at rifau cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau.

Fe gomisiynwyd y Gwasanaeth Eiriolaeth i ymgymryd â thrafodaethau unigol gyda defnyddwyr gwasanaeth pe dymunid.

**Cyfarfodydd**
Cynigiwyd cyfarfod gyda theuluoedd y defnyddwyr presennol Y Frondeg, yn ogystal â chysylltu gyda theuluoedd defnyddwyr sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal y tu allan i'r Sir i drafod opsiynau ymhellach.

Trefnwyd tri cyfarfod un i un gyda theuluoedd preswylwyr y Frondeg yn dilyn cais gan y teulu. Trefnwyd un cyfarfod gyda chynghorydd.

**Materion y tynnwyd sylw atynt**
Cydnabyddwn fod problem wedi codi gyda chwblhau holiadur ar lein rhwng 16 Medi a 22 Medi, a oedd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth. Oherwydd hyn, penderfynwyd ymestyn cyfnod yr ymgynghoriad am wythnos ychwanegol. Rhoddwyd datganiad ar we-dudalen yr ymgynghoriad i egluro am y sefyllfa.
Atgyweiriwyd y broblem gan uned TG y Cyngor cyn gynted â phosib.

Tudalen 7 y 'Pecyn Gwybodaeth a Holiadur': mae anghysondeb argraffu rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg.
Yn y Gymraeg mae'n nodi ar 1c) Aelod o staff sy'n gweithio yn Y Frondeg,
yn y fersiwn Saesneg mae'n nodi 1c) Gwynedd/Community Councillors a hefyd yn 1e)

Tudalen 4 y 'Pecyn Gwybodaeth a Holiadur' – mae'n rhestru o dan 'Pam Ffafrio Opsiwn 5'

- Datblygu darpariaeth arbennig ar gyfer meysydd penodol e.e. awtistiaeth.

Cyfeiria hyn at berson sydd ag anabledd dysgu ond hefyd ar y sbectrwm awtistiaeth, gan mai datblygiad lletya ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu rydym yn ei drafod, yn hytrach nag unigolion gydag awtistiaeth yn unig.

## Canlyniadau'r Holiadur

**Nifer o ymatebion**

Derbyniwyd 36 holiadur papur drwy'r post.


Roedd 37 o bobl wedi edrych ar yr holiadur ar-lein; fodd bynnag, dim ond 21 o'r rhain sydd wedi cwblhau'r holiadur.

Felly mae cyfanswm o 57 holiadur ar gael i'w ddadansoddi.

**Cwestiwn 1**: Ym mha rôl rydych yn ymateb i'r holiadur hwn?

Gwelir fod bron i hanner yr ymatebwyr (47.4% (N=27)) yn berthynas, gofalwr neu ffrind i berson ag anabledd dysgu, tra bod 19.3% (N=11) yn aelod o staff sy'n gweithio yn Y Frondeg, 15.8% (N=9) yn aelod o staff sy'n gweithio yn y sector Iechyd, Gofal a Lles, 7.0% (N=4) yn aelod o'r cyhoedd, ac 5.3% (N=3) yn ddefnyddiwr gwasanaeth.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Defnyddiwr gwasanaeth** | **3** | **5.3** |
| - sy'n byw yn Y Frondeg | 1 | 1.8 |
| - sydd ar hyn o bryd yn byw yn all-sirol | 2 | 3.5 |
| - sydd o dan 18 oed | 0 | 0.0 |
| - sydd yn oedolyn dros 18 oed | 0 | 0.0 |
| **Perthynas, gofalwr, neu ffrind i berson gydag anabledd dysgu** | **27** | **47.4** |
| - sy'n byw yn Y Frondeg | 11 | 19.3 |
| - sydd ar hyn o bryd yn byw yn all-sirol | 3 | 5.3 |
| - sydd o dan 18 oed | 4 | 7.0 |
| - sydd yn oedolyn dros 18 oed | 9 | 15.8 |
| **Aelod o staff sy'n gweithio yn Y Frondeg** | **11** | **19.3** |
| **Aelod o staff sy'n gweithio yn y sector Iechyd, Gofal a Lles** | **9** | **15.8** |
| **Cynghorydd Cyngor Gwynedd / Cynghorydd Cymuned** | **0** | **0.0** |
| **Aelod o asiantaeth, grwpiau lleol, cymdeithasau** | **2** | **3.5** |
| **Y cyhoedd** | **4** | **7.0** |
| **Arall** | **1** | **1.8** |
| | | *N=57* |


Ym mha rôl ydych yn ymateb i'r holiadur hwn?
Canran (%)
0.0
5.0
10.0
15.0
20.0
25.0
30.0
35.0
40.0
45.0
50.0
5.3% (N=3)
Defnyddiwr gwasanaeth
47.4% (N=27)
Perthynas, gofalwr, neu ffrind i berson gydag anabledd dysgu
19.3% (N=11)
Aelod o staff sy'n gweithio yn Y Frondeg
15.8% (N=9)
Aelod o staff sy'n gweithio yn y sector Iechyd, Gofal a Lles
0.0% (N=0)
Cynghorydd Cyngor Gwynedd / Cymuned
3.5% (N=2)
Aelod o asiantaeth, grwpiau lleol, cymdeithasau
7.0% (N=4)
Y cyhoedd
1.8% (N=1)
Arall
N=57

**Cwestiwn 2**: A ydych wedi darllen yr wybodaeth ynghlwm, sy'n egluro'r rhesymau dros gynnal ymgynghoriad ar ddyfodol y cartref?

Roedd 93% (N=53) o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod wedi darllen y pecyn gwybodaeth.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Do | 53 | 93.0 |
| Naddo | 3 | 5.3 |
| Dim ateb | 1 | 1.8 |
| | | *N=57* |

**Cwestiwn 3**: Mae'r Cyngor wedi ystyried 6 opsiwn. A oes opsiwn neu opsiynau eraill y gallwch feddwl amdanynt fyddai'n ateb anghenion oedolion gydag anabledd dysgu yn y dyfodol, a fyddai'n gost effeithiol?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 4 | 7.0 |
| Nac oes | 49 | 86.0 |
| Dim ateb | 4 | 7.0 |
| | | *N=57* |

O'r 4 person oedd wedi nodi 'Oes', dim ond un ateb oedd yn wahanol i'r 6 opsiwn y mae'r Cyngor wedi eu hystyried yn barod.

Yr un awgrym gwahanol oedd, creu uned newydd ar gyfer pobl efo Awtistiaeth / Anableddau dysgu cymhleth ar wahân a chadw Frondeg fel y mae, ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu, sy'n gallu byw yn y gymuned efo cefnogaeth.

**Cwestiwn 4**: A ydych yn cefnogi bwriad Cyngor Gwynedd i ddatblygu model llety newydd ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu?

Roedd 82.5% (N=47) o'r ymatebwyr yn cytuno gyda ffafrio Opsiwn 5 ar gyfer datblygu model lletya newydd ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 47 | 82.5 |
| Nac ydw | 6 | 10.5 |
| Dim barn | 3 | 5.3 |
| Dim ateb | 1 | 1.8 |
| | | *N=57* |

Gellir dadansoddi'r ymatebion fesul math o berson.  Dengys y tabl isod i nodi ym mha rôl mae'r ymatebwyr wedi ymateb i'r holiadur.

| | Ydw | Nac ydw | Dim barn | Dim ateb | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Defnyddiwr gwasanaeth | 1 | 0 | 2 | 0 | **3** |
| Perthynas, gofalwr, neu ffrind i berson gydag anabledd dysgu (sydd ddim yn byw yn Y Frondeg) | 16 | 0 | 0 | 0 | **16** |
| Perthynas, gofalwr, neu ffrind i berson gydag anabledd dysgu (sy'n byw yn Y Frondeg) | 5 | 5 | 1 | 0 | **11** |
| Aelod o staff sy'n gweithio yn Y Frondeg | 11 | 0 | 0 | 0 | **11** |
| Aelod o staff sy'n gweithio yn y sector Iechyd, Gofal a Lles | 9 | 0 | 0 | 0 | **9** |
| Cynghorydd Cyngor Gwynedd / Cynghorydd Cymuned | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Aelod o asiantaeth, grwpiau lleol, cymdeithasau | 2 | 0 | 0 | 0 | **2** |
| Y cyhoedd | 3 | 0 | 0 | 1 | **4** |
| Arall | 0 | 1 | 0 | 0 | **1** |
| **Cyfanswm** | **47** | **6** | **3** | **1** | **57** |

Derbyniwyd nifer o sylwadau fel rhan o'r cwestiwn yma. O'r sylwadau, roedd nifer o themâu a chwestiynau yn codi.

| Themâu o sylwadau'r ymatebwyr a oedd yn **cytuno** gyda ffafrio Opsiwn 5: | Themâu o sylwadau'r ymatebwyr **nad oedd yn cytuno** gyda ffafrio Opsiwn 5: |
|---|---|
| • Dylid ystyried Uned ar gyfer unigolion anghenion dwys/cymhleth<br>• Cyfle i ddatblygu eiddo addas<br>• Cyfle i unigolion dychwelyd i'w cymunedau<br>• Angen ystyried Awtistiaeth ar wahân<br>• Angen i'r defnyddwyr gwasanaeth barhau i fyw efo'i gilydd<br>• Darpariaeth Gymraeg yn holl bwysig<br>• Angen amrywiaeth o gyfleoedd i bobl gydag anableddau dysgu<br>• Cynnig gwasanaeth â darpariaeth arbennig mewn meysydd penodol yn ddatblygiad cadarnhaol. | • Teimlad clinigaidd<br>• Ymarfer er mwyn arbed costau yn hytrach na rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog<br>• Defnyddiwr gwasanaeth yn hapus iawn yn Frondeg |

Rhai cwestiynau a oedd yn codi fel ymateb i'r cwestiwn yma oedd:

- A fydd yn rhaid talu costau rent yn ogystal â thalu am ofal?
- A fydd y cleientiaid yn byw gyda gofalydd trwy'r adeg?
- Beth fydd yn digwydd i'r adeilad presennol neu'r lleoliad mae arno?

**Cwestiwn 5**: Os nad ydych yn cefnogi Opsiwn 5, pa opsiwn ydych yn ffafrio a pham?
***Roedd y cwestiwn yma wedi ei neilltuo ar gyfer ymateb gan bobl oedd wedi ateb 'Nac ydw' neu 'Dim barn' yng nghwestiwn 4***

Gofynnir i'r unigolion oedd wedi nodi nad oeddent yn cytuno gydag Opsiwn 5 neu wedi nodi 'dim barn' o ran pa opsiwn fyddai orau ganddynt.


O'r 9 a oedd wedi nodi nad oedden nhw ddim yn cytuno, neu heb ddim barn, roedd 5 (55.6%) ohonynt yn nodi mai Opsiwn 2 roeddent yn eu ffafrio, un (11.1) yn ffafrio Opsiwn 4, ac un (11.1) yn ffafrio opsiwn roeddent wedi nodi yn flaenorol.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Opsiwn 2 | 5 | 55.6 |
| Opsiwn 4 | 1 | 11.1 |
| Opsiwn arall | 1 | 11.1 |
| Dim ateb | 2 | 22.2 |
| | | *N=9* |

Dengys y tabl isod themâu o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ôl yr opsiwn a ffafriwyd gan yr ymatebwyr nad oedd yn cytuno gyda ffafrio Opsiwn 5.

| Opsiwn a ffafriwyd | Themâu a godwyd o'r sylwadau |
|---|---|
| Opsiwn 2 | • Effaith negyddol ar y defnyddwyr gwasanaeth oherwydd y newidiadau i'w arferion a'u cartref<br>• Angen cadw'r amgylchedd sy'n gyfarwydd i'r defnyddwyr<br>• Opsiwn 2 yr opsiwn gorau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth<br>• Ddim angen newid rhywbeth sy'n gweithio'n iawn |
| Opsiwn 4 | • Llai o aflonyddwch i'r defnyddwyr gwasanaeth |
| Opsiwn arall | • Diffygion yn opsiwn 5 - ariannol, egwyddorol, o ran anghenion yr unigolion, ac yn y broses ymgynghori |

Dengys y graff isod crynodeb o'r opsiynau a ffafriwyd gan ymatebwyr yr holiadur.


Crynodeb o'r opsiynau a ffafriwyd gan yr ymatebwyr
Canran
90.0
80.0
70.0
60.0
50.0
40.0
30.0
20.0
10.0
0.0
0.0% (N=0)
8.8% (N=5)
0.0% (N=0)
1.8% (N=1)
82.5% (N=47)
0.0% (N=0)
1.8% (N=1)
5.3% (N=3)
Opsiwn 1
Opsiwn 2
Opsiwn 3
Opsiwn 4
Opsiwn 5
Opsiwn 6
Opsiwn arall
Dim ateb

Cwestiwn 6: Os penderfynir symud ymlaen gyda datblygu model lletya newydd, pa fath o lety fuasech yn ei ffafrio?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Eiddo ar ben eich hun | 10 | 17.5 |
| Eiddo i rannu – mewn grŵp bychan 2/3 | 24 | 42.1 |
| Eiddo i rannu – mewn grŵp mwy 4/6 | 8 | 14.0 |
| Arall | 15 | 26.3 |
| | | N=57 |

Derbyniwyd nifer o sylwadau fel ymateb i gwestiwn 6.
Rhoddwyd y themâu a godir o'r sylwadau yma isod:

- Pob un o'r uchod yn anaddas
- Un adeilad mawr gyda chanolfan ddydd
- Un adeilad gydag adrannau bychain ynddo
- Llety i 3 neu 4
- Amrywiol
- Dibynnu beth yw anghenion yr unigolion
- Model presennol y Frondeg

**Cwestiwn 7**: Pe byddai cyfleusterau lletya modern pwrpasol ar gael yng Ngwynedd ar eich cyfer, a fuasai gennych ddiddordeb dod yn ôl i fyw i'r Sir?
***Cwestiwn yn unig ar gyfer 'Perthynas, gofalwr, neu ffrind i berson gydag anabledd dysgu - sydd ar hyn o bryd yn byw yn all-sirol' neu 'Defnyddiwr gwasanaeth sydd ar hyn o bryd yn byw yn all-sirol' yng nghwestiwn 1***

O'r 5 person a atebodd y cwestiwn yma, roedd 4 (80%) ohonynt â diddordeb dod yn ôl i fyw i'r Sir, gydag un (20%) yn nodi nad oedd eisiau symud yn ôl i'r Sir.

Rhesymau gan ymatebwyr ar gyfer symud yn ôl i'r Sir oedd bod yn agosach i deulu a ffrindiau. Rheswm dros beidio symud yn ôl i'r Sir, oedd eu bod yn teimlo'n saffach yn y lleoliad y maent yn byw ynddo ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 8**: Oes gennych unrhyw sylwadau pellach?
Rhai o'r themâu a godwyd yn y sylwadau pellach oedd:

- Angen adnabod unigolion sy'n mynd yno i fyw
- Sicrhau bod staff wedi eu hyfforddi i'r lefel sydd ei angen
- Cymorth mawr fod defnyddwyr yn mynd i allu fod yn agos at deuluoedd
- Anhapusrwydd yn y broses ymgysylltu
- Oni ellir gwella cartref Y Frondeg fel y mai?
- Rhai awgrymiadau o ran sut y dylai model newydd edrych.

**Cwestiwn 9**: Os dymunwch gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau pellach, gofynnwn i chi gwblhau'r rhan isod.

Roedd 19 person (33.3%) wedi gadael eu manylion cyswllt ac yn dymuno cymryd rhan mewn trafodaethau pellach.

## ATODIAD 2B

### Themâu ar sylwadau a dderbyniwyd ar wahân i'r holiadur

Yn ystod yr ymgynghoriad amlygwyd nifer o ystyriaethau perthnasol gan yr ymatebwyr. Y prif bwyntiau a godwyd i'r Cyngor eu hystyried er mwyn gwneud penderfyniad yw:

**Gwasanaeth Presennol**

- Sylw amlwg i'r ganmoliaeth i staff cartref Y Frondeg am ansawdd y gofal maent wedi'i ddarparu yn y cartref dros y blynyddoedd.
- Defnyddiwr gwasanaeth yn hapus iawn yn Y Frondeg
- A ellir gwella cartref Frondeg?
- Newid i ddefnyddwyr gwasanaeth yn creu ansicrwydd
- Angen i breswylwyr y Frondeg barhau i fyw hefo'i gilydd

**Gwasanaeth Arbenigol**

- Cytundeb cyffredinol a chroesawu'r egwyddor o ddod ag unigolion all-sirol yn ôl i Wynedd
- Cyfle i unigolion ddychwelyd i'w cymunedau
- Cymorth mawr fod defnyddwyr yn mynd i allu bod yn agos at eu teuluoedd.
- Ddim yn briodol dod â phawb sydd yn derbyn gofal yn all-sirol yn ôl i Wynedd
- Sylw wedi ei roi fod Awtistiaeth yn gyflwr ynddo ei hun, ac nad yw'n cael ei nodi fel anabledd dysgu.
- Dim cyfeiriad at awtistiaeth o fewn y Pecyn Gwybodaeth
- Mwy o wybodaeth ar sut mae darpariaeth arbenigol ar gyfer awtistiaeth a data wedi arwain at gynllunio'r opsiynau.
- Dim wedi cael mewnbwn gan Gynghorydd Pencampwyr Awtistiaeth a Grŵp Asperger/Awtistiaeth Gwynedd a Môn
- Dylid cael llety ar wahân, un i breswylwyr Frondeg ac un arall i unigolion ag anghenion cymhleth
- Defnyddwyr all sirol mewn lleoliadau llwyddiannus, sy'n cwrdd ag anghenion cymhleth, buasai unrhyw newid yn cael effaith negyddol ar y defnyddwyr.
- Yr angen am lefel uchel o sgiliau arbenigol ar gyfer staff a hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff

**Cynlluniau**

- 16 yn nifer uchel o bobl i letya mewn un safle
- Oes cynllun ar gyfer y datblygiad?
- Pa adnoddau eraill fydd yn cael ei adeiladu ar y safle
- Angen adnabod y math o unigolion sy'n mynd i fyw yn y datblygiad newydd
- Sicrhau fod staff wedi ei hyfforddi i'r lefel sydd angen
- Awgrymiadau ar sut dylai'r datblygiad newydd edrych

**Cost**

- O ble mae £3.8 miliwn costau cyfalaf yn dod?
- Ydi'r gost uchod yn cynnwys costau dymchwel ac atgyweirio'r safle
- Amheuon ynghylch sail y costau

**Cyfathrebu**

- Dim cynnig adfocatiaeth i gynnwys pobl all sirol yn yr ymgynghoriad
- Angen sicrhau fod cyd-gynhyrchu yn digwydd.
- Cyfathrebu effeithiol a clir
- Darpariaeth Gymraeg yn holl bwysig

**Ymgynghoriad**

- Pryder ynglŷn ag ansawdd yr ymgynghoriad
- Dylai fod dau ymgynghoriad ar wahân ar gyfer : 1. Dod a phobl all-sirol yn ôl i Wynedd, 2. Ar gyfer datblygiad arbenigol i unigolion ac anghenion dwys a chymhleth ar safle Frondeg

# Ystyriaethau Pellach

**Atodiad 3**

| | Materion a Godwyd | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| 1. | **Gwasanaeth Arbenigol ac adnabod anghenion**<br><br>• Roedd croeso cyffredinol i'r egwyddor o alluogi unigolion sy'n derbyn gofal all-sirol ar hyn o bryd i ddod yn ôl i Wynedd. Byddai'n gyfle i unigolion ddychwelyd i'w cymunedau, a byddai o gymorth mawr fod defnyddwyr yn gallu bod yn agos at eu teuluoedd. Roedd cydnabyddiaeth yr un pryd na fyddai hyn yn briodol yn achos pawb. Roedd llawer o'r defnyddwyr all-sirol hyn mewn lleoliadau llwyddiannus, sy'n diwallu anghenion cymhleth, a gallai unrhyw newid cael effaith negyddol arnynt. | • Yn dilyn Adroddiad Winterbourne mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i flaenoriaethu anghenion llety a chefnogaeth unigolion sy'n byw tu allan i'r Sir.<br><br>• Byddwn yn cydweithio yn agos gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd/gofalwyr i asesu eu hanghenion<br><br>• Byddwn yn sicrhau cefnogaeth a chymorth i'r preswylwyr presennol Y Frondeg a darpar denantiaid eraill fydd yn cael eu hadnabod.<br><br>• Byddwn yn gweithio'n agos gyda hwy er mwyn sicrhau bod eu llesiant a'u hanghenion gofal yn cael ei adnabod a'i ddiwallu. |
| | • Byddai cynnig gwasanaeth a darpariaeth arbennig mewn meysydd penodol yn ddatblygiad cadarnhaol. Roedd angen am lefel uchel o sgiliau arbenigol a hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff. | • Bydd rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr yn cael ei drefnu er mwyn sicrhau fod gan y staff y sgiliau hanfodol i gefnogi unigolion gydag anghenion dwys a chymhleth a lle yn briodol i ddatblygu sgiliau arbenigol.<br><br>• Byddwn yn cydweithio yn agos gyda'r gwasanaeth iechyd er mwyn sicrhau mewnbwn amlddisgyblaethol. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Pwysleisiwyd yr angen am ystyried Awtistiaeth ar wahân. Dywedwyd bod angen mwy o wybodaeth am ddarpariaeth arbenigol ar gyfer Awtistiaeth. | • Byddwn yn sicrhau mewnbwn wrth gynllunio'r Gwasanaeth gan arbenigwyr a mudiadau perthnasol yn y maes Awtistiaeth ynghyd ac arbenigwyr mewn meysydd perthnasol eraill.<br><br>• Bydd canlyniadau gwaith ymchwil ynghyd a gwybodaeth arbenigol yn y gwahanol feysydd yn allweddol wrth ddylunio'r adeiladau cynllunio'r gwasanaeth a sicrhau hyfforddiant ynglŷn â datblygiadau diweddar ar gyfer y staff. |
| | • Mae'n bwysig cadw mewn cof fod newid i ddefnyddwyr gwasanaeth yn creu ansicrwydd a bod angen sicrhau bod cyd-gynhyrchu datrysiadau yn digwydd. | • Bwriedir sefydlu Grŵp Ffocws gyda chynrychiolaeth ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd/gofalwyr, mudiadau, staff proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, therapydd galwedigaethol, nyrsys, seicolegwyr er mwyn sicrhau mewnbwn i gynllunio'r datblygiad newydd.<br><br>• Byddwn yn sicrhau bod cefnogaeth, cyfathrebu a chynllunio gofalus gyda phob darpar ddefnyddiwr gwasanaeth a'u teuluoedd/gofalwyr er mwyn eu cefnogi drwy'r cyfnod newid. |
| | • Roedd angen adnabod y math o anghenion fuasai gan yr unigolion a fydd yn byw yn y datblygiad newydd er mwyn sicrhau gwasanaeth addas ar eu cyfer. | • Bydd asesiad o anghenion pob darpar denant er mwyn sicrhau gwasanaeth person canolog sy'n cwrdd â'u hanghenion<br><br>• Byddwn yn sicrhau bod lles defnyddwyr gwasanaeth yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | cael blaenoriaeth a'u llais yn cael ei glywed trwy grwpiau ffocws ac eiriolaeth. |
| 2. | **Cyfathrebu**<br><br>• Pwysleisiwyd yr angen am gyfathrebu effeithiol a chlir gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ac am sicrhau darpariaeth Gymraeg. | • Bwriedir sefydlu grŵp ffocws gyda'r budd-ddeiliad er mwyn sicrhau cyd-gynhyrchu<br><br>• Byddwn yn sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda'r prif fudd-ddeiliaid, a rhoi llais i'r defnyddiwr gwasanaeth ynghyd a chynnig diweddariad rheolaidd o'r grwpiau budd-ddeiliaid.<br><br>• Byddwn yn sicrhau darpariaeth ddwyieithog yn y datblygiad newydd.<br><br>• Bydd gwasanaeth eiriolaeth ar gael er mwyn sicrhau llais y defnyddiwr ac i hwyluso cyfathrebu effeithiol. |
| 3. | **Y gwasanaeth presennol**<br><br>• Roedd canmoliaeth uchel i staff cartref Y Frondeg am ansawdd y gofal y maent wedi'i ddarparu yn y cartref dros y blynyddoedd. Dywedodd defnyddiwr gwasanaeth ei fod yn hapus iawn yn Y Frondeg. Pwysleisiwyd yr angen i breswylwyr y Frondeg allu parhau i fyw gyda'i gilydd. | • Y bwriad yw bydd staff Y Frondeg yn trosglwyddo i'r model lletya newydd ac yn cael cynnig hyfforddiant er eu datblygu ymhellach ac i gryfhau'r gwasanaethau a ddarperir.<br><br>• Bydd hyn yn gymorth mawr i'r preswylwyr cyfredol i ddygymod â symud pan fydd y datblygiad newydd yn barod. |
| 4. | **Costau**<br><br>• Roedd rhai'n holi o ble mae'r £3.8 miliwn mewn costau cyfalaf yn dod yn ystod cyfnod ariannol heriol i awdurdodau lleol. | • Bydd angen adnabod partner ar gyfer y datblygiad i ariannu'r cynllun a bydd cydweithrediad rhwng y Cyngor a'r partner datblygol i ariannu'r datblygiad |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar y cyd. |
| | • Wrth holi ynghylch sail i'r costau gofynnwyd a yw'r gost hon yn cynnwys costau dymchwel ac atgyweirio'r safle. | • Amcangyfrif o'r gost ar sail yr wybodaeth gyfredol sy'n cael ei gyflwyno. Bydd costau terfynol yn cael eu paratoi yn dilyn cytuno cynlluniau'r datblygiad a'r lefel gefnogaeth fydd ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaeth.<br><br>• Bydd angen asesu anghenion gofal y darpar denantiaid yn unigol ar gyfer cadarnhau cost eu pecynnau gofal. |
| | • Gofynnwyd hefyd ai ymarferiad mewn arbed costau yw'r cynllun. | • Darparu model llety sy'n cyd-fynd a deddfwriaeth ynghyd a pholisïau ac egwyddorion cenedlaethol a lleol yn y maes anabledd dysgu yw'r prif yrrwr am newid a gynigir. Gall lleihau dibyniaeth ar wasanaethau all-sirol lle yn briodol, gyfrannu at leihau costau darparu gwasanaeth ac felly cryfhau achos busnes i weithredu'r cynllun hwn. |
| 5. | **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**<br><br>• Gofynnwyd a oes cynllun ar gyfer y datblygiad a pha adnoddau eraill a fydd yn cael eu hadeiladu yno. | • Mae cyfle i gynllunio llety pwrpasol gyda nodweddion arbenigol sy'n uchafu'r cyfle i wneud defnydd o dechnoleg gynorthwyol.<br><br>• Bwriedir datblygu'r model llety newydd ar yr un safle, fel bod preswylwyr presennol Y Frondeg yn parhau i fyw yn y cartref tra bod y datblygiad newydd yn cael ei adeiladu.<br><br>• Bwriedir sefydlu Grŵp Ffocws gyda'r budd-ddeiliaid i drafod cynllunio ar gyfer y datblygiad i ddiwallu anghenion |

| | | |
|---|---|---|
| | | defnyddwyr presennol ac i'r dyfodol.<br><br>• Bwriedir ymchwilio ymhellach i fodelau llety gyda chefnogaeth a datblygiadau eraill ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu. |
| | • Awgrymwyd y dylid cael llety ar wahân, un i breswylwyr Y Frondeg a un arall i unigolion ag anghenion cymhleth. | • Y bwriad yw datblygu model llety Cefnogol yn hytrach nag model preswyl er mwyn sicrhau gwasanaeth sy'n cyd-fynd gyda'r weledigaeth ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu. Bydd cyfle i ddatblygu nifer o unedau bychain ar yr un safle gan gynnwys unedau sengl ac unedau rhannu yn ddibynnol ar anghenion, cyfaddasrwydd a dymuniad pob dymuniad defnyddiwr gwasanaeth. |
| | • Mynegwyd y farn hefyd fod 16 yn nifer uchel o bobl i fod yn lletya mewn un safle.<br><br>• Gan groesawu cyfle i ddatblygu eiddo addas, cafwyd awgrymiadau ar sut y dylai'r datblygiad newydd edrych. | • Bydd y model yn rhoi cyfle i gynnig preifatrwydd drwy ddatblygu unedau ar wahân. Bydd cyfle i ddatblygu model sy'n hybu annibyniaeth yn ogystal â rhoi cyfle i unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a chyfleoedd i gymdeithasu. |
| | • Gofynnwyd os oedd modd gwella'r cartref yn hytrach na cau'r cartref. | • Nid yw cartref cofrestredig Y Frondeg yn fodel sy'n cyd-fynd gyda strategaeth ranbarthol a chenedlaethol ac nid yw'n fodel sy'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.<br><br>• Bydd cyfle i fudd-ddeiliaid wneud awgrymiadau ar y dyluniad trwy'r grŵp gaiff ei sefydlu. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ymgynghoriad** | |
| | • Roedd pryder ynglŷn ag ansawdd yr ymgynghoriad. | • Mae'r 'Adroddiad ar Ganlyniadau Ymgynghoriad ar Ddyfodol Cartref Y Frondeg'(Atodiad 2) yn amlinellu'r broses ymgynghoriad. Bydd problem gyda chwblhau holiadur ar lein rhwng 16 Medi a 22 Medi, oedd tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth. Rhoddwyd datganiad ar we-dudalen yr ymgynghoriad ac anfonwyd llythyr at deuluoedd defnyddwyr gwasanaeth Y Frondeg ac fe gysylltwyd gyda staff y cartref i'w hysbysu o'r broblem a'u gwahodd i ail gyflwyno'r holiaduron. Oherwydd hyn, penderfynwyd ymestyn cyfnod yr ymgynghoriad am wythnos ychwanegol. Gall y digwyddiad yma olygu bod rhai ymatebion wedi eu colli. |
| | • Awgrymwyd y dylai fod dau ymgynghoriad ar wahân, un ar gyfer dod â phobl all-sirol yn ôl i Wynedd, ac un arall ar gyfer datblygiad arbenigol i unigolion ag anghenion dwys a chymhleth ar safle Frondeg. | • Cynhaliwyd un ymgynghoriad oherwydd bod y ddau fater yn gysylltiedig ag yn ddibynnol ar ei gilydd. |

# CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

**Asesiad effaith ar broses Ymgynghoriad ar ddyfodol cartref Y Frondeg**

## 1) AWDUR YR ASESIAD

Olwen Ellis Jones, Rheolwr Gwasanaeth Anableddau Dysgu, Oedolion Iechyd a Llesiant**.**

## 2) PARTNERIAID

Preswylwyr presennol Y Frondeg, eu teuluoedd a'r staff
Oedolion ar Gofrestr Anabledd Dysgu, Cyngor Gwynedd
Defnyddwyr gwasanaeth sydd yn derbyn gofal yn All Sirol a'u teuluoedd
Teuluoedd a Gofalwyr plant gydag Anableddau Dysgu oed trosiannol drwy wasanaeth Derwen
Aelod Cabinet Gofal, Cynghorydd Gareth Roberts
Aelod Cabinet Tai, Cynghorydd Ioan Thomas
Cynghorydd Lleol Glyn Thomas (Cadnant)
Aelodau Cyngor Gwynedd
Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad
Grwp Gwella Gwasanaeth Anableddau Dysgu
Cynllun Cymunedol Arfon
Cyngor Tref Caernarfon
Grwp Awtistiaeth
Gwasanaeth Adfocatiaeth
Y Gymuned leol

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

**1 Mehefin 2015**
**Dyddiad cychwyn Ymgynghoriad ffurfiol 14 Medi 2105**

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

Bydd yr asesiad yn cael ei adolygu yn rheolaidd a'i addasu fel bo'r angen.

## 5) NOD AC AMCANION Y GWASANAETH

Y mae tryloywder yn angenrheidiol yn y broses o wneud penderfyniadau o fewn y Cyngor, gan ystyried barn y bobl sydd yn cael eu heffeithio.

Mae ymgynghoriad wedi ei gynnal ar ddyfodol cartref cofrestredig Y Frondeg, i ystyried model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu ar gyfer y dyfodol sy'n cydymffurfio gyda Strategaeth Llywodraeth Cymru a gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer pobl ag Anabledd Dysgu.

## 6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad yn eang drwy'r wasg, ac ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal a targedu prif fudd-ddeiliaid yn uniongyrchol, er mwyn codi ymwybyddiaeth budd-ddeiliaid a'r cyhoedd o'r broses ymgynghori a'r cyfle iddynt gymryd rhan.
Rhannwyd gwybodaeth mewn dull perthnasol i'r unigolyn
Darparwyd Becyn Gwybodaeth a Holiadur ac fe'i rhannwyd yn uniongyrchol gyda'r canlynol:

Teuluoedd preswylwyr Y Frondeg
Staff Y Frondeg
Cynrychiolwyr Etholedig yr ardal
Gwasanaeth Derwen
Teuluoedd Defnyddwyr sydd yn derbyn gofal yn All Sirol

Datblygwyd tudalen we ar gyfer yr ymgynghoriad, oedd yn cynnwys:

- gwybodaeth ar sut i gymeryd rhan yn yr ymgynghoriad,
- lawrlwytho'r Pecyn Gwybodaeth a Holiadur,
- cwblhau yr Holiadur ar-lein.
- Fersiwn hawdd ei ddarllen o'r Pecyn Gwybodaeth a Holiadur,
- Rhif cyswllt ar gyfer derbyn Pecyn drwy'r post.
- Rhif cyswllt ar gyfer ymholiadau

Cynigiwyd trefnu cyfarfodydd un i un gyda teuluoedd preswylwyr Y Frondeg a hefyd teuluoedd defnyddwyr sy'n derbyn gofal yn all-sirol.

Roedd gwasanaeth adfocatiaeth annibynol ar gael ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth oedd yn dymuno mynegi barn drwy'r cyfrwng hwn ar gael.

Trefniadau mewn lle i gefnogi budd-ddeiliaid allweddol yn ystod y cyfnod ymgynghoriad.

Roedd yr mesuriadau isod mewn lle i gefnogi budd-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghori:

1.Taflen gwybodaeth sydd yn nodi'r cefndir ac yn gosod y sefyllfa yn ei gyd-destun.
2. Holiadur ar yr opsiynau i dderbyn barn y budd-ddeiliaid
3.Cyfarfodydd unigol gyda preswylwyr presennol Y Frondeg a'u teuluoedddd os y dymunir.
4.Darpariaeth adfocatiaeth annibynnol ar gael i'r defnyddwyr os y dymunir.
5.Cyfarfodydd gyda'r staff.
6.Cynnal deialog gyda'r cynrychiolwyr etholedig.
7.Swyddog o'r Cyngor ar gael ar amseroedd penodol i dderbyn sylwadau yn ystod a dilyn yr ymgynghoriad.

Gweler adroddiad Cabinet ag adroddiad ar ganlyniad ymgynghoriad ar ddyfodol cartref y Frondeg

| |
|---|
| Bwriedir sefydlu grwp ffocws gyda'r budd-ddeiliad er mwyn sicrhau cyfraniad a llais y defnyddiwr gwasanaeth |

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Rydym yn parhau gyda chyfeiriad sydd wedi ei osod gan y Cyngor i wella ansawdd bywyd unigolion gydag Anableddau Dysgu.

Gwneir hyn drwy weithredu rhaglen trawsnewid model lletya Cyngor Gwynedd ar gyfer oedolion ag Anableddau Dysgu, yn unol â:

- Chynllun Comisiynu Anabledd Dysgu 2011-16
- Strategaeth Llywodraeth Cymru ' Polisi ac Arferion i Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu' 2007

A gweledigaeth Strategol Gogledd Cymru:
'Mobius UK Developing Citizen Centred' Services for People with Learning Disabilities (2008)

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Byddwn yn parhau i geisio barn yr holl fudd-ddeliad ar y gofrestr Anabledd Dysgu er mwyn sicrhau na fydd bylchau mewn tystiolaeth.

## 9) PERTHNASEDD AC EFFAITH

### 9a) O safbwynt y dyletswyddau cyffredinol

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Amherthnasol | Byddem yn sicrhau yn ystod y broses ymgynghori ni fydd camwahaniaethu yn erbyn unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | **Perthnasol** | Bydd datblygiad llety newydd yn cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth ag yn gwella cyfleoedd ag opsiynau ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu ( |
| **Meithrin perthnasau da** | **Perthnasol** | Byddem yn hybu perthnasau da drwy annog cyfranogiad a mewnbwn budd-ddeiliaid amrywiol.<br>Bydd datblygiad newydd yn rhoi cyfle i oedolion ag Anabledd Dysgu fod yn fwy o ran yn eu cymuned leol.<br>Bydd y budd-ddeiliad yn rhan o'r grŵp ffocws |

**9b) O safbwynt y grwpiau cydraddoldeb**

| Nodweddion | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Hil** | Perthnasol | Bydd ystyriaeth i anghenion unigol pob defnyddiwr gwasanaeth |
| **Anabledd** | Perthnasol | Bydd y datbygiad newydd yn caniatau i oedolion ag anabledd dysgu fyw bywydau iach, cynhyrchiol ac annibynnol a datblygu hyd eithaf eu potensial; bod yn unigolion sy'n penderfynu dros eu hunain ar faterion o ddydd i ddydd a byw eu bywydau o fewn eu cymuned. |
| **Rhyw** | Perthnasol | Rhoddir ystyriaeth i anghenion unigol pob defnyddiwr gwasanaeth ynghyd ag ystyriaeth i anghenion staff wrth gynllunio gwasanaeth |
| **Ailbennu rhywedd** | Perthnasol | Rhoddir ystyriaeth i anghenion unigol pob defnyddiwr gwasanaeth ynghyd ag ystyriaeth i anghenion staff wrth gynllunio gwasanaeth |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Perthnasol | Rhoddir ystyriaeth i anghenion unigol pob defnyddiwr gwasanaeth ynghyd ag ystyriaeth i anghenion staff wrth gynllunio gwasanaeth |
| **Crefydd neu gred** | Perthnasol | Rhoddir ystyriaeth i anghenion unigol pob defnyddiwr gwasanaeth ynghyd ag ystyriaeth i anghenion staff wrth gynllunio gwasanaeth |
| **Yr iaith Gymraeg** | Perthnasol | Byddwn yn sicrhau darpariaeth Cymraeg yn y datblygiad newydd. |
| **Oedran** | Perthnasol | Rhoddir ystyriaeth i anghenion unigol pob defnyddiwr gwasanaeth a staff, bydd y gwasanaeth ar gael ar gyfer pob unigolyn dros 18 oed. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Perthnasol | Rhoddir ystyriaeth i anghenion unigol pob defnyddiwr gwasanaeth ynghyd ag ystyriaeth i anghenion staff wrth gynllunio gwasanaeth |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Perthnasol | Rhoddir ystyriaeth i anghenion unigol pob defnyddiwr gwasanaeth ynghyd ag ystyriaeth i anghenion staff wrth gynllunio gwasanaeth |

## 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| **a)** | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Ddim yn rhagweld unrhyw effaith ar rhan fwyaf o'r nodweddion ond os oes unrhyw fater angen cyfarch byddwn yn rhoi sylw i hyn |
| **b)** | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Bydd y mesuriadau isod mewn lle i gefnogi budd-ddeiliaid<br><br>1. Gwybodaeth ddwy ieithog ac yn gosod y sefyllfa yn ei gyd-destun.<br>2. Gwybodaeth yn cael ei baratoi ar ffurf addas i'r defnyddwyr.e.e. gwybodaeth hawdd ei ddarllen<br>3. Parhau gyda cyfarfodydd unigol gyda'r defnyddwyr a'u teuluoedd os y dymunir.<br>4. Parhau darpariaeth adfocatiaeth annibynnol ar gael i'r defnyddwyr os y dymunir, mynediad i weithiwr cymdeithasol.<br>5. Cyfarfodydd gyda'r staff.<br>6. Cynnal deialog gyda'r cynrychiolwyr etholedig.<br>7. Swyddog o'r Cyngor ar gael ar amseroedd penodol i dderbyn sylwadau. |
| **c)** | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br>Bydd yr asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei adolygu pan ddadansoddi'r canlyniadau'r ymgynghoriad. |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

| |
|---|
| Pe bai'r argymhelliad i ddatblygu model llety newydd yn cael ei gymeradwyo a dod a defnydd cartref cofrestredig Y Frondeg i ben, bydd Rheolwr Ymgysylltu ynghyd a swyddogion perthnasol o fewn Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cydweithio i gefnogi'r budd-ddeiliaid allweddol drwy'r cyfnod. |

## 12) CYNLLUN GWEITHREDU

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif gamau gweithredu fydd ynghlwm i unrhyw broses ymgysylltu.

| **Prif Gamau Gweithredu** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Dehongli canlyniadau'r ymgynghoriad a pharatoi adroddiad i gabinet gydag argymhellion ar y ffordd ymlaen | Tachwedd/Rhagfyr 2015 |
| Cyflwyno'r canlyniadau ac adroddiad i'r Cabinet | Ionawr 2016 |
| Derbyn arweiniad gan y Cabinet ar y ffordd ymlaen. | Ionawr 2016 |
| | |

## 13) PENDERFYNU

Cafodd yr asesiad hwn ei dderbyn a'i gymeradwyo gan

- Rheolwr Gwasanaeth Anableddau Dysgu
- Pennaeth Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

# Adroddiad Ymchwiliad Iaith – Y Gymraeg mewn Cyfarfodydd

**Aelodau'r Ymchwiliad**
Y Cynghorydd Craig ab Iago
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Y Cynghorydd Charles Jones
Y Cynghorydd Elfed Williams
Y Cynghorydd Gweno Glyn
Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (hyd at Mai, 2015)

**Swyddogion**
Arwel E Jones (Swyddog Arweiniol)
Eirian Roberts (Swyddog Cefnogol)

Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd
LL55 1SH

Hydref 2015

DRAFFT

**Cynnwys**


| **Yr Adroddiad** | **Tudalen** |
|---|---|
| 1. Cyd-destun | 3 |
| 2. Pwrpas yr Ymchwiliad | 3 |
| 3. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad | 4 |
| 4. Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion yr Ymchwiliad | 5 |
| **Yr Atodiadau** | |
| Atodiad 1 – Crynodeb o ganlyniadau'r Holiadur ar gyfer Rheolwyr ac Aelodau o'r Cyngor | |
| Atodiad 2 - Crynodeb o ganlyniadau'r Holiadur ar gyfer Cyrff Allanol | |
| Atodiad 3 – Rhestr o'r rhai a gyfwelwyd gan yr Ymchwiliad | |
| Atodiad 4 – Dadansoiddiad o ganlyniadau holiaduron i staff sy'n gweithio i Gyngor Gwynedd ar yr hyn y maent yn gwerthfawrogi o ran gweithio i'r Cyngor | |
| Atodiad 5 – Canllawiau "Cadeirio Cyfarfodydd Dwyieithog", (cyhoeddwyd gan Hunaniaith a Bwrdd yr Iaith Gymraeg) | |


DRAFFT

## 1. **Cefndir**

1.1 Yn ei gyfarfod ar 23 Hydref, 2014, bu'r Pwyllgor Iaith yn ystyried yr angen am strwythur ar gyfer edrych mewn mwy o fanylder ar elfennau penodol nad oedd modd rhoi sylw dyladwy iddynt yn y cyfarfodydd pwyllgor.

1.2 Penderfynodd y pwyllgor::-

- Cynnal un ymchwiliad yn unig ar y tro, gydag uchafswm o 2 ymchwiliad o fewn blwyddyn galendr (yn unol â'r drefn ymchwiliadau craffu).
- Y dylai'r ymchwiliadau edrych ar bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn y lle cyntaf.

1.3 Penderfynwyd hefyd sefydlu'r ymchwiliad cyntaf gan ofyn iddo edrych ar y defnydd o'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth iaith ymysg staff ac aelodau'r Cyngor, gyda golwg arbennig ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol.

## 2. **Pwrpas yr Ymchwiliad**

2.1 Cytunodd yr Ymchwiliad i'r briff a ganlyn ar gyfer yr Ymchwiliad:-

Un o Amcanion Sylfaenol Cynllun Iaith y Cyngor yw hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg gan gyrff cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor a chefnogi a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan gyrff a busnesau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardaloedd y Cyngor

Diben yr Ymchwiliad oedd:-
a) edrych ar y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd fel un dull o wneud hynny a
b) sicrhau a hwyluso cydymffurfiaeth â chymal 3.3.5. Y Cynllun Iaith: **"**Byddwn yn cyfarwyddo staff i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau allanol, ac i ofyn am ddarpariaeth cyfieithu-ar-y-pryd."

- Gallai'r meysydd dan sylw gynnwys:
  - Pwyso ar gyrff a mudiadau allanol i ddarparu cyfieithu-ar-y-pryd
  - Cadeirio cyfarfodydd dwyieithog a sut i annog o'r Gadair
  - Cyfrannu at gyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg
  - Sut i gyfathrebu'r anghenion yn effeithiol a chofiadwy

DS - Nodwyd y byddai'r Ymchwiliad yn llunio cyfres o argymhellion gan eu rhannu gyda'r Pwyllgor Iaith cyn iddynt gael eu rhoi ar waith.

DRAFFT

**3. Prif Weithgaredd yr Ymchwiliad**

3.1 Cytunwyd ar raglen waith a oedd ceisio cyfarch y briff. Roedd sawl cam gwahanol i'r rhaglen waith:

3.2 Cam 1

- Lluniwyd holiadur i gyrff allanol (mewn ymgynghoriad â'r Uned Ymchwil ac aelodau'r ymchwiliad) yn holi am eu darpariaethau ar gyfer y Gymraeg mewn cyfarfodydd gan eu hysbysu y bydd eu hymatebion yn cael eu rhannu gyda chynrychiolwyr y Cyngor ar y cyfryw gyrff er mwyn gwirio ar sail eu profiadau hwy.
- Lluniwyd holiadur i reolwyr o fewn y Cyngor (mewn ymgynghoriad â'r Uned Ymchwil ac aelodau'r ymchwiliad) yn holi (yn ddienw) am eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol.

3.3 Cam 2

- Cyfarfod o'r ymchwiliad:-
  (a) Cyfwelwyd Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet – Y Gymraeg a'r Prif Weithredwr.
  (b) Cyfwelwyd Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor am y seicoleg o ran defnydd iaith.

3.4 Cam 3

- Cynhaliwyd cyfarfod pellach i holi swyddogion unigol ymhellach am eu profiad am y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd y tu allan i'r Cyngor ac ar drefniadau cyfieithu mewn cyfarfodydd o'r fath a'r hyn a wna'r Cyngor i gefnogi ei staff i ddatblygu yn ei hyder o ran defnyddio'r Gymraeg.

3.5 Cam 4

- Paratowyd adroddiad, ei drafod gydag Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet – Y Gymraeg a'r Prif Weithredwr.a chyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Iaith.

.

DS Dylid nodi bod yr Ymchwiliad wedi canolbwyntio ar gyfarodydd cyfundrefnol, neu fel mae'r Cynllun Iaith yn nodi "cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau allanol.". Nid oedd yr Ymchwilad yn edrych ar gyfarfodydd bychan anffurfiol o ddau neu dri o bobl lle y derbynnir bod patrwm iaith "un i un" unigolion yn wahanol a bod angen gwneud yn glir bod gwahaniaeth o ran y disgwyliadau mewn cyfarfodydd cyfundrefnol sydd yn fwy o ran maint a ffurfioldeb.



DRAFFT

## 4. Prif Ganfyddiadau'r Ymchwiliad

4.1 Mae'r Ymchwiliad wedi dael budd mawr o dderbyn mewnbwn rheolwyr ar draws y Cyngor drwy'r holiadur a chyfarfodydd unigol ac wedi ei galonogi yn fawr iawn gan awydd swyddogion i fod yn gweithredu Polisi Iaith y Cyngor. Mae'n amlwg hefyd bod nifer o staff yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwaith pob dydd ac o weithio i sefydliad sydd yn annog a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith.

4.2 Yn gyson, mae holiaduron staff wedi dangos bod y "gallu defnyddio'r iaith Gymraeg yn fy ngwaith" wedi dod allan fel y trydedd rheswm bob tro pam mae staff yn teimlo bod Cyngor Gwynedd yn lle gwych i weithio (ar ôl amodau a thelerau gwaith da a'r bobl eraill y maent yn cyd-weithio â hwy).(Gweler Atodiad 4) Nid dyna'r sefyllfa mewn sefydliadau cyhoeddus eraill y tu fewn a'r tu allan i'r sir ac, yn amlwg, roedd profiadau swyddogion ac aelodau o fynychu cyfarfodydd allanol yn rhai reit amrywiol

4.3 Roedd y wybodaeth o'r holiaduron hefyd yn dadlenni sefyllfa lle mae rheolwyr ac aelodau'r Cyngor yn wynebu'r sefyllfaoedd a ganlyn pan yn mynychu cyfarfodydd y tu allan i'r Cyngor

- Yn achlysurol, mynychir cyfarfodydd lle nad oes unrhyw ddarpariaeth gyfieithu o gwbl
- Pan y mae offer ar gael, mae rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn medru bod yn anghyfarwydd â defnyddio offer ac yn amharod i'w ddefnyddio yn sgil hynny
- Pan y mae offer cyfieithu yn cael ei ddarparu, mae'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn y cyfarfodydd hynny yn y lleiafrif ac mae'r rhai sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn llai fyth

4.4 Yn sgil yr uchod, mae'r Ymchwiliad wedi adnabod nifer o argymhellion lle yr ystyrir y mae lle i wella.

| **1. Gwybodaeth i Gyrff Allanol** |
|---|
| **Canfyddiadau** –<br><br>Mae diwylliant ac arferion cyrff a sefydliadau eraill yn gwbl wahanol o ran y disgwyliad i fedru siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd |
| **Tystiolaeth** –<br><br>Profiad rheolwyr ac aelodau wrth fynychu cyfarfodydd allanol |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>Argymhellir bod y Cyngor yn cysylltu gyda phob corff allanol y mae'n enwebu rheolwyr ac aelodau iddynt i dynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor yn:-<br>• Disgwyl i gynrychiolwyr o'r Cyngor gyfrannu at y cyfarfodydd hynny trwy gyfrwng y Gymraeg<br>• Disgwyl darpariaeth cyfeithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyfundrefnol o'r fath<br>• Disgwyl bod papurau ar gyfer y cyfarfodydd yn cael eu paratoi yn ddwyieithog<br>• Disgwyl y bydd anogaeth i gynrychiolwyr y Cyngor, ac eraill, i gyfrannu trwy |

DRAFT

| |
|---|
| gyfrwng y Gymraeg |

| **2. Cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd allanol** |
|---|
| **Canfyddiadau** – <br><br> Mae canfyddiad nad yw rheolwyr nac aelodau yn ymwybodol o bolisi presennol y Cyngor o "gyfarwyddo staff i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus, pwyllgorau neu gynadleddau allanol, ac i ofyn am ddarpariaeth cyfieithu-ar-y-pryd." |
| **Tystiolaeth** – <br><br> Ymateb yr holiaduron a sgyrsiau unigol gyda rheolwyr yn awgrymu bod awydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ond bod rhai yn teimlo pwysau cudd i beidio â gwneud hynny rhag ymddangos yn drafferthus i gyd-aelodau a chyd-weithwyr |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –** <br><br> Argymhellir bod y Cyngor, wrth enwebu cynrychiolwyr i gyfarfodydd allanol (boed yn rheolwyr neu aelodau) yn eu hatgoffa:- <br>• Bod y Cyngor yn dymuno eu cefnogi yn eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd o'r fath <br>• Mai gweithredu polisi'r Cyngor y maent wrth wneud hynny a nid gweithredu ar fympwy personol <br>• Y dylid cysylltu â chyrff allanol cyn mynychu cyfarfodydd i holi os bydd darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael <br>• Y dylid adrodd yn ôl i'r Cyngor am unrhyw sefyllfaoedd lle y mae'n amlwg nad yw corff allanol neu sefydliad arall wedi darparu'r cyfle na'r gefnogaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg <br>• Bod technegau ar gael i wneud y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd yn haws (ee rhagymadroddi ychydig i roi cyfle i unigolion di-Gymraeg wisgo eu clustffonau os nad ydynt eisoes yn gwneud) |

| **3. Cadeirio Cyfarfodydd** |
|---|
| **Canfyddiadau** – <br><br> Mae rôl y Cadeirydd mewn cyfarfodydd yn allweddol o ran gosod y tôn ar gyfer cyfarfod yn cynnwys y patrwm ieithyddol |
| **Tystiolaeth** – <br><br> Mae canllaw "Cadeirio Cyfarfodydd Cymraeg a Dwyieithog" (Gweler Atodiad 5) yn cynnig arweiniad clir ac effeithiol ar gyfer gwneyd hynny ond prin yw'r dystiolaeth o gadeiryddion yn gosod cyd-destun positif ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –** <br><br> Argymhellir bod y Cyngor yn dwyn sylw cyrff ac asiantaethau allanol at y canllawiau |

DRAFFT

ar gadeirio cyfarfodydd Cymraeg a dwyieithog ac yn eu hannog i'w rhannu gyda'u cadeiryddion er mwyn eu grymuso i annog y defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd

**4. Dylanwadu ar Bartneriaid Cyhoeddus Sirol**

**Canfyddiadau** –

Mae gan y Cyngor rôl arweiniol allweddol i geisio dylanwadu'n gadarnhaol ac ennill cyfeillion i'r Gymraeg.
Mae lefel y ddarpariaeth o wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y sector gyhoeddus yng Ngwynedd yn amrywio a nid yw trigolion yn medru bod yn sicr o'r lefel o wasanaeth y medrant ei ddisgwyl

**Tystiolaeth** –

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn comisiynu gwaith i greu diffiniad o weithle dwyieithog y byddai'r Cyngor a'i bartneriaid yn ei fabwysiadu fel diffiniad safonol er mwyn ceisio "sicrhau eglurder a safon cyson o wasanaethau cyhoeddus dwyieithog i drigolion" dros amser
Mae Safonau'r Iaith Gymraeg, fel y maent wedi ei drafftio, yn cynnig isafswm safon ond nid un sydd yn ddigonol i drigolion mewn sir fel Gwynedd sydd â chanran mor sylweddol o'i drigolion yn siarad Cymraeg.

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**

Argymhellir bod adroddiad yn ôl i Bwyllgor Iaith y Cyngor ar gynnydd prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Lleol

**5. Dylanwadu ar Gynghorau Eraill**

**Canfyddiadau** –

Mae gan y Cyngor rôl arweiniol allweddol i geisio dylanwadu'n gadarnhaol ac ennill cyfeillion i'r Gymraeg.
Mae angen gwneud mwy i geisio dwyn perswad ar gynghorau eraill am bwysigrwydd hybu a chaniatau defnydd y Gymraeg

**Tystiolaeth** –

Mae patrwm y ddarpariaeth Gymraeg ar draws cynghorau yng Nghymru yn amrywiol iawn.
Nid oes strwythur yn ei le ar gyfer ceisio dylanwadu ar a chefnogi cynghorau i wella yn eu darpariaeth

**Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**

Argymhellir bod yr Aelod Cabinet yn ceisio dwyn ynghyd grwp o Aelodau Cabinet sydd yn cario'r Portffolio Iaith o fewn cynghorau eraill fel dechrau i'r gwaith o ddwyn perswad a hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y cynghorau hynny

DRAFT

| **6. Awdit o'r Gymraeg o fewn y Cyngor** |
|---|
| **Canfyddiadau** –<br><br>Mae angen i'r Cyngor fodloni ei hun ynglyn â'r hyder a'r parodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws ei wasanaethau ac mae angen targedu gwaith hybu a datblygu sgiliau ymysg staff |
| **Tystiolaeth** –<br><br>Mae'r Cyngor, yn ei Gynllun Strategol, wedi ymrwymo i sefydlu dealltwriaeth "o'r modd y mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r Gymraeg ar hyn o bryd, a'r cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael i'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg gyda thrigolion y sir"<br>Mae'r gwaith hybu a datblygu sgiliau'r Gymraeg ar hyn o bryd yn waith ymatebol sydd yn ymateb i geisiadau yn hytrach na'i fod wedi ei dargedu ar sail asesiad |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>Argymhellir bod yr Aelod Cabinet adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Iaith ar ganlyniadau'r Awdit yn fuan yn 2016/17 gan adrodd ar y camau gweithredu arfaethedig sydd yn codi o'r Awdit |

| **7. Eglurder a Symlder Iaith** |
|---|
| **Canfyddiadau** –<br><br>Mae canfyddiad bod Cymraeg swyddogol y Cyngor yn medru bod yn gymhleth ac anodd i'w ddeall ac mae'n medru bod yn achos i rai sydd yn llai hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg oedi cyn mentro |
| **Tystiolaeth** –<br><br>Tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad a chanfyddiadau aelodau'r Ymchwiliad |
| **Argymhelliad i'r Aelod Cabinet –**<br><br>Argymhellir bod neges yn mynd allan i staff y Cyngor bod y Cyngor yn awyddus i aelodau o staff fentro yn eu defnydd o Gymraeg clir a syml er mwyn datblygu eu hyder a'u sgiliau ymhellach. |


DRAFFT


**ATODIAD 1**

**Y DEFNYDD O'R GYMRAEG MEWN CYFARFODYDD – RHEOLWYR AC AELODAU GWYNEDD**


CANLYNIADAU'R HOLIADUR

Roedd **96 holiadur wedi cael ei gwblhau** gan reolwyrl ac aelodau Gwynedd.





**3. A oes trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfodydd hynny?**





**4. A ydych yn defnyddio’r Gymraeg yn y cyfarfodydd hynny?**





**5. Os nad ydych yn defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur, beth yw'r rheswm pam nad ydych yn gwneud hynny? - Rwyf mewn lleiafrif bychan sydd yn medru siarad Cymraeg**






**5. Os nad ydych yn defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur, beth yw'r rheswm pam nad ydych yn gwneud hynny? - Nid wyf yn ddigon hyderus i siarad Cymraeg yn y cyfarfodydd hyn**





5. Os nad ydych yn defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur, beth yw'r rheswm pam nad ydych yn gwneud hynny? - Nid oes darpariaeth gyfieithu
Ia 11%
Na 89%


5. Os nad ydych yn defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur, beth yw'r rheswm pam nad ydych yn gwneud hynny? - Nid yw'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei groesawu
Ia 2%
Na 98%



6. Beth fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol? - Cadeirydd sy'n medru siarad Cymraeg
Ia
45%
Na
55%


6. Beth fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol? - Papurau ar gael yn y Gymraeg
Ia
30%
Na
70%


**6. Beth fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol? - Offer cyfieithu ar gael**




**6. Beth fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol? - Hybu pobl i siarad Cymraeg os ydynt yn gallu**



**6. Beth fyddai'n eich annog i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol? - Bathodynnau i bobl ddweud eu bod yn siarad Cymraeg**



ATODIAD 2

**Y DEFNYDD O'R GYMRAEG MEWN CYFARFODYDD - CYRFF ALLANOL**


**CANLYNIADAU'R HOLIADUR**

Dim ond 12 **holiadur oedd wedi eu cwblhau** gan gyrff allanol sef:-


- Rheilffordd Arfordir y Cambrian
- WLGA Employment Team
- Gwasanaeth Cyfun Mwynau a Gwastraff Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Llyfrau Cymru
- Cynllun Datblygu Gwledig Gwynedd (rhan o adran Economi Gwynedd)
- Ymddiriedolaeth Capel Newydd, Nanhoron (elusen)
- Cyngor Cymru ar gyfer y Byddar
- Cymdeithas Canolfan Noddfa
- Cyngor Sir y Fflint
- GISDA
- Theatr Harlech Cyf
- Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy

Gweler ganlyniadau'r ymatebion isod:-


**1. A oes gennych bolisi neu drefn benodol ar gyfer darparu papurau dwyieithog (Cymraeg / Saesneg) yn eich cyfarfodydd?**



**2. I ba raddau yr ydych yn cyfeirio at neu'n gwneud defnydd o'r polisi neu drefniadau hynny?**





**3. A oes gennych drefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn eich cyfarfodydd cyfundrefnol?**




| **4. Faint o aelodau ar eich cyrff allanol sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd cyfundrefnol?** | |
|---|---|
| Rheilffordd Arfordir y Cambrian | 20 - Un neu ddau o swyddogion yn cynrychioli cyrff eraill yn cyflwyno neu adrodd yn Saesneg e.e Network Rail, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Ond ar y cyfan mae'r gweithdrefnau yn cael eu cynnal yng Nghymraeg. |
| WLGA Employment Team | Heb ymateb |
| Gwasanaeth Cyfun Mwynau a Gwastraff Cyngor Sir y Fflint | 3 – Mae hyn ond yn berthnasol i'r Gwasanaeth Cyfun Mwynau a Gwastraff a nid Cyngor Sir y Fflint yn ei gyfanrwydd |
| Cyngor Llyfrau Cymru | 6 |
| Cynllun Datblygu Gwledig Gwynedd (rhan o adran Economi Gwynedd) | Mae'r cyfarfodydd allan bron i gyd gyda aelodau iaith gyntaf cymraeg – tua 90% |
| Ymddiriedolaeth Capel Newydd, Nanhoron (elusen) | Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfarfod yn anaml; mae pawb sydd yn weithredol arno yn medru'r Gymraeg |
| Wales Council for Deaf People | Cyn belled ag y gwn, cynhelir yr holl gyfarfodydd yn Saesneg |
| Cymdeithas Canolfan Noddfa | Cynhelir yr holl gyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg |
| Cyngor Sir y Fflint | Mae hyn yn anodd i'w ganfod a byddai'n dibynnu ar sgiliau ieithyddol aelodau. Mae un aelod etholedig yn sraiadwr Cymraeg rhugl ond mae aelodau eraill wedi eu cefnogi i ddysgu Cymraeg |
| GISDA | Dau gynghorydd |
| Theatr Harlech Cyf | Dim sylwadau |
| Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy | Dibynnu at ba gyrff allanol rydych chi'n cyfeirio |


**5. A yw aelodau a swyddogion Cyngor Gwynedd, sydd yn mynychu eich cyfarfodydd yn gwneud defnydd o'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd?**




**6. O ran trefniadau i hwyluso neu hybu’r defnydd o’r Gymraeg yn eich cyfarfodydd, i ba raddau ydych yn gwneud y canlynol - Cadeirydd sy'n medru siarad Cymraeg**






**6. O ran trefniadau i hwyluso neu hybu’r defnydd o’r Gymraeg yn eich cyfarfodydd, i ba raddau ydych yn gwneud y canlynol - Papurau ar gael yn Gymraeg**




**6. O ran trefniadau i hwyluso neu hybu’r defnydd o’r Gymraeg yn eich cyfarfodydd, i ba raddau ydych yn gwneud y canlynol - Offer cyfieithu ar gael**




6. O ran trefniadau i hwyluso neu hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd, i ba raddau ydych yn gwneud y canlynol - Hybu pobl i siarad Cymraeg os ydynt yn gallu
Byth 0%
Weithiau 33%
Bob tro 67%


6. O ran trefniadau i hwyluso neu hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich cyfarfodydd, i ba raddau ydych yn gwneud y canlynol - Bathodynnau i ddweud eu bod yn siarad Cymraeg
Bob tro 25%
Weithiau 8%
Byth 67%

**ATODIAD 3**

| **Cyfarfodydd** | **Gwahoddedigion** |
|---|---|
| | |
| 27 Ebrill | Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor<br>Arweinydd y Cyngor<br>Aelod Cabinet – Y Gymraeg<br>Prif Weithredwr |
| 16 Gorffennaf | Bethan Evans (Arweinydd Tîm Cyfieithu)<br>Nia Gruffydd (Rheolwr Gwasanaethau Defnyddwyr)<br>Bryn Hughes (Rheolwr Amlosgfa)<br>Gareth James (Rheolwr - Cefnogi Aelodau a Chraffu) |
| 10 Medi | Arweinydd y Cyngor<br>Aelod Cabinet – Y Gymraeg<br>Prif Weithredwr<br>Catrin Parri (Swyddog Datblygu Gweithlu / Cyd-gysylltydd Iaith Gymraeg) |

**NODYN AR GANLYNIADAU HOLIADURON STAFF**

Mae'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith yn o'r brif atebion i gwestiwn agored "Beth sy'n gwneud Cyngor Gwynedd lle gwych i weithio" mewn holiaduron staff dros y blynyddoedd. Mae'n bwysig nodi bod hwn wedi bod yn gwestiwn hollol agored heb restr o ddewisiadau.

Yn 2013 roedd 8% o'r atebion yn deud "y gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg" (DS Roedd "aelodau eraill o'r tim" yn bell ar y blaen gyda 40% o'r atebion). Mae'r canran o ymatebion ynglyn âr Gymraeg ar yr un lefel â "Fy rheolwr" ,"darparu gwasanaethau o werth", "amodau a thelerau gwaith" a hefyd "y gallu i weithio'n hyblyg".

Yn 2011, er bod y canran yn llai (tua 5.5%) roedd yn rhan o'r un "grwp" o atebion. Roedd amrywiaeth yr atebion wedi gostwng y canrannau yn gyffredinol (e.e. oedd "aelodau eraill o'r tim" dal yr ateb uchaf, ond gyda chanran o ddim ond 28%).

Yn 2009 oedd 4.5% yn rhoi "defnydd o'r Gymraeg" fel ateb ond eto yn rhan o'r un grwp o atebion a'r ddau arolwg arall.

Oherwydd bod hwn yn gwestiwn agored gyda'r nifer o atebion yn amrywio o arolwg i arolwg, rhaid cymryd gofal o sut yr ydym yn defnyddio'r canrannau (hynny ydy, nid yw'r cynnydd yn y ganran o 2009 i 2013 ddim o reidrwydd yn dangos mwy o ymrwymiad at yr Iaith).

Fodd bynnag, mae yn sicr ei fod yn un o'r ffactorau pwysicaf gan staff pan y maent yn meddwl am "Beth sy'n gwneud Cyngor Gwynedd lle gwych i weithio" ac yn rhan o'r ail grwp o'r atebion mwyaf poblogaidd – ar ôl atebion sy'n ymwneud a'r "tim" - ar bob achlysur, ochr wrth ochr â phethau sylfaenol eraill i fywyd gwaith staff fel "amodau a thelerau gwaith".

# Cadeirio Cyfarfodydd Cymraeg a Dwyieithog

## Canllaw i Gadeiryddion



hunaniaith
Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd
Promoting the Welsh Language in Gwynedd

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

# Bwriad y canllaw hwn ydy...

eich cynorthwyo chi fel cadeirydd i:

- alluogi eich grŵp i barhau i gynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg

- adfer y sefyllfa os ydy eich grŵp neu bwyllgor yn ddiweddar wedi gorfod dechrau cynnal eich cyfarfodydd trwy gyfrwng y Saesneg trwy ddefnyddio gwahanol dechnegau i sicrhau bod y di-Gymraeg yn gallu cyfrannu at weithgarwch eich grŵp

- ganiatàu i aelodau'r grŵp gael cyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis.



# Swyddogaeth Cadeirydd

Fel cadeirydd, mae llwyddiant eich grŵp neu bwyllgor yn dibynnu'n helaeth arnoch chi!

Chi sydd yn bennaf gyfrifol am gael pawb i gyfrannu a chydweithio.

'Waeth pa mor ffurfiol neu anffurfiol yw'ch grŵp, mae'n bwysig eich bod yn gwneud i bawb deimlo bod eu cyfraniad yn bwysig.

Bydd eich agwedd chi, eich ffordd o siarad a thrafod pobl, yn cyfrannu at hyn wrth gwrs, ond mae hefyd yn bwysig eich bod yn ymwybodol o agweddau a gallu aelodau'r grŵp i siarad y Gymraeg a'r Saesneg.







## Arferion iaith

Wrth gael eich ethol yn Gadeirydd, roeddech yn etifeddu llu o arferion y grŵp / pwyllgor, gan gynnwys arferion ieithyddol.

Mae 69% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg ac mewn llawer rhan o Wynedd, mae grwpiau a phwyllgorau cymunedol fel arfer yn cynnal eu cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyfarfodydd capel, ysgol Sul, ysgolion cynradd, yr Urdd, yr Eisteddfod leol ac ati yn draddodiadol wedi cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg, ond bellach, mae pobl sy'n symud i fyw i'r ardal hefyd yn awyddus i ymuno a bod yn rhan o weithgareddau'r gymuned.

Mae'n gallu bod yn sefyllfa anodd wrth drio cynnwys y bobl hyn, eu hannog i gyfrannu i weithgarwch y gymuned a pharhau i gadw iaith y cyfarfodydd yn Gymraeg.

## Pam cadw'r Gymraeg?

Pam na thrown y cyfarfodydd yn gyfarfodydd dwyieithog neu Saesneg, wedi'r cwbl, mae'r Cymry Cymraeg yn medru siarad Saesneg yr un mor rhugl?

Un rheswm pwysig yw mai dim ond ar y rhan fechan hon o'r ddaear mae'r Gymraeg yn iaith naturiol cyfarfodydd, ac mi fyddai peidio â pharhau i siarad Cymraeg yn golygu colli iaith a llawer mwy na hynny, colli ffordd o fyw. Ac unwaith y bydd yr iaith wedi ei cholli, bydd yn rhy hwyr i'w chael yn ôl wedyn...

# Cyfieithu ar y pryd

Yr ateb symlaf i sicrhau fod pob aelod o'r pwyllgor yn gallu cyfrannu yn yr iaith o'i ddewis ydi defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Mae'r cyfieithydd yn bresennol i hyrwyddo cynnal y cyfarfod yn Gymraeg.

Bydd y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg yr un mor ddibynnol arno o ran eu gallu i gyfathrebu yn eu dewis iaith.

Y mae yno at wasanaeth pawb a dylai hynny hyrwyddo cydweithio o fewn y grŵp.

## Y MANTEISION

Mae modd parhau â'r arfer o gynnal cyfarfodydd yn Gymraeg, a galluogi aelodau di-Gymraeg i gyfrannu a gwneud eu rhan dros y gymuned.

Mae cyfieithu ar y pryd wedi hen ennill ei blwy yng Ngwynedd, ac mae'r Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg erbyn hyn wedi arfer clywed cyfieithu mewn cyfarfodydd, yn enwedig felly yn y sector cyhoeddus.

I lawer aelod di-Gymraeg, mae defnyddio offer cyfieithu ar y pryd yn aml iawn yn gam cyntaf o'u siwrnai i ddysgu'r iaith a gwerthfawrogi'r diwylliant lleol.

Gall darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd fod yn fuddsoddiad gwerth chweil er mwyn hyrwyddo cynydd mewn gweithgarwch cymunedol a chydlyniad ieithyddol a chymunedol.

Os ydych yn dymuno gwarchod y Gymraeg yn eich cyfarfodydd, mae'n syniad da i lunio polisi iaith ar gyfer eich grŵp. Gallai polisi iaith o'r fath nodi mai yn Gymraeg y bydd eich cyfarfodydd yn cael eu cynnal, ac y byddwch yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i sicrhau hynny.



# Beth ddylech chi fel **Cadeirydd** ei wneud...





## Ymlaen llaw

### DOGFENNAETH

Dylech chi neu'r ysgrifennydd sicrhau fod y ddogfennaeth i gyd, gan gynnwys cofnodion y cyfarfod diwethaf, yr agenda, unrhyw adroddiadau, cyflwyniadau powerpoint ac ati, yn cael eu hanfon at y cyfieithydd ychydig ddyddiau ymlaen llaw.

Gorau oll os gallwch anfon yr holl ddogfennaeth at y cyfieithydd ymlaen llaw yn ddwyieithog, wedi'r cyfan os oes angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfarfod, mae hefyd angen i chi ddarparu'r ddogfennaeth i'r aelodau hynny yn ddwyieithog hefyd.

### LLEOLI'R OFFER

Mae'n rhaid i'r cyfieithydd osod ei offer yn y man gorau iddo allu gweld a chlywed pawb, ond mae'r un mor bwysig bod yr offer yn cael ei osod mewn man sydd ddim yn ymyrryd ar eich cyfarfod.

Fel cadeirydd, dylech ymdrechu i gyrraedd ychydig yn gynnar i drafod hyn gyda'r cyfieithydd cyn y cyfarfod.

# Ar ddechrau'r cyfarfod

## ANNOG DEFNYDD O'R GYMRAEG

Croesawch bawb yn ddwyieithog ac egluro mai trwy gyfrwng y Gymraeg y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal, ond bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i sicrhau bod y di-Gymraeg yn gallu dilyn a chyfrannu.

Gofynnwch i'r aelodau di-Gymraeg wisgo'u clustffonau.

Gosodwch esiampl i weddill y Cymry Cymraeg sy'n bresennol trwy siarad yn Gymraeg o hyn allan, ac annog y Cymry Cymraeg eraill i gyfrannu yn Gymraeg hefyd. Eglurwch y byddwch chi'n ateb cwestiynau yn Gymraeg, hyd yn oed os ydyn nhw'n cael eu gofyn yn Saesneg, ac annog y Cymry Cymraeg eraill i wneud yr un peth. Dyna pam fod gwasanaeth cyfieithu yn bresennol.

## SICRHAU FOD PAWB YN CLYWED

Helpwch y cyfieithydd i wneud yn siŵr fod offer pawb yn gweithio ac nad yw lefel llais y cyfieithydd yn amharu ar y cyfarfod. O wneud hyn ar ddechrau'r cyfarfod byddwch wedi gwneud yn siŵr bod y cyfieithydd, y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg yn medru clywed.

## ANNOG DYSGWYR

Holwch a oes dysgwyr yn y cyfarfod.

Os oes dysgwyr yn bresennol, dangoswch fel cadeirydd eich bod yn edmygu eu hymdrech i ddysgu Cymraeg, ac anogwch nhw i siarad Cymraeg yn y Pwyllgor. Mae gweld rhywun yn mynd i'r drafferth i ddysgu'r Gymraeg wastad yn braf, ac i'r dysgwr mae cael cyfle i glywed Cymraeg a chael cyfle ac anogaeth i gyfrannu yn Gymraeg yn gallu bod yn hwb mawr.

Yr un pryd, atgoffwch y Cymry Cymraeg i fod yn amyneddgar a rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg.

# Yn ystod y cyfarfod

## UN AR UNWAITH!

Peidiwch â gadael i bobl siarad ar draws ei gilydd. Ni all y cyfieithydd gorau yn y byd gyfieithu dau lais yr un pryd!

## GLYNU AT Y GYMRAEG

Atebwch bob cwestiwn yn Gymraeg, hyd yn oed os iddyn nhw gael eu gofyn yn Saesneg. Mewn cyfarfod dwyieithog o'r fath, ni ddylai neb ystyried bod hyn yn anghwrtais.

Ond weithiau mae hynny'n anodd. Os byddwch wedi ateb cwestiwn Saesneg yn Saesneg, neu unrhyw un arall, mae'n syniad da i grynhoi yn Gymraeg. Mae sut y byddwch chi'n defnyddio'r Gymraeg ac yn glynu at y Gymraeg yn rhoi arweiniad clir i Gymry Cymraeg eraill yn y cyfarfod.

## CYSWLLT LLYGAD

Cadwch lygad ar yr aelodau sy'n gwisgo clustffonau iddyn nhw wybod eich bod yn ceisio sicrhau eu bod nhw'n dilyn y drafodaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydyn nhw'n disgwyl ateb i gwestiwn. Rhowch amser iddyn nhw wisgo a thynnu eu clustffonau er mwyn gwrando a siarad.






# Cynnal cyfarfod Cymraeg heb gyfieithydd

Ni fydd gan rai grwpiau neu bwyllgorau yr adnoddau i dalu am gyfieithydd, felly beth allwch chi ei wneud pan fo aelodau di-Gymraeg yn ymuno â chi?

BETH I'W WNEUD?

Mae'n bosibl y gallai egluro'r anawsterau hyn fod yn ddigon i ddwyn perswâd ar aelodau'r pwyllgor fod cyfiawnhad wedi'r cyfan dros dalu cyfieithydd i fod yn bresennol.

Fel arall, y nod gobeithio, fyddai parhau i gynnal y cyfarfod yn Gymraeg

Eglurwch i'r di-Gymraeg y byddai newid iaith yn gam rhy fawr i'w wneud am y rhesymau a'r anawsterau hyn, ond y byddwch chi fel cadeirydd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb yn y grŵp yn medru dilyn.

ANAWSTERAU NEWID IAITH

Mae'n berffaith bosibl mai yn Gymraeg y mae cyfarfodydd yn y gymuned yma yn draddodiadol wedi cael eu cynnal

Gallai newid iaith greu anhawster ieithyddol i aelodau'r grŵp.

Er efallai bod pawb yn deall Saesneg, ac yn defnyddio Saesneg mewn gwahanol sefyllfaoedd, nid yw hynny'n golygu bod y Cymry Cymraeg yn gyfforddus yn siarad Saesneg yn gyhoeddus.

Mae hyn yn arbennig o wir am ddefnyddio Saesneg yn eu cymuned leol eu hunain gan newid iaith oes o gyfathrebu gyda chyfeillion a chymdogion.

Yn aml byddai'n well gan lawer o Gymry Cymraeg a llawer o bobl ddi-Gymraeg gadw draw yn hytrach na bod yn gyfrifol am newid iaith cyfarfod neu iaith gweithgarwch cymunedol.

# Technegau y gallwch eu defnyddio

I ddod o hyd i gyfieithydd, cysylltwch â

**www.cyfieithwyrcymru.org.uk**

**01248 371839**

SYLWEBU

Trefnwch fod rhywun yn eistedd wrth ochr yr aelod di-Gymraeg gan grynhoi'r drafodaeth yn dawel yn Saesneg iddyn nhw. Does dim angen cyfieithu pob gair. Bydd llawer o'r cyfarfod yn ddealladwy heb gyfieithu pob gair – mae tôn llais a iaith y corff yn cyfleu llawer o'r ystyr hefyd.

Cofiwch y byddai'r sawl sy'n sylwebu yn gwneud hyn ar draul medru cyfrannu at y cyfarfod ei hun yn aml, felly dylid gofyn i Gymry Cymraeg wneud hyn yn eu tro.

DOGFENNAETH DDWYIEITHOG

Mae cael cofnodion ac agenda ac unrhyw ddogfennaeth neu gyflwyniad *Powerpoint* yn ddwyieithog yn hwyluso gallu cynnal cyfarfod ei hun trwy gyfrwng y Gymraeg, gan y gallai'r aelodau di Gymraeg ddilyn trefn yr eitemau.